



FUNDRAISING  
REGULATOR

# Cod Ymarfer Codi Arian

**V1.9**

**diweddarwyd  
19/06/18**

## Beth yw'r Cod Ymarfer Codi Arian?

Mae'r Cod Ymarfer Codi Arian yn amlinellu'r safonau a ddisgwylir gan bob sefydliad codi arian elusennol ar draws y DU. Cafodd y safonau eu datblygu'n wreiddiol gan y gymuned codi arian trwy waith y Sefydliad Codi Arian (IoF) a'r Gymdeithas Codi Arian Cyhoeddus (PFRA). Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn cydnabod y cyfraniad pwysig a wnaed gan y Sefydliad Codi Arian (IoF) o ran datblygu'r Cod Ymarfer Codi Arian.

Yn 2015, argymhellodd [Adolygiad o Reoleiddio Codi Arian](#) wedi'i gadeirio gan Syr Stuart Etherington fod y cyfrifoldeb dros y Cod yn cael ei drosglwyddo i Reoleiddiwr Codi Arian newydd i ddiogelu annibyniaeth rheoleiddio codi arian.

Trosglwyddwyd y Cod i'r Rheoleiddiwr Codi Arian pan gafodd ei lansio ar **7 Gorffennaf 2016**. Mae penderfyniadau ynghylch newidiadau i'r Cod yn cael eu gwneud gan [Bwyllgor Safonau'r](#) Rheoleiddiwr Codi Arian trwy ymgynghori â'r gymuned codi arian.

**RHAID\*** i ymddygiad sefydliadau codi arian fod yn gyfreithiol a **RHAID** iddynt fod yn agored, yn onest ac yn barchus.

Defnyddiwyd "**RHAID\***" a "**RHAID PEIDIO\***" os oes gofyniad cyfreithiol a "**RHAID**" a "**RHAID PEIDIO**" (heb seren) pan nad oes gofyniad cyfreithiol ond mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn trin y mater fel safon broffesiynol i'w bodloni gan y sefydliadau codi arian.

## Sut mae cwynion am godi arian yn cael eu trin?

Dylai unrhyw gwynion am ddulliau codi arian elusen gael eu gwneud i'r [Rheoleiddiwr Codi Arian](#). Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn gweithredu fel system cwynion cyhoeddus annibynnol ar gyfer y cynllun hunanreoleiddio, gan gynnig system unioni ar gyfer y cyhoedd.

Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian hefyd yn gosod y safonau proffesiynol ar gyfer codi arian wyneb yn wyneb a chodi arian o ddrws i ddrws (y llyfrau rheolau codi arian ar y stryd a chodi arian o ddrws i ddrws).

Dylai unrhyw gwynion am ymddygiad proffesiynol sefydliad codi arian gael eu gwneud trwy [drefn gwyno'r](#) Rheoleiddiwr Codi Arian.

Bydd y Rheoleiddiwr Codi Arian yn ystyried cwynion yn erbyn y gyfraith a'r cyfarwyddyd sydd mewn grym ar ddyddiad y digwyddiad sy'n destun y gŵyn.

*Sylwch, bydd y Cod a'r cyfarwyddyd yn pennu'r dyddiad y defnyddiwyd y gyfraith ac arferion gorau at ddibenion y Cod a'r cyfarwyddyd. Wrth gynllunio ac adolygu dulliau codi arian dylech wirio a yw newidiadau wedi cael eu gwneud i'r gyfraith ac arferion gorau a fydd, er nad ydynt wedi'u cynnwys eto yn y Cod a'r cyfarwyddyd, yn gymwys i'ch ymgyrch neu'ch gweithgareddau chi.*

## Cyfeiriadau cyfreithiol



**Bates Wells Braithwaite** Mae Bates Wells & Braithwaite London LLP wedi cadarnhau bod "RHAID\*" a "RHAID PEIDIO\*" yn adlewyrchu gofyniad cyfreithiol mewn perthynas â'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr fel ym Mehefin 2012.



LEGAL · WEALTH MANAGEMENT · TAX Mae Turcan Connell wedi cadarnhau bod "RHAID\*" a "RHAID PEIDIO\*" yn adlewyrchu gofyniad cyfreithiol mewn perthynas â'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr fel ym Mehefin 2012.



**EDWARDS & CO.**  
SOLICITORS

Mae Edwards and Co. Solicitors wedi cadarnhau bod "RHAID\*" a "RHAID PEIDIO\*" yn adlewyrchu gofyniad cyfreithiol mewn perthynas â'r gyfraith yng Ngogledd Iwerddon fel ym Mehefin 2012.

# Adrannau'r Cod

RHAID\* i ymddygiad sefydliadau codi arian fod yn gyfreithiol a RHAID iddynt fod yn agored, yn onest ac yn barchus. Mae manylion pob adran o'r Cod i'w gweld isod:

## Adrannau'r Cod

- 1.0 Prif Egwyddorion ac Ymddygiadau
- 2.0 Gweithio gyda Gwirfoddolwyr
- 3.0 Gweithio gyda Phlant
- 4.0 Gweithio gyda Thrydydd Partïon
- 5.0 Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian
- 6.0 Marchnata Uniongyrchol
- 7.0 Postio Cytbwys
- 8.0 Ffôn
- 9.0 Cyfryngau Digidol
- 10.0 Ymddiriedolaethau
- 11.0 Prif Roddwyr
- 12.0 Partneriaethau Corfforaethol
- 13.0 Rafflau a Lotriau
- 14.0 Codi Arian trwy Roi Twy'r Gyflogres
- 15.0 Digwyddiadau
- 16.0 Casgliadau Cyhoeddus
- 17.0 Casgliadau Statig
- 18.0 Cymynroddion
- 19.0 Talu Codwyr Arian
- 20.0 Trin Rhoddion

# 1.0 Prif Egwyddorion ac Ymddygiadau

Sylwer: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

## 1.1 Cyfeiriadau Cyfreithiol yn yr Adran hon

- Egwyddorion cyffredinol y gyfraith elusenol
- [Rheolau Rhodd Cymorth](#)
- [Deddf Elusennau 1992](#)
- [Deddf Elusennau 2011](#)
- [Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr \(yr Alban\) 2005](#)
- [Deddf Elusennau \(Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol\) 2016](#)

Bydd gwaith sefydliadau codi arian yn **Gyfreithiol, yn Agored, yn Onest** ac yn **Barchus**.

## 1.2 Egwyddorion Cyffredinol

a) Egwyddor sylfaenol sy'n sail i godi arian yw bod **RHAID\*** i'r holl gronfeydd a godir ar gyfer achos arbennig gael eu defnyddio ar gyfer yr achos arbennig hwnnw.

b) **RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** â difenwi unigolion neu sefydliadau eraill.

c) **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO** â gorliwio ffeithiau yn ymwneud â'r darparfuddiolwr.

d) **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO** â manteisio ar gamgymeriadau a wnaed gan y rhoddwr.

e) i) **RHAID** i godwyr arian gymryd pob cam rhesymol i drin rhoddwr yn deg, a'i alluogi i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch unrhyw rodd. **RHAID** i hyn gynnwys ystyried anghenion unrhyw ddarpar roddwr a allai fod mewn sefyllfa hygryf neu y mae angen gofal a chymorth ychwanegol arno er mwyn gallu gwneud penderfyniad gwybodus.

ii) **RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** â chamfanteisio ar hygoledd, diffyg gwybodaeth, angen ymddangosiadol am ofal a chymorth neu sefyllfa hygryf unrhyw roddwr ar unrhyw adeg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynghylch ymateb i anghenion pobl mewn sefyllfa hygryf a helpu rhoddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi arian '[Treating Donors Fairly](#)'.

iii) Os yw codwr arian yn gwybod neu os oes sail resymol dros gredu nad yw'r gallu gan unigolyn i wneud penderfyniad i roi neu beidio, **RHAID PEIDIO** â chymryd rhodd.

iv) **RHAID\*** i rodd gan rywun sydd heb y gallu adeg ei roi gael ei dychwelyd.

f) **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO** ag ymgymryd â chodi arian sydd:

- yn ymyrryd yn afresymol ar breifatrwydd rhywun;
- yn afresymol o barhaus;

*Neu*

- Rhoi rhywun o dan ormod o bwysau i roi.

g) **RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** â pharhau i ofyn i unigolyn am gymorth:

- os yw'r unigolyn hwnnw yn datgan yn eglur - trwy air neu ystum - nad yw am barhau i ymgysylltu; neu
- os oes sail resymol ganddynt dros gredu, yn ystod eu hymgysylltiad â'r unigolyn, ei fod mewn amgylchiadau agored i niwed sy'n golygu nad yw'n gallu gwneud penderfyniad gwybodus i roi.

h) **RHAID\*** i elusennau y mae gofyniad cyfreithiol arnynt i gynnal archwiliad ariannol o'u cyfrifon o dan [adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011](#) ddatgan yn Adroddiad Blynyddol eu hymddiriedolwyr (fel y pennir o fewn [adran 13 o Ddeddf \(Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol\) 2016](#)):

- Sut mae'r elusen yn mynd ati i godi arian, ac a gafodd codwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol ei ddefnyddio.
- Manylion am unrhyw gynlluniau neu safonau codi arian rheoleiddiol gwirfoddol y mae'r elusen neu unrhyw un sy'n codi arian ar ei rhan wedi cytuno â nhw.
- Unrhyw fethiant i gydymffurfio â chynllun neu safon a nodwyd.
- A yw'r elusen a sut mae'r elusen wedi monitro gweithgareddau codi arian a wnaed ar ei rhan.
- Faint o gwynion y mae'r elusen neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ei rhan wedi'u derbyn am godi arian ar gyfer yr elusen.
- Beth mae'r elusen wedi'i wneud i ddiogelu pobl hyglwyf ac eraill rhag ymyrryd yn afresymol ar breifatrwydd rhywun, ymgysylltu parhaus afresymol neu ddwyn pwysau gormodol i roi, wrth godi arian neu mewn perthynas â chodi arian ar gyfer yr elusen.

Mae cyfarwyddyd pellach i'w weld [yma](#).

i) **RHAID** i ymddiriedolwyr elusennau (neu yn achos elusennau heb fwrdd ymddiriedolwyr, y rhai sy'n gwasanaethu ar ei chorff llywodraethol) ystyried cyfarwyddyd cenedlaethol ar gyfer goruchwylio gweithgareddau codi arian eu helusen ac unrhyw drydydd parti sy'n codi arian ar ran yr elusen.

- Ar gyfer elusennau sydd wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr, mae cyfarwyddyd i'w gael yng [Nghod Llywodraethu Elusennau](#) a chyhoeddiad y Comisiwn Elusennau [CC20 Canllawiau i ymddiriedolwyr](#) a'r [canllaw hanfodol i ymddiriedolwyr \(CC3\)](#).

- Ar gyfer elusennau sydd wedi cofrestru yn yr Alban, mae'r cyfarwyddyd canlynol gan OSCR yn darparu gwybodaeth ar ofynion cyfreithiol cyfraith Elusennau'r Alban o ran codi arian a dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen:
  - [Canllawiau Codi Arian](#) Interim
  - [Canllawiau ac arferion da i Ymddiriedolwyr Elusen](#)
- Ar gyfer elusennau sydd wedi cofrestru yng Ngogledd Iwerddon, mae [Cod Llywodraethu Da](#) a chyfarwyddyd Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon "[Rhedeg eich Elusen](#)" yn amlinellu egwyddorion ac elfennau allweddol llywodraethu da ar gyfer byrddau sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

## 1.3 Y Rhodd

### 1.3.1 Gofyn am Roddion

a) Wrth ddefnyddio gwybodaeth am roddwyr mewn astudiaeth achos neu unrhyw fath o gyhoeddusrwydd, **RHAID\*** i sefydliadau gydymffurfio ag unrhyw ddyletswyddau cyfrinachedd sydd arnynt a chydymffurfio â'r gyfraith diogelu data os ydynt yn cyhoeddi astudiaeth achos sy'n cynnwys gwybodaeth a allai ddatgelu pwy yw'r rhoddwr.

Mae **Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y gofynion yn ymwneud â diogelu data.

b) **RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** ag annog rhoddwyr presennol mewn unrhyw ffordd i newid rhodd elusennol bresennol i sefydliad codi arian arall.

c) Mae [Deddf Elusennau 1992](#) a [Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr \(yr Alban\) 2005](#) yn caniatáu i elusennau gael gorchymyn llys sy'n atal codi arian heb ei awdurdodi os yw unigolyn yn defnyddio dulliau codi arian y mae'r elusen yn eu gwrthwynebu neu os yw'r elusen yn credu nad yw unigolyn yn berson addas a phriodol i godi arian ar ei rhan.

### 1.3.2 Derbyn a Gwrthod Rhoddion

a) **RHAID\*** i ymddiriedolwyr (a'u cynrychiolwyr) weithredu er lles gorau'r elusen wrth benderfynu [derbyn neu wrthod](#) rhodd arbennig.

### 1.3.3 Gwobrwyon/Cymhellion a Phecynnau Buddion

Mae'n arferol i sefydliadau ymgysylltu â rhoddwr trwy gynnig buddion iddynt yn unol â maint ac amlder y rhodd.

a) **RHAID** i sefydliadau codi arian sicrhau bod y buddion yn briodol i'r sefydliad eu rhoi, ac yn gymesur i faint y rhodd.

b) **RHAID** i godwyr arian fod yn ymwybodol pryd y bydd buddion yn diddymu rhyddhad treth posibl megis Rhodd Cymorth neu daliadau atodol sydd ar gael o dany rheolau rhoddion llai. Os yw buddion yn atal y rhodd rhag bod yn gymwys o dan Rodd

Cymorth neu'r rheolau rhoddion bach, **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO\*** â cheisio adennill treth ar y swm.

#### 1.4 Ar ôl y Rhodd

a) **RHAID\*** cydymffurfio ag unrhyw ofynion adrodd dilynol y mae'r rhodd yn ddarostyngedig iddynt.

b) **RHAID\*** i sefydliadau codi arian wneud Rhodd Cymorth ac adennill mewn perthynas â rhodd dim ond os yw'r holl amodau Rhodd Cymorth yn cael eu bodloni. Un o'r rhain yw bod **RHAID\*** i ddatganiad Rhodd Cymorth y rhoddwr gydymffurfio â'r cyfarwyddyd newydd a gyhoeddwyd gan HMRC, sy'n amlinellu'r wybodaeth y mae'n ofynnol i ddatganiadau ei chynnwys o 1 Ionawr 2013. Os nad yw rhodd yn gymwys ar gyfer Rhodd Cymorth ac mae'r sefydliad am wneud cais o dan y rheolau rhoddion bach, **RHAID\*** gwneud hynny **DIM OND** os yw holl amodau'r rhoddion bach wedi'u bodloni.

c) **RHAID\*** i sefydliadau codi arian sicrhau bod rhoddion a dderbyniwyd yn cael eu defnyddio i gefnogi'r achos yn unol â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r rhodd a all godi o amodau'r rhoddwr neu sylwadau a wnaed gan yr elusen ynghylch sut y defnyddir yr arian.

#### 1.5 Defnyddio Arian

[Mae'r gyfraith yn ymwneud â newid telerau rhodd yn gymhleth](#) a dylai sefydliadau geisio cyngor gan gynghorwyr cyfreithiol neu'r [Comisiwn Elusennau / Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban \(OSCR\)](#) cyn ceisio newid y telerau, hyd yn oed os yw'r rhoddwr wedi cytuno. Yn yr Alban, mewn achosion lle na ellir cael cydsyniad y rhoddwr, gall OSCR ganiatáu i'r gronfa gyfyngedig y mae rhodd yn cael ei ddal oddi dani gael ei 'had-drefnu' os yw rhai amodau yn cael eu bodloni, ond dim ond os nad oes modd canfod dymuniadau'r rhoddwr o ran y newid arfaethedig.

a) Os yw apêl yn cael ei chynnal ar gyfer diben arbennig, **RHAID** i godwyr arian gynnwys datganiad sy'n nodi beth fydd yn digwydd i'r cronfeydd a dderbynnir os yw'r cyfanswm cronfeydd a godir yn annigonol neu'n fwy na'r targed.

#### 1.6 Cwynion

a) **RHAID** i sefydliadau gael trefn gwyno glir sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n **RHAID** bod yn gymwys hefyd i unrhyw godi arian gan Drydydd Parti a wneir ar eu rhan.

b) Wrth ddelio â chwynion **RHAID** i sefydliadau sicrhau bod:

i) cwynion yn cael eu hymchwilio'n drwyadl ac yn wrthrychol er mwyn sefydlu ffeithiau'r achos, gan osgoi unrhyw oedi diangen; a

ii) ymatebir i gwynion mewn modd teg, cymesur a phriodol.

c) **RHAID** i sefydliadau adolygu'n rheolaidd unrhyw wersi sydd i'w dysgu drwy gwynion a defnyddio'r hyn a ddysgwyd i lywio gweithgareddau codi arian yn y dyfodol.



- d) **RHAID** i sefydliadau codi arian fod â gweithdrefn fewnol glir a chyhoeddedig ar gyfer aelodau staff a gwirfoddolwyr i adrodd am unrhyw bryderon a all fod ganddynt ynghylch arferion codi arian eu sefydliad. Gallai hyn fod yn bolisi unigol neu'n rhan o bolisi chwythu'r chwiban ehangach sydd ar gael i staff a gwirfoddolwyr. Yn y naill achos neu'r llall, **RHAID** i'r polisi gynnwys:
- i) y math o faterion y gellir eu codi a'r broses ar gyfer gwneud hynny;
  - ii) sut y caiff y sawl sy'n codi pryder ei ddiogelu rhag cael ei fictimeiddio a'i aflonyddu;
  - iii) sut a beth y bydd y sefydliad yn ei wneud mewn ymateb i gael gwybodaeth o'r fath; a
  - iv) sut y gall unigolyn uwchgyfeirio ei bryderon ynghylch arferion codi arian i'r Rheoleiddiwr Codi Arian, neu'r Panel Safonau Codi Arian a Dyfarniadau Annibynnol ar gyfer yr Alban os nad yw modd ei ystyried yn fewnol.

Cewch ragor o wybodaeth ac arweiniad ar Ddelio â Chwynion gan y Rheoleiddiwr Codi Arian [yma](#)

## 1.7 Dychwelyd Rhoddion

- a) **RHAID** i sefydliadau codi arian sy'n elusennau **BEIDIO\*** â dychwelyd rhoddion [oni bai bod rhai meini prawf penodol yn cael eu bodloni](#). Yn achos pob sefydliad codi arian, **RHAID** i roddion gael eu had-dalu yn unol ag unrhyw bolisiau neu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae'n bosib na fydd hi'n gyfreithlon i ddychwelyd rhodd a **RHAID** i godwyr arian geisio cyngor gan gynghorwyr cyfreithiol neu'r Comisiwn Elusennau / OSCR cyn gwneud hynny.

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

## 2.0 Gweithio gyda Gwirfoddolwyr

Sylwer: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

### 2.1 Cyfeiriadau Cyfreithiol ar gyfer yr Adran hon

- [Deddf Diogelu Data 1998](#)
- [Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006](#)
- [Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974](#)
- [Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999](#)
- [Deddf Elusennau 2006](#)
- [Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr \(yr Alban\) 2005](#)
- [Deddf Trwyddedu 2003](#)
- [Deddf Hapchwarae 2005](#)
- [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)
- [Gorchymyn Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith \(Gogledd Iwerddon\) 1978](#)
- [Gorchymyn Diogelu Grwpiau Agored i Niwed \(Gogledd Iwerddon\) 2007](#)
- [Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith \(Gogledd Iwerddon\) 2000](#)
- [Gorchymyn Betio, Hapchwarae, Lotriau a Difyrion \(Gogledd Iwerddon\) 1985](#)
- [Gorchymyn Betio a Lotriau \(Gogledd Iwerddon\) 1994](#)

### 2.2 Gwirfoddolwyr

#### 2.2.1 Cyflwyniad

##### 2.2.1.1 Diffiniadau a Mathau o Wirfoddolwyr

At ddibenion y Cod hwn, mae codwr arian gwirfoddol yn rhywun sydd, heb dâl neu fudd materol arall (ac eithrio ad-dalu treuliau), yn codi arian neu'n ymgymryd â gweithgareddau codi arian ar gyfer sefydliad codi arian neu sefydliad dyngarol neu lesiannol arall.

##### 2.2.1.2 Gwahaniaethu rhwng gwirfoddolwyr 'ar ran' a gwirfoddolwyr 'er budd'

Mae dau gategori gwahanol o wirfoddolwyr:

- 1) Ar ran:

Os yw gwirfoddolwr yn wirfoddolwr 'ar ran', bydd wedi cael ei benodi gan y sefydliad i weithredu ar ei ran a bydd y sefydliad yn gyfrifol am ei weithredoedd. Mae perthynas 'ar ran' yn cynnig mwy o gymorth i wirfoddolwyr gan y sefydliad. O bersbectif y sefydliad, mae'n cynnig mwy o reolaeth i'r sefydliad dros weithgareddau gwirfoddolwr ond mae'r sefydliad yn gyfrifol wedyn am weithredoedd y gwirfoddolwr fel asiant y sefydliad.

2) Er budd:

Mae gwirfoddolwr sy'n gweithredu 'er budd' sefydliad yn codi arian ond yn gweithredu'n annibynnol ar y sefydliad. Yn aml ni fydd sefydliad yn gwybod am weithredoedd y gwirfoddolwr. Bydd yn rhoi rheolaeth i godwyr arian gwirfoddol dros y gweithgareddau codi arian, a chyfrifoldeb llwyr amdanynt. Er bod gan y sefydliad felly lai o reolaeth, os defnyddir dulliau codi arian y mae'r elusen yn anhapus â nhw, gellir gweithredu i atal codi arian.

Y mwyaf o ryngweithio ac ymwneud â chodwyr arian 'er budd', y mwyaf tebygol y gallai'r berthynas gael ei hystyried yn berthynas 'ar ran'.

a) **RHAID** i sefydliadau sicrhau bod yr wybodaeth a'r cymorth a roddir i wirfoddolwyr yn briodol ar gyfer y math o berthynas sydd dan sylw.

### 2.2.1.3 Pryd nad yw 'Gwirfoddolwr' yn Wirfoddolwr?

a) Weithiau gall "gwirfoddolwyr" godi arian er mwyn codi eu proffil a/neu ddenu cwsmeriaid trwy gysylltu eu hunain neu eu brand â'r sefydliad. Os yw'r trefniadau "gwirfoddolwr" wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad o [godwr arian proffesiynol](#) neu [gyfranogwr masnachol](#), mae rhwymedigaethau cyfreithiol y mae'n **RHAID\*** gydymffurfio â nhw.

## 2.2.2 Materion yn Ymwneud â Phob Math o Wirfoddolwr

### 2.2.2.1 Ystyriaethau Cychwynnol

a) **RHAID** i sefydliadau storio gwybodaeth gysylltu bersonol gwirfoddolwyr a **RHAID\*** i'r trefniadau storio hyn gydymffurfio â [Deddf Diogelu Data 2018](#).

Mae **Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y gofynion yn ymwneud â diogelu data.

b) **RHAID\*** i sefydliadau gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol ynghylch defnyddio gwiriadau'r [Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#), [Disclosure Scotland](#) neu [Access NI](#).

c) **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO** â gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, oedran, anabledd, beichiogrwydd neu famolaeth, neu ailbennu rhywedd wrth recriwtio a rheoli codwyr arian gwirfoddol oni bai bod rhesymau moesegol neu angenrheidiol cadarn dros wneud hynny.

d) **RHAID** i wirfoddolwyr gael ad-daliad ar gyfer eu treuliau parod yn unig.

### 2.2.2.2 Trin yr Arian a Godir

- a) **RHAID** i sefydliadau egluro i bob gwirfoddolwr fod **RHAID\*** i unrhyw un sy'n codi arian sicrhau bod y sefydliad yn derbyn yr holl arian.

### 2.2.3 Ystyriaethau Penodol Pan Fyddwch yn Gweithio gyda Gwirfoddolwyr 'ar ran'

- a) Mae amrywiaeth o rwymedigaethau cyfreithiol yn cael eu gosod ar sefydliadau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, ac mae rhai ohonynt yn gymwys i wirfoddolwyr. Y prif rwymedigaethau yw:

i. **RHAID\*** i sefydliadau redeg eu sefydliad mewn ffordd sy'n sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod codwyr arian gwirfoddol heb fod yn agored i risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch (mae'r rhwymedigaethau penodol wedi'u hamlinellu yn [Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974](#) neu, yng Ngogledd Iwerddon, [Gorchymyn Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith \(Gogledd Iwerddon\) 1978](#)).

ii. **RHAID\*** i sefydliadau gynnal asesiadau risg priodol ac (os oes mwy na 5 gweithiwr) **RHAID\*** cadw cofnodion clir o'r holl asesiadau risg a'r hyfforddiant a gwblheir.

iii. **RHAID\*** i sefydliadau wneud a rhoi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer cynllunio effeithiol, trefniadaeth, rheolaeth, monitro ac adolygu'r mesurau ataliol ac amddiffynnol.

iv. **RHAID\*** i sefydliadau archwilio digonolrwydd eu gweithdrefnau asesu risg.

v. **RHAID\*** i sefydliadau benodi un neu ragor o berson(au) cymwys i weithredu'r mesurau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r gyfraith iechyd a diogelwch.

b) Lle bo'n briodol, **RHAID** i sefydliadau gadarnhau addasrwydd a chymhwysedd codwyr arian gwirfoddol i weithredu fel pobl gyfrifol ar ran y sefydliad ac yn achos casgliadau o dŷ i dŷ **RHAID\*** ymgymryd â diwydrwydd dyladwy i sicrhau bod casglwyr yn bersonau addas a phriodol.

c) **RHAID** i sefydliadau ddarparu'r hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen er mwyn i godwyr arian gwirfoddol allu ymgymryd â'u rôl yn effeithiol mewn ffordd gyfreithiol, agored, onest a pharchus.

### 2.2.4 Ystyriaethau Penodol Pan Fyddwch yn Gweithio gyda Gwirfoddolwyr 'er budd'

Wrth drafod perthnasoedd 'er budd', bydd pob safon yn gymwys dim ond os yw'r sefydliad wedi cael gwybod am y gweithgareddau codi arian cyn iddynt ddigwydd.

a) **RHAID** i sefydliadau egluro fod unrhyw drefniadau lle mae codi arian yn digwydd yn annibynnol ar y sefydliad yn fath o godi arian '[er budd](#)' ac ni fydd y sefydliad yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd am y digwyddiadau hyn.

[Mae rhagor o wybodaeth am weithio gyda gwirfoddolwyr ar gael yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian \(IoF\) - Volunteer Fundraising Guidance](#)

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

# 3.0 Gweithio gyda Phlant

Sylwer: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

## 3.1 Cyflwyniad

Gall yr oedran y gall plant ymgymryd â gweithgareddau codi arian amrywio yn ôl y math o weithgareddau, y lleoliad daearyddol a'r gyfraith.

## 3.2 Cyn Unrhyw Weithgaredd/Ddigwyddiad

### 3.2.1 Terfynau Oedran a Chaniatâd

Mae rhai gweithgareddau na all plant a phobl ifanc ymgymryd â nhw heb gynnwys oedolion (mae'r terfynau oedran yn dibynnu ar y gweithgaredd a'r lleoliad). Mae'r rhain yn cynnwys:

- [Casgliadau ar y stryd ac o dŷ i dŷ](#)
- [Rafflau](#)
- [Digwyddiadau sy'n cynnwys alcohol](#)

a) **RHAID\*** i sefydliadau gael cydsyniad penodol rhiant neu warcheidwad i brosesu data personol plentyn hyd nes bod y gallu gan y plentyn i roi cydsyniad gwybodus llawn ei hun.

**Gweler Adran 5: Gwybodaeth Personol a Chodi Arian** i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae "prosesu" yn ei olygu a'r gofynion yn ymwneud â diogelu data.

Ni nodir unrhyw oedran cydsynio gofynnol mewn deddfwriaeth ar gyfer gweithgareddau prosesu data cyffredinol. Fodd bynnag, fel canllaw i ddatblygu eu polisiau ehangach ar gydsyniad, dylai sefydliadau codi arian ystyried bod GDPR yn gwneud oedran cydsyniad gofynnol o 13 oed yn ofynnol ar gyfer prosesu data personol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithas wybodaeth (h.y. gwasanaeth a ddarperir ar gyfer talu, o bell gan ddefnyddio dulliau electronig ar gais yr unigolyn).

b) **RHAID** i unrhyw wybodaeth a gesglir gan unrhyw un o dan 14 oed **BEIDIO** â chael ei datgelu heb gydsyniad gan riant neu warcheidwad.

c) Wrth drefnu gweithgareddau codi arian, **RHAID\*** i sefydliadau gydymffurfio ag unrhyw derfynau oedran perthnasol a osodir gan deddfwriaeth.

d) Bydd adegau pan fydd **RHAID\*** i sefydliadau gynnal gwiriadau'r [Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#) (yng Nghymru a Lloegr), [Disclosure Scotland](#) (yn yr Alban) neu [Access NI](#) (yng Ngogledd Iwerddon) ar gyfer oedolion sy'n gweithio gyda phlant.

e) **RHAID** cysylltu â phlant ar neu yn agos at safle ysgol dim ond gyda gwybodaeth

a chymeradwyaeth flaenorol y Pennaeth neu aelod o staff yr ysgol wedi'i benodi gan y Pennaeth ac yn unol â'r gweithdrefnau a gytunwyd â nhw.

f) **RHAID** i sefydliadau sicrhau bod y codwr arian/cynrychiolydd y sefydliad yn deall ei gyfrifoldeb a'r camau y mae'n **RHAID** eu cymryd o ran trefnwyr gweithgareddau, y plant sy'n cymryd rhan a rhieni/gwarcheidwaid unrhyw blant sy'n cymryd rhan.

### 3.3 Ymgymryd â'r Gweithgaredd Codi Arian

a) **RHAID** i sefydliadau ddefnyddio'r holl ymdrechion gorau i osgoi deisyfu rhoddion rheolaidd, megis Debydau Uniongyrchol, gan bobl ifanc o dan 18 oed.

b) **RHAID** i sefydliadau gael caniatâd rhiant neu warcheidwad cyn dynnu llun neu gyhoeddi lluniau o'u plant.

c) **RHAID** i sefydliadau roi canllawiau i blant a rhieni/gwarcheidwaid ar sut i godi arian yn ddiogel ac yn gyfreithiol.

### 3.4 Ar ôl y Digwyddiad/Gweithgaredd

a) **RHAID** i'r holl arian a dderbynnir gael ei gydnabod yn ddi-oed gan y sefydliad.

[Mae rhagor o wybodaeth am godi arian gyda phlant ar gael yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian \(IoF\) - Fundraising in Schools](#)

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

## 4.0 Gweithio gyda Thrydydd Partïon

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

### 4.1 Cyfeiriadau Cyfreithiol ar gyfer yr Adran hon:

- [Deddf Elusennau 1992](#);
- [Rheoliadau Sefydliadau Elusennol \(Codi Arian\) 1994](#);
- [Deddf Diogelu Data 1998](#);
- Cyfraith Gyffredinol Cyfrinachedd;
- [Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr \(yr Alban\) 2005](#)
- [Rheoliadau Elusennau a Chodi Arian Llesionol \(yr Alban\) 2009](#)
- [Deddf Elusennau \(Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol\) 2016](#)

### 4.2 Cyflwyniad

a) Mae'r adran hon yn amlinellu'r safonau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda thrydydd partïon, gan gynnwys ymgynghorwyr, codwyr arian llawrydd, asiantaethau a chyflenwyr, yn ogystal â'r safonau a ddisgwylir ganddynt. **RHAID** i sefydliadau fynnu bod trydydd partïon yn dilyn y Cod.

b) **RHAID** i sefydliadau wneud pob ymdrech rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i sicrhau bod trydydd partïon sy'n sefydliadau codi arian yn parhau i gydymffurfio â'r Cod a'u gofynion cyfreithiol.

Mae rhesymoldeb at ddibenion y Cod hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliad fonitro mewn modd effeithiol a chymesur. Gall dulliau o ddarparu tystiolaeth i ddangos bod ymdrechion rhesymol yn cael eu gwneud i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus effeithiol gynnwys (ond heb eu cyfyngu i):

- sicrhau bod gwerthoedd y sefydliad yn cael eu hadlewyrchu yn y polisiau, amcanion perfformiad, dangosyddion ac, os yw'n briodol, cymhellion y trydydd parti sy'n sefydliad codi arian;
- sefydlu unigolyn a enwir sydd â'r prif gyfrifoldeb dros fonitro cydymffurfiaeth;
- datblygu gofynion adrodd clir gyda'r trydydd parti sy'n sefydliad codi arian ac adolygu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn perfformiad a gytunwyd ymlaen llaw, targedau sicrhau ansawdd a chydymffurfiaeth;
- diffinio sut y bydd y monitro yn digwydd, gan gynnwys sefydlu pa mor aml y mae'n briodol i'r monitro ddigwydd yn seiliedig ar asesiad o'r risg y mae'r gweithgarwch codi arian yn ei greu;
- cymeradwyo ac adolygu'n rheolaidd hyfforddiant cydymffurfiaeth yr asiantaeth, gan gynnwys arsylwi'n aml ar ddarparu'r hyfforddiant hwn ar y safle;
- awdurdodi cynnwys a deunyddiau ar gyfer hyfforddiant;



- cynnal yn rheolaidd (a dogfennu canlyniadau) monitro galwadau, siopa cudd, ymweliadau safle a/neu gysgodi gyda chodwyr arian trydydd parti;
- amlinellu polisi clir ar gyfer trin cwynion ac adborth, gan gynnwys yr amserlenni, gweithdrefnau ar gyfer uwchgyfeirio a chodi materion yn fewnol, a throsglwyddo gwybodaeth rhwng yr elusen a'r trydydd parti sy'n sefydliad codi arian;
- amlinellu gweithdrefn fewnol glir ar gyfer aelodau staff a gwirfoddolwyr i adrodd am unrhyw bryderon sydd ganddynt efallai ynghylch arferion codi arian eu sefydliad; a
- chytuno ar gynllun gweithredu gyda'r trydydd parti sy'n sefydliad codi arian i roi sylw i unrhyw bryderon, os cânt eu nodi.

Mae rhagor o wybodaeth ar asesu risg i'w cael yng nghanllaw'r Comisiwn Elusennau [CC26 canllawiau ar elusennau a rheoli risg](#) ac yn [How-to guide](#) NCVO.

Mae rhagor o wybodaeth ar weithredu trefniadau monitro gyda thrydydd partiön sy'n sefydliadau codi arian i'w cael yng nghanllaw IoF "[Successful Partnerships for sustainable fundraising](#)".

c) **RHAID** i sefydliadau ei gwneud hi'n ofynnol i asiantaeth neu drydydd parti y maent yn gweithio â nhw gydymffurfio â gofynion [Deddf Diogelu Data 2018](#) a [Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig \(Cyfarwydddeb y CE\) 2003](#) fel y nodir yn y Cod, gan gynnwys gofynion y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn, waeth pa wlad neu awdurdodaeth gyfreithiol y mae'r asiantaeth wedi'i lleoli neu'n gweithredu ynddi. Mewn rhai amgylchiadau mae hwn yn ofyniad cyfreithiol i elusennau, ond mewn amgylchiadau eraill efallai na fydd. Gweler cyfarwyddyd Atodiadau Cyfreithiol **L14** i gael rhagor o fanylion.

*Mae **Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y gofynion yn ymwneud â diogelu data.*

d) Cyn gofyn am arian neu eiddo arall **RHAID\*** i "godwr arian proffesiynol gael cytundeb ysgrifenedig yn ei le gyda'r Cleient,. Gweler y canllaw [Legal Appendices yn L10](#) i gael rhagor o fanylion.

e) Bob tro y bydd "codwr arian proffesiynol" yn deisyfu arian neu eiddo arall, **RHAID\*** iddo wneud datganiad datgelu (neu ddeisyfu). Gweler y [canllawiau yn Atodiadau Cyfreithiol L10](#) i gael rhagor o fanylion. Ym mhob achos, **RHAID** i'r datganiad datgelu (neu ddeisyfu) gael ei wneud naill ai cyn i'r arian gael ei roi gan y rhoddwr neu cyn i unrhyw fanylion ariannol sy'n berthnasol i'r trafodiad gael eu ceisio gan y codwr arian (p'un bynnag a ddaw gyntaf).

f) Pan fydd yn gweithredu'n unig fel Ymgynghorydd neu Godwr Arian yng Ngogledd Iwerddon, **RHAID** i ddatganiadau a chontractau o'r fath gael eu gwneud (gall rheoliadau yn y dyfodol yng Ngogledd Iwerddon wneud hyn yn ofyniad cyfreithiol).

g) **RHAID** i sefydliadau ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw asiantaeth neu drydydd parti y maent yn gweithio â nhw i roi gwybod iddynt am unrhyw hysbysiad a dderbynnir gan yr asiantaeth neu'r trydydd parti i roi'r gorau i farchnata uniongyrchol neu i beidio â dechrau marchnata uniongyrchol gan (neu ar ran) unigolyn.

h) **RHAID** i sefydliadau ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw asiantaeth neu drydydd parti y maent yn gweithio â nhw i gydymffurfio ag unrhyw hysbysiad neu gais (neu ar ran) unigolyn i roi'r gorau o fewn cyfnod rhesymol (sy'n golygu cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ond mewn unrhyw achos heb fod yn fwy na 28 diwrnod), neu beidio â dechrau prosesu data personol unigolyn at ddiben marchnata uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw hysbysiadau neu geisiadau a wneir trwy'r [Gwasanaeth Dewis Codi Arian](#).

### 4.3 Diffiniadau

At ddibenion yr adran hon mae'r diffiniadau canlynol yn gymwys:

Ystyr "Gwasanaethau Codi Arian" yw deisyfu rhoddion neu addewidion o roddion ar gyfer dibenion elusennol, llesiannol neu ddyngarol yn gyfnewid am wobr.

Defnyddir "Ymgynghorydd" neu "Godwr Arian Llawrydd" yma i olygu unigolyn, partneriaeth, cwmni neu fusnes arall sy'n darparu gwasanaethau i sefydliad mewn perthynas â chodi arian.

Defnyddir "Cleient" yma i olygu'r sefydliad y mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr Ymgynghorydd neu'r Codwr Arian Llawrydd.

Ystyr "Codwr Arian Proffesiynol" yw Ymgynghorydd neu Godwr Arian Llawrydd sy'n darparu Gwasanaethau Codi Arian yng Nghymru a Lloegr neu'r Alban sy'n debygol o gael eu cynnwys o fewn y diffiniad cyfreithiol o "godwr arian proffesiynol".

### 4.4 Cyn-gontract

a) **RHAID** i Ymgynghorwyr a Chodwyr Arian Llawrydd hawlio profiad, cymwysterau a chyraeddiadau y gellir eu profi yn unig.

### 4.5 Contractau/Cytundebau Ysgrifenedig

Gall rheoleiddio wahaniaethu rhwng y tair awdurdodaeth gyfreithiol yn y DU a dylid bod yn ofalus i sicrhau eich bod yn cydymffurfio'n gywir ym mhob ardal.

a) Os yw'r Ymgynghorydd/Codwr Arian Llawrydd wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad o "godwr arian proffesiynol" yng Nghymru a Lloegr neu'r Alban, gweler isod ar gyfer y gofynion cywir y mae'n **RHAID\*** cydymffurfio â nhw. Fel arall **RHAID** i gytundeb neu Gontract fod yn ei le rhwng yr Ymgynghorydd/Codwr Arian Llawrydd a'r sefydliad y mae'n darparu gwasanaethau iddo.

b) **RHAID\*** i gytundebau codi arian rhwng elusennau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr a chodwyr arian proffesiynol gynnwys: iii) sut y bydd cydymffurfio â'r

cytundeb yn cael ei fonitro gan yr elusen, fel y nodir o fewn adran 13 o Ddeddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol) 2016.

Gall dulliau o ddarparu tystiolaeth ar gyfer y gofyniad hwn gynnwys (ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r) mesurau monitro cydymffurfiaeth a nodir yn 4.2b uchod. Dylai fod darpariaeth ddigonol yn y cytundeb i'r elusen ddarllen ac, os oes angen, adolygu unrhyw bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol y mae gan y trydydd parti yn ei le sy'n berthnasol ar gyfer diogelu'r cyhoedd. Gall hyn gynnwys (ond nid yw wedi'i gyfyngu i): polisiâu ar bobl mewn amgylchiadau agored i niwed; deilo â chwynion a chwythu'r chwiban; deunyddiau hyfforddi; a chod ymddygiad staff.

c) **RHAID\*** i gytundebau codi arian rhwng Elusennau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr a chodwyr arian proffesiynol gynnwys:

- manylion am unrhyw gynllun codi arian rheoleiddiol gwirfoddol neu safon sy'n ymrwymo'r codwr arian proffesiynol;
- sut y bydd y sefydliad masnachol yn diogelu'r cyhoedd rhag ymyrraeth afresymol ar breifatrwydd rhywun, ymgysylltu parhaus afresymol neu roi gormod o bwysau i roi; a
- sut y bydd cydymffurfio â'r cytundeb yn cael ei fonitro gan yr elusen, fel y nodir o fewn [adran 13 o Ddeddf Elusennau \(Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol\) 2016](#).

Mae cyfarwyddyd pellach i'w weld [yma](#).

d) **RHAID** i'r cytundeb gynnwys disgwyliadau clir a realistig ar gyfer y gweithgareddau sydd i'w cyflawni, y gyllideb, adnoddau, amserlenni a'r canlyniadau posibl.

e) **RHAID** cynnwys gweithdrefnau adolygu yn y cytundeb.

f) Yng Nghymru a Lloegr, mae'n **RHAID\*** i'r Cleient ystyried perfformiad yn yr adolygiadau hyn a phenderfynu pa gamau pellach sy'n briodol (megis cychwyn cymalau cosb neu adolygu'r cytundeb).

g) Yn yr Alban **RHAID\*** i'r dull a ddefnyddir i amrywio contract gael ei ddarparu ar ei gyfer yn y contract os yw'r contract gyda chodwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol a **RHAID** iddo gynnwys darpariaethau tebyg sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r amrywiad fod yn ysgrifenedig ac atal amrywiad anffafriol rhag cael ei osod gan un barti yn unig.

h) Yng Ngogledd Iwerddon nid oes unrhyw ddeddfwriaeth gyfwerth yn ei lle hyd yma sy'n rheoli contractau neu gytundebau ysgrifenedig â thrydydd partiön. Gall sefydliadau yng Ngogledd Iwerddon fabwysiadu arferion da yr awdurdodaethau eraill.

#### 4.6 Ffioedd

- a) **RHAID** i Ymgynghorwyr/Codwyr Arian Llawrydd ddatgan y swm a/neu sail y tâl mewn unrhyw gynnig neu gytundeb ac egluro'r holl ffioedd, treuliau a chostau cysylltiedig eraill, y sail neu'r amrediad y seilir y ffioedd arni a'r amserlen talu.
- b) Os yw Ymgynghorydd/Codwr Arian Llawrydd wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad o "godwyr arian proffesiynol", **RHAID\*** i'r cytundeb gynnwys manylion am y ffioedd a'r treuliau a delir i'r codwr arian proffesiynol.
- c) **RHAID** i Ymgynghorwyr/Codwyr Arian Llawrydd **BEIDIO** â chael eu talu trwy gomisiwn neu drwy gomisiwn yn unig, oni bai bod rhai meini prawf yn cael eu bodloni.
- d) **RHAID** i unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amrywio'r tâl gael ei gyfiawnhau'n glir trwy gyfeirio at yr amgylchiadau arbennig a chynnwys dull amrywio sy'n rhoi'r opsiwn i'r Cleient derfynu cyn i amrywiad ddod i rym.

#### 4.7 Gwrthdaro buddiannau

- a) **RHAID** i bob parti roi gwybod i'r parti arall os yw'r naill neu'r llall yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau posibl, boed hynny'n ganfyddedig neu'n wirioneddol, a **RHAID** iddynt **BEIDIO** â chynrychioli buddiannau croes neu gystadleuol heb gydsyniad penodol y partïon dan sylw a datgelu'r ffeithiau yn llawn.

#### 4.8 Cyfrinachedd

- a) **RHAID** i Ymgynghorwyr/Codwyr Arian Llawrydd **BEIDIO\*** â datgelu unrhyw wybodaeth o natur gyfrinachol sy'n dod i'r amlwg yn ystod eu perthynas â'r Cleient, oni bai bod yr wybodaeth hon yn wybodaeth gyhoeddus neu'n wybodaeth y mae'n gyfreithiol i'w datgelu fel arall.
- b) **RHAID** i'r telerau sy'n rheoli amodau cyfrinachedd a'r hyn sy'n cael ei ystyried yn wybodaeth gyfrinachol gael ei nodi fel rhan o'r cytundeb ysgrifenedig rhwng yr Ymgynghorwr/Codwr Arian Llawrydd a'r Cleient.

I gael rhagor o wybodaeth ar ddewis a defnyddio llwyfannau rhoi ar-lein, gweler cyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian (IoF) ['Making the Most of Digital Donations'](#).

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

# 5.0 Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

## 5.0 Cyfeiriadau Cyfreithiol yn yr Adran hon:

- [Deddf Diogelu Data 1998](#)
- [Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig \(Cyfarwydddeb y CE\) 2003 \(fel y'i diwygiwyd\)](#)

## 5.1 Cyffredinol

**5.1.1** Mae diogelu data yn bwnc pwysig i bob codwr arian. **RHAID\*** i sefydliadau codi arian gydymffurfio [â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelu data](#). Mae'r rhain yn cynnwys:

**a)** y Ddeddf Diogelu Data 1998 gyfredol (a [Mesur Diogelu Data 2017](#) y bydd yn ei ddisodli pan ddaw'n gyfraith – caiff yr adran hon o'r Cod ei diweddarau pan fydd hyn yn digwydd);

**b)** [Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig \(Cyfarwyddyd y CE\) \(PECR\) 2003](#), gan gynnwys gofynion y [Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn](#) (ac unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth e-breifatrwydd sy'n deillio o adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd o PECR yn 2017 – caiff yr adran hon o'r Cod ei diweddarau pan fydd hyn yn digwydd)

Mewn rhai amgylchiadau mae PECR yn ofyniad cyfreithiol i elusennau, ond mewn amgylchiadau eraill mae'n bosib na fydd. Gweler [cyfarwyddyd Atodiadau Cyfreithiol L14.9](#) i gael rhagor o fanylion); a

**c)** y [Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol \(GDPR\)](#)

**5.1.2** Yn ogystal, **RHAID** i sefydliadau wybod am y cyfarwyddyd diweddaraf gan [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#). Mae hyn yn cynnwys [Cyfarwyddyd Marchnatai Uniongyrchol](#) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth [a'i gyfarwyddyd cydsyniad GDPR](#) sy'n ceisio hyrwyddo arferion da a helpu sefydliadau i ddeall eu rhwymedigaethau.

I gael rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn, darllenwch ganllaw'r Rheoleiddiwr Codi Arian [Gwybodaeth bersonol, data a chysyniad](#).

*Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu ystyriaethau diogelu data sy'n arbennig o berthnasol i godi arian.*

## 5.2 Prosesu Data Personol ac Arferion Cronfa Ddata

**Mae Gwybodaeth bersonol / Data personol** yn golygu gwybodaeth/data sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei enwi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy gyfeirio at:

- a) dynodydd megis enw, rhif adnabod, data lleoliad neu ddynodydd ar-lein, neu
- b) un neu ragor o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth ffisegol, seicolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn.

### Prosesu

Mae cyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn datgan fel a ganlyn: "Mae'r diffiniad o brosesu yn eang iawn ac mae'n anodd meddwl am unrhyw beth y gallai sefydliad ei wneud gyda data na fydd yn golygu prosesu."

Mae "prosesu", mewn perthynas â data personol, yn golygu gweithrediad neu gyfres o weithrediadau a wneir ar ddata personol neu ar setiau o ddata personol, megis -

- a) casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro neu storio (*mae hyn yn cynnwys prynu data gan drydydd parti, storio neu wirio gwybodaeth bersonol ar gronfa ddata*)
- b) addasu neu newid (*mae hyn yn cynnwys gweithgareddau megis diweddarau manylion personol*)
- c) adfer, ymgynghori neu ddefnyddio (*mae hyn yn cynnwys gweithgareddau megis sgrinio cyfoeth neu ddefnyddio data personol i gysylltu ag unigolion am unrhyw reswm†*)
- d) datgelu trwy drosglwyddo, lledaenu neu wneud data ar gael fel arall (*mae hyn yn cynnwys gweithgareddau megis rhannu neu gyhoeddi data†*)
- e) alinio neu gyfuno (*mae hyn yn cynnwys gweithgareddau megis paru data a thele-atodi†*)
- f) cyfyngu, dileu neu ddinistrio (*mae hyn yn cynnwys gweithgareddau megis atal neu ddileu manylion rhoddwr ar gronfa ddata†*)

**†Sylwch, mae'r enghreifftiau mewn teip italig yn cael eu darparu gan y Rheoleiddiwr Codi Arian at ddibenion enghreifftiol.**

**5.2.1 RHAID\*** i sefydliadu sy'n prosesu gwybodaeth bersonol ddilyn unrhyw hysbysiad neu gofrestrriad fel sy'n ofynnol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar <https://ico.org.uk/>.

**5.2.2** Wrth brosesu data personol (gan gynnwys data personol sydd ar gael yn gyhoeddus) ar gyfer unrhyw ddiben, **RHAID\*** i sefydliadau:

**a)** bod â sail gyfreithlon dros gasglu, defnyddio a chadw'r data personol. (Mae rhagor o wybodaeth ar y sail (neu'r 'amodau') ar gyfer prosesu i'w gweld yn Atodlen 2\_o [Deddf Diogelu Data 2018](#).) a Cyfarwyddyd Diogelu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**b)** rhoi gwybodaeth gryno, dryloyw, ddealladwy a hawdd ei chyrchu i unigolion ynghylch sut y byddant yn prosesu eu data personol, gan gynnwys pwy yw'r sefydliad, beth y mae'n bwriadu ei wneud â gwybodaeth bersonol yr unigolyn, ac (os yw'n berthnasol) gyda phwy y bydd yn ei rhannu. (Mae rhagor o wybodaeth ar gyfathrebu gwybodaeth breifatrwydd i unigolion i'w gweld yng [Nghod Ymarfer Hysbysiad Preifatrwydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#)).

**c)** dim ond trin data personol mewn ffyrdd y byddai gwrthrych y data yn barnu eu bod yn rhesymol; a

**d)** peidio â gwneud unrhyw beth anghyfreithlon gyda'r data personol.

**5.2.3 RHAID\*** i sefydliadau gydymffurfio ag unrhyw ddyletswyddau cyfrinachedd sydd ganddynt.

### **Storio a chynnal a chadw data**

**5.2.4 RHAID\*** i sefydliadau arddel arferion hylendid data da (dileu gwybodaeth anghywir/anghyflawn o'ch data) i sicrhau bod gwybodaeth am roddwyr yn gywir, yn adlewyrchu dewisiadau cyfathrebu'r rhoddwyr ac yn cael ei chadw cyhyd ag y bo angen yn unig.

**5.2.5 RHAID** i sefydliadau allu dangos bod yr holl gamau rhesymol wedi cael eu cymryd i sicrhau bod:

**a)** cronfeydd data yn gywir a phan fo angen, wedi'u diweddarau.

**b)** marchnata uniongyrchol yn cael ei atal i unigolion os yw'r unigolyn wedi gofyn i beidio â'i dderbyn.

**c)** y sefydliad yn rhoi'r gorau i gysylltu ag unigolion sydd wedi marw os yw'r sefydliad wedi cael ei hysbysu neu os yw'r wybodaeth hon wedi cael ei nodi trwy ddefnyddio gwasanaeth atal i'r ymadawedig.

**5.2.6 RHAID\*** i ddata personol gael ei gadw dim ond cyhyd ag y bo angen i gyflenwi'r pwrpas y cafodd ei brosesu ar ei gyfer (gweler rheol **5.2.2** i wybod rhagor am y wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i'r unigolyn ynghylch prosesu).

**5.2.7 RHAID** i sefydliadau gael systemau neu weithdrefnau priodol yn eu lle (megis rhestr atal) i sicrhau nad ydynt yn anfon marchnata uniongyrchol at unigolion sydd wedi gofyn i beidio â'i dderbyn, boed hynny trwy sianeli cyfathrebu unigol neu ar draws pob sianel (gweler hefyd **Adran 5.7** – "Ceisiadau i Roi'r Gorau i Farchnata Uniongyrchol").



## 5.3 Rhannu a gwerthu data personol

### Rhannu data

**5.3.1 RHAID** i sefydliadau **BEIDIO\*** â rhannu data personol ag unrhyw sefydliad arall oni bai y gallant ddarparu tystiolaeth i ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion prosesu data yn Rheol 5.2.2 uchod a chyfiawnhau eu dulliau rhannu data trwy'r gofynion hyn.

**5.3.2** Os yw data personol yn cael ei rannu rhwng sefydliadau:

- o fewn strwythur ffederasiwn (h.y. lle mae un yn rheoli'r llall neu lle mae'r ddau o dan reolaeth gyffredin), neu
- o dan drefniadau prosesu data (h.y. pan fydd un sefydliad yn gweithredu ar ran sefydliad arall o dan gontract ysgrifenedig, megis codwyr arian proffesiynol, glanhawyr data, neu dai argraffu)

**a) RHAID\*** i strwythur/trefniadau'r sefydliad a'r pwrpas prosesu fod yn ddigon clir yn yr wybodaeth breifatrwydd a ddarperir i'r unigolyn fel bod y sefydliad yn gallu dangos y byddai prosesu wedi'i gynnwys o fewn disgwyliadau rhesymol unigolyn.

**b)** Fel arall, os yw'r sefydliad sy'n derbyn y data yn dibynnu ar gydsyniad yr unigolyn fel y sail ar gyfer dal a defnyddio'r data hwnnw, **RHAID\*** i'r sefydliad sy'n derbyn y data gael ei enwi yn y cais am gydsyniad, a **RHAID\*** i'r anfonwr gael cydsyniad penodol yr unigolyn i'w wybodaeth gael ei rhannu.

(Mae rhagor o wybodaeth ar rannu data i'w chael yng [Nghod Ymarfer Rhannu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#)).

**5.3.3** Y tu hwnt i'r disgwyliadau penodol a nodir yn rheol **5.3.2**, **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO\*** â rhannu data personol unigolyn ag unrhyw sefydliad arall ar gyfer dibenion marchnata y sefydliad hwnnw heb gael cydsyniad o wirfodd, penodol, gwybodus a diamwys yr unigolyn hwnnw i rannu'r data personol â'r sefydliad arall. Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn a olygir wrth gydsyniad "o wirfodd", "penodol", "gwybodus" a "diamwys" i'w chael yng Nghyfarwyddyd y Rheoleiddiwr Codi Arian "[Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian](#)".

### Prynu a gwerthu data

**5.3.4** Hyd yn oed os yw'r unigolyn wedi cydsynio i'w ddata personol gael ei rannu **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO** â gwerthu'r data hwnnw i unrhyw sefydliad arall oni bai bod tystiolaeth sy'n dangos bod ganddo gydsyniad o wirfodd, penodol, gwybodaeth a diamwys yr unigolyn hwn i werthu ei ddata personol.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a olygir wrth gydsyniadau "o wirfodd", "penodol", "gwybodus" a "diamwys", gweler Cyfarwyddyd y Rheoleiddiwr Codi Arian "[Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian](#)".

Gweler adran **5.1-5.2** uchod (Prosesu Data Personol) ar gyfer ystyriaethau eraill ynghylch rhannu data.



## 5.4 Astudiaethau Achos

**5.4.1** Os yw sefydliad yn bwriadu defnyddio enghraifft bywyd go iawn o unigolyn mewn astudiaeth achos, **RHAID\*** i'r sefydliad brosesu data personol yr unigolyn yn unol â'r gyfraith (gweler adrannau **5.1-5.2** uchod ynghylch prosesu data personol yn gyfreithlon) a **RHAID PEIDIO\*** â datgelu gwybodaeth a dderbyniwyd mewn amgylchiadau lle y ceir dyletswydd gyfreithiol i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, oni bai bod rheidwydd cyfreithiol pwysicach i wneud hynny (er enghraifft, ymchwiliad yr heddlu).

## 5.5 Marchnata Uniongyrchol

Diffinnir "**Marchnata Uniongyrchol**" o dan y gyfraith fel "Cyfathrebu (trwy ba bynnag gyfrwng)... unrhyw ddeunyddiau hysbysebu neu farchnata... sydd wedi'u cyfeirio at unigolion arbennig..."

- Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn datgan bod gweithgarwch codi arian, yn ogystal â gweithgarwch hyrwyddo ac ymgyrchu elusennau, wedi'i gwmpasu gan y diffiniad o farchnata uniongyrchol ([Cyfarwyddyd Marchnata Uniongyrchol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#), 2016).
- Yn ymarferol, mae'r holl negeseuon electronig perthnasol (er enghraifft galwadau, negeseuon ffacs, negeseuon testun ac e-byst), yn ogystal â'r rhan fwyaf o bost cyfeiriedig wedi'u cyfeirio at rywun, felly maent wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad hwn.
- Rhaid i'r deunyddiau marchnata gael eu cyfeirio at unigolion arbennig. Nid yw rhai deunyddiau marchnata wedi'u cyfeirio at unigolion penodol (er enghraifft post heb gyfeiriad) ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys gan y diffiniad hwn.

Mae rhagor o wybodaeth ar ba weithgareddau sydd wedi'u cwmpasu gan farchnata uniongyrchol i'w gweld yng [Nghyfarwyddyd Marchnata Uniongyrchol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) (2016) a [chyfarwyddyd y Rheoleiddiwr Codi Arian Gwybodaeth Personol a Chodi Arian](#) (2017).

Ochr yn ochr â'r rheoliadau diogelu data sy'n gymwys i farchnata uniongyrchol, bydd y [Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig \(PECR\)](#) Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (PECR) yn gymwys pan fydd deunyddiau marchnata yn cael eu hanfon trwy ddulliau electronig, megis negeseuon ebost, negeseuon testun a galwadau ffôn wedi'u recordio. Yn yr achosion hyn, bydd angen cydsyniad bob amser fel amod ar gyfer prosesu wrth farchnata i unigolion, oni bai y gall y sefydliad fodloni:

- yr amod 'optio i mewn meddal' sy'n galluogi gwerthwyr i farchnata cynhyrchion/gwasanaethau tebyg ar ôl y pryniad cychwynnol (bydd yr eithriad hwn yn bosibl dim ond yn achos trafodiad masnachol); neu
- yr eithriad ar gyfer marchnata i danysgrifwyr corfforaethol

I gael rhagor o wybodaeth am eithriadau PECR hyn ewch i <https://ico.org.uk/> a thudalen Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar [farchnata post electronig](#).

Ceir canllawiau ychwanegol ar y seiliau cyfreithiol ar gyfer pob sianel gyfathrebu (galwadau byw, galwadau awtomatig, testun, ebost, post) ar dudalen 24 cyfarwyddyd y Rheoleiddio Codi Arian "[Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian](#)".

**5.5.1 RHAID\*** i sefydliadau gael sail gyfreithlon ar gyfer anfon cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol i unigolion.

Mae'r rheolau ynghylch "Cydsyniad" a "Budd Cyfreithlon", sef y ddwy sail fwyaf cyffredin ar gyfer anfon cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol wedi'u hamlinellu isod.

Mae rhagor o wybodaeth ar ("Cyfreithlondeb amodau prosesu") i'w gweld ar wefan [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

### **Cydsyniad fel sail ar gyfer cyfathrebiadau Marchnata Uniongyrchol**

**5.5.2** Pan fydd sefydliad yn defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio'r amod cydsyniad fel sail gyfreithiol ar gyfer cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol, **RHAID\*** i'r cydsyniad a geisiwyd fod yn gydsyniad "o wirfodd, penodol, gwybodus a diamwys sy'n rhoi arwydd o ddymuniadau yr unigolyn." **RHAID\*** i'r cydsyniad:

**a)** cael ei roi trwy weithred gadarnhaol glir gan yr unigolyn sy'n arwydd o gydsyniad (er enghraifft, defnyddio'r dulliau optio i mewn gweithredol, megis blychau optio i mewn heb eu ticio neu ofyn am ymateb geiriol "ie" i gwestiwn).

**b)** os yw'r sefydliad yn bwriadu prosesu data yr unigolyn at ddibenion lluosog, rhoi opsiynau gronynnog i gydsyniad ar wahân i fathau gwahanol o brosesu (gweler adran A2 o gyfarwyddyd y Rheoleiddiwr Codi Arian "[Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian](#)" i gael canllawiau ar sut i benderfynu a yw dibenion ar wahân yn bodoli ar gyfer prosesu data personol neu os gellir cyfuno'r dibenion hyn).

**c)** bod ar wahân i delerau ac amodau eraill a heb fod yn rhag-amod o gofrestru i ddefnyddio gwasanaeth (oni bai bod hynny'n angenrheidiol ar gyfer y gwasanaeth hwnnw).

**d)** enw'r sefydliad ac unrhyw drydydd partïon a fydd yn dibynnu ar y cydsyniad.

**e)** hysbysu unigolion am eu hawl i dynnu cydsyniad yn ôl unrhyw bryd.

**f)** cael ei gofnodi mewn ffurf sy'n galluogi'r sefydliad i ddangos trwy dystiolaeth pwy sydd wedi cydsynio, pryd roeddent wedi cydsynio, sut roeddent wedi cydsynio, a beth gawsant ei wybod.

**5.5.3 RHAID\*** i geisiadau am gydsyniad electronig fod yn glir, yn gryno a heb amharu'n ddiangen ar ddefnyddio'r gwasanaeth y cawsant eu darparu ar ei gyfer (gallai gofyniad o'r fath gael ei gyflawni, er enghraifft, trwy dorri hysbysiad preifatrwydd hwy yn ddarnau byrrach o wybodaeth preifatrwydd sy'n cael eu gweld ar y sgrin dim ond pan fydd data personol yn cael ei fewnbynnu gan yr unigolyn).

Gweler [Cyfarwyddyd Cydsyniad GDPR](#) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael manylion pellach ar gael, cofnodi a rheoli cydsyniad.

**5.5.4** Os yw cydsyniad wedi cael ei geisio ar gyfer cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol:

a) **RHAID\*** i sefydliadau gynnig y cyfathrebiadau dilynol i'r unigolyn mewn ffyrdd lle mae'n hawdd i dynnu cydsyniad yn ôl (megis botwm "datdanysgrifio").

b) **RHAID** i sefydliadau, ar gyfnodau rheolaidd, fel y penderfynir gan y sefydliad, atgoffa unigolion am eu dewisiadau cysylltu a chynnig ffordd hawdd iddynt newid y dewisiadau hyn os ydynt yn dymuno (megis botwm "diweddarau eich dewisiadau cyfathrebu").

c) **RHAID\*** i sefydliadau sicrhau bod cofnod unigolyn yn cael ei ddiweddarau fel y bo angen er mwyn adlewyrchu newidiadau i'w gydsyniad neu ddewisiadau cysylltu.

**5.5.5 RHAID** i'r holl ddatganiadau caniatâd (geiriad i gael cydsyniad at ddibenion marchnata) a ddangosir yn y deunyddiau codi arian fod o leiaf yr un maint ffont â'r mwyaf o'r canlynol

(i) unrhyw destun sy'n gofyn am fanylion personol y derbynydd,

neu (ii) unrhyw destun sy'n nodi swm y rhodd. Os nad oes unrhyw destun sy'n gofyn am fanylion personol neu sy'n pennu swm y rhodd, **RHAID** i unrhyw ddatganiadau caniatâd fod o leiaf ym maint ffont 10.

Cliciwch yma ar gyfer [cyfarwyddyd Rheoli Dewisiadau y Sefydliad Codi Arian ar hyn](#).

Mae rhagor o wybodaeth ar sicrhau cydsyniad i'w gweld yng Nghyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar [GDPR a chydsyniad](#) ac yng Nghyfarwyddyd Rheoleiddiwr Codi Arian "[Gwybodaeth Personol a Chodi Arian](#)".

## **Budd cyfreithlon fel sail ar gyfer cyfathrebiadau Marchnata Uniongyrchol**

**5.5.6** Os yw sefydliad yn dibynnu ar yr amod Budd Cyfreithlon ar gyfer prosesu data at ddiben marchnata uniongyrchol trwy alwad ffôn byw neu drwy'r post, **RHAID\*** i'r sefydliad allu roi tystiolaeth i ddangos y canlynol:

**a)** ei fod wedi pennu budd cyfreithlon (mae cyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi y gall hyn fod yn fudd y sefydliad ei hun neu'n fudd trydydd partïon a gallai gynnwys buddiannau masnachol, buddiannau unigol a buddiannau cymdeithasol ehangach)

**b)** bod y prosesu yn angenrheidiol er mwyn sicrhau'r budd hwnnw (mae nodiadau canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi os oes modd sicrhau'r canlyniad mewn ffordd arall gyda llai o ymyrraeth, ni fydd buddiannau cyfreithlon yn gymwys)

**c)** ei fod wedi cydbwysu ei fudd o ran prosesu'r data personol yn erbyn buddiannau, hawliau a rhyddid yr unigolyn i sicrhau bod buddiannau'r sefydliad heb fod yn bwysicach na buddiannau'r unigolyn (mae cyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi pe na bai'n rhesymol i'r unigolyn ddisgwyl y prosesu neu byddai'n achosi niwed digyfiawnhad, mae ei fuddiannau yn debygol o fod yn bwysicach na buddiannau'r sefydliad)

**d)** cofnod o wneud y penderfyniad, a bod hyn ar gael ar gais.

**5.5.7** Os yw sefydliad yn dibynnu ar amod Budd Cyfreithlon ar gyfer prosesu data at ddiben marchnata uniongyrchol dros y ffôn neu drwy'r post:

**a) RHAID\*** i'r sefydliad esbonio i beth y caiff gwybodaeth bersonol yr unigolyn ei ddefnyddio

**b) RHAID\*** i'r sefydliad esbonio'r buddiannau cyfreithlon y mae'r sefydliad yn ceisio eu cyflawni.

**c) RHAID** i'r sefydliad gynnig, yn y cyfathrebiad hwn ac unrhyw gyfathrebu marchnata uniongyrchol diweddarach, ddull clir a syml i'r unigolyn nodi nad yw'n dymuno cael unrhyw ddeunyddiau marchnata yn y dyfodol. (Gweler [Cod Ymarfer ar Hysbysiadau Preifatrwydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) i gael canllawiau ar hysbysiadau preifatrwydd)

Mae rhagor o ganllawiau ar ddefnyddio budd cyfreithlon i'w cael ar <https://ico.org.uk/>.

## **5.6 Ceisiadau gan unigolion i gael mynediad i'w data personol**

**5.6.1** Os yw sefydliad yn prosesu data personol unigolyn drwy ddulliau awtomatig (h.y. trwy ddefnyddio cyfrifiaduron a meddalwedd cyfrifiaduron), **RHAID\*** iddynt, ar gais yr unigolyn, ddarparu'r data personol a gwybodaeth i'r unigolyn ynghylch sut y caiff ei defnyddio os yw hynny yn unol â hawl mynediad yr unigolyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau.

Mae rhagor o wybodaeth i sefydliadau ynghylch pa ddata y mae'n rhaid ei ddarparu a sut y mae'n rhaid iddo gael ei ddarparu o dan yr Hawl Mynediad i'w chael ar <https://ico.org.uk/>.

**5.6.2** Os oes gan sefydliad neu os yw sefydliad yn defnyddio data personol unigolyn i gyflawni contract neu oherwydd bod ei gydsyniad ganddo fel sail gyfreithlon ar gyfer prosesu, **RHAID\*** i'r sefydliad sicrhau bod modd symud y data personol yn rhwydd, ei

gopïo neu ei drosglwyddo o un amgylchedd TG i'r llall pan fydd yr unigolyn yn gwneud cais amdano (boed i systemau'r unigolyn ei hun, systemau trydydd partïon y gellir ymddiried ynddynt, neu systemau rheolyddion data newydd).

Mae rhagor o wybodaeth ar gyfer sefydliadau ar ofynion o dan yr Hawl i Gludadwyedd Data i'w chael ar <https://ico.org.uk>.

## **5.7 Ceisiadau gan unigolion i roi'r gorau neu beidio â dechrau derbyn Marchnata Uniongyrchol**

**5.7.1 RHAIID\*** i sefydliadau naill ai roi'r gorau o fewn cyfnod rhesymol (sy'n golygu cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ond mewn unrhyw achos heb fod yn fwy na 28 diwrnod), neu beidio â dechrau prosesu data personol unigolyn at ddiben marchnata uniongyrchol pan gânt hysbysiad gan neu ar ran unigolyn i wneud hynny. Gall hyn gynnwys:

**a)** hysbysiad gan (neu ar ran) unigolyn a gyflwynwyd trwy'r [Gwasanaeth Dewisiadau Codi Arian](#) neu hysbysiad gan y Gwasanaeth Dewisiadau Codi Arian bod cais o'r fath wedi cael ei wneud.

**b)** unrhyw arwydd arall o ddymuniadau gan unigolyn (neu a wnaed ar ei ran) nad yw am i'r elusen gysylltu â nhw at ddibenion marchnata uniongyrchol, megis trwy ddulliau dewis a datdanysgrifio.

a) Mae rhagor o wybodaeth ar reoli dewisiadau cysylltu unigolion i'w gweld yng Nghyfarwyddyd y Rheoleiddiwr Codi Arian "[Gwybodaeth Personol a Chodi Arian](#)".

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

# 6.0 Cynnwys Cyfathrebiadau Codi Arian

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

**6.1 RHAID** i sefydliadau allu dangos bod pob cam rhesymol wedi cael ei gymryd i sicrhau bod cyfathrebiadau yn addas ar gyfer y rhai a dargedir.

**6.2 RHAID** i sefydliadau **BEIDIO\*** ag anfon cyfathrebiadau sy'n anwedus neu'n hynod dramgwyddus ac a fwriedir i achosi gofid neu bryder.

**6.3 RHAID\*** i sefydliadau sicrhau bod deunyddiau yn cydymffurfio â'r cyfreithiau hawlfraint a bod caniatâd yn cael ei geisio gan y deiliaid hawlfraint i ddefnyddio'r delweddau, logos ac ati.

**6.4 RHAID\*** i sefydliadau sicrhau bod llenyddiaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, er enghraifft, statws neu rif elusen gofrestredig, enw llawn y cwmni a swyddfa gofrestredig os yw'n gymwys.

**6.5 RHAID\*** i sefydliadau sicrhau nad yw deunyddiau yn awgrymu bod yr arian ar gyfer diben cyfyngedig (megis prynu gafr, neu helpu plentyn arbennig) pan ellir ei ddefnyddio at ddibenion gwahanol neu ar gyfer cronfeydd cyffredinol.

**6.6** Os yw sefydliadau yn codi arian mewn partneriaeth ag un neu ragor o sefydliadau, **RHAID** i sefydliadau ddatgan sut y caiff yr arian ei ddyrannu rhwng y sefydliadau.

**6.7 RHAID** i sefydliadau codi arian gydymffurfio â Chod [CAP \(Committee of Advertising Practice\) Code](#) a [BCAP \(Broadcasting Committee of Advertising Practice\)](#) a sicrhau bod yr holl hysbysebion yn gyfreithiol, yn weddus, yn onest ac yn wir.

**6.8 RHAID** i gyfathrebiadau codi arian **BEIDIO** â charmarwain neu fod yn debygol o gamarwain trwy fod yn anghywir, yn amwys, gor-ddweud, hepgor gwybodaeth neu fel arall.

**6.9** Cyn dosbarthu, **RHAID** i sefydliadau codi arian sicrhau bod tystiolaeth i brofi bod popeth a honnir, boed yn uniongyrchol neu'n ymhlyg, yn gallu cael eu cadarnhau'n wrthrychol.

**6.10** Os yw sefydliadau yn newid elfennau o'r astudiaethau achos neu'n defnyddio enghreifftiau go iawn i ysbrydoli astudiaeth achos, **RHAID** egluro hyn a **RHAID** i'r sefydliadau allu profi bod yr astudiaeth achos yn gynrychioliadol.

**6.11 RHAID** cymryd gofal arbennig i osgoi peri tramgwydd ar sail hil, oedran, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd. Bydd hyn yn amrywio yn ôl y cyddestun, cyfrwng, cynulleidfa, cynnyrch a'r safonau gwedduster cyfredol.

**6.12 RHAID** i sefydliadau codi arian allu cyfiawnhau'r defnydd o ddelweddau a allai fod yn ysgytwol, a rhoi rhybudd ar gyfer deunyddiau o'r fath.

**6.13 RHAID** i sefydliadau allu cyfiawnhau amllder cysylltiad, gan gynnal cydbwysedd rhwng yr awydd i gyfathrebu â pheidio â gorlethu/bombardio derbynwyr.

**6.14 RHAID** i sefydliadau barchu ceisiadau'r rhoddwr ynghylch pa mor aml y cysylltir ag ef/hi a'i gwneud hi'n hawdd i gyfathrebu'r ceisiadau hyn.

**6.15 RHAID** i ddeunyddiau codi arian **BEIDIO** â dwyn pwysau ar ddarpar roddwyr ond gallant ddefnyddio dulliau rhesymol i'w darbwylo.

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

# 7.0 Post

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

## 7.1 Paratoi

**7.1.1** Yn ogystal â chydymffurfio ag adran **5.7**, **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO** ag anfon deunyddiau marchnata uniongyrchol at unigolion sydd wedi cofrestru gyda'r [Gwasanaeth Dewis Post](#) os nad oes tystiolaeth o berthynas blaenorol. **RHAID** i sefydliadau ystyried cofrestrriad gyda'r Gwasanaeth Dewis Post fel rhan o'i Asesiad Budd Cyfreithlon os yw'n bwriadu prosesu data unigolyn at ddibenion marchnata uniongyrchol o dan yr amod budd cyfreithlon.

## 7.2 Dogfennau Amgaeedig yn y Post

Gall dogfennau amgaeedig gynnwys cymhellion i annog rhoddion, mewnosodiadau sy'n esbonio gwaith y sefydliad neu roddion o ddiolch. Wedi'u hanfon fel eitemau unigol neu o fewn deunyddiau codi arian eraill, maent yn ddarostyngedig i'r un ystyriaethau â chynnwys post codi arian arall.

**7.2.1 RHAID** i sefydliadau codi arian allu dangos mai pwrpas dogfennau amgaeedig oedd gwella'r neges a/neu'r ymgysylltu emosiynol â'r achos ac nid ysgogi rhodd yn bennaf oherwydd euogrwydd ariannol neu i achosi chwithdod. (Gweler hefyd Rheol 1.3.3 Gwobrwyon/Cymhellion a Phecynnau Buddion).

**7.2.2 RHAID** i sefydliadau codi arian ystyried diogelwch unrhyw ddogfennau amgaeedig.

**7.2.3 RHAID** i sefydliadau codi arian **BEIDIO** â defnyddio dogfennau amgaeedig a allai achosi anghyfleustra o ran eu dosbarthu, oni bai bod y rhoddwr yn gwybod neu wedi gwneud cais amdanynt.

## 7.3 Postio Cytbwys

Mae postio cytbwys yn disgrifio sefyllfa lle mae dau sefydliad yn hyrwyddo ei gilydd trwy'r post er mwyn sicrhau budd ar y cyd.

Gweler adran **5.2** ("Prosesu data ac arferion cronfa ddata") a **5.3** ("Prynu a Rhannu Data Personol") ar gyfer ystyriaethau sy'n ymwneud â Phostio Cytbwys.



# 8.0 Ffôn

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

## 8.1 Cyflwyniad

Bydd yr adran hon yn rhoi sylw i'r holl alwadau codi arian sy'n cael eu gwneud i ddeisyfu mathau ariannol a mathau eraill o roddion, megis amser gwirfoddoli, ond ni fydd yn cwmpasu galwadau gweinyddol/addysgiadol neu alwadau "diolch" (er y gellir defnyddio'r safonau hyn fel canllaw ar gyfer y galwadau hyn). Bydd galwadau codi arian hefyd yn cynnwys unrhyw negeseuon lleisbost sy'n cael eu gadael i ddarpar roddwyr.

## 8.2 Paratoi a Gweithdrefn

### 8.2.1 Gweithio gyda Chyflenwyr

- a) Os yw'r cyflenwr wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad o godwr arian proffesiynol, mae'n **RHAID\*** i'r cyflenwr gael cytundeb ysgrifenedig â'r sefydliad.
- b) Os defnyddir cyflenwyr allanol nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad o godwr arian proffesiynol, **RHAID** i gytundeb fod yn ei le.
- c) **RHAID\*** i gytundebau â chodwyr arian proffesiynol gynnwys manylion y taliad/treuliau y bydd codwr arian proffesiynol yn ei gael ynghyd â'r materion eraill y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'w cynnwys mewn cytundebau â chodwyr arian proffesiynol.
- d) **RHAID** i gytundebau â chyflenwyr nad ydynt yn godwyr arian proffesiynol gynnwys yr wybodaeth hon.

### 8.2.2 Eithriadau Cynulleidfa Darged

- a) **RHAID\*** i'r categorïau canlynol o ddarpar dderbynwyr ffôn gael eu heithrio o alwadau marchnata:
  - pawb sydd wedi cofrestru gyda'r [Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn](#), oni bai eu bod nhw wedi hysbysu'r sefydliad codi arian y byddant yn cydsynio i dderbyn galwadau ganddynt (**gweler 8.2.3**)
  - unrhyw unigolyn sydd wedi gofyn i'r sefydliad codi arian roi'r gorau i Farchnata Uniongyrchol neu beidio â dechrau Marchnata Uniongyrchol fel yr amlinellir yn Adran 5.7.
- b) **RHAID** i dderbynnydd **BEIDIO\*** â derbyn galwad ffôn trwy ddefnyddio

system deialu awtomataidd (h.y. system sy'n gallu deialu cyfres o rifau yn awtomatig a chwarae neges wedi'i recordio) oni bai bod y derbynnydd wedi caniatáu hynny.

- c) **RHAID PEIDIO** â ffonio unrhyw un y gwyddys ei fod o dan 16 oed.
- d) Hefyd, **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO** â chynhyrchu galwadau ffôn codi arian trwy ddeialu digidau ar hap, boed a yw'r deialu â llaw neu drwygyfrifiadur.

### 8.2.3 Y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn

Mae'r [Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn \(TPS\)](#) a'r [Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn Corfforaethol \(CTPS\)](#) yn caniatáu i'r unigolion neu'r cwmnïau gofrestru eu rhifau ffôn i ddangos nad ydynt am dderbyn galwadau ffôn gwerthu a marchnata na ofynnwyd amdanynt.

- a) **RHAID\*** i sefydliadau wirio rhifau ffôn bob amser yn erbyn y gwasanaethau hyn cyn ffonio.
- b) **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO\*** â gwneud galwadau marchnata uniongyrchol i unrhyw rif sydd wedi'i gofrestru gyda'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn neu'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn Corfforaethol, oni bai bod y sawl sydd â'r rhif cofrestredig wedi rhoi gwybod i'r sefydliad yn benodol ei fod yn cytuno i dderbyn galwadau Marchnata Uniongyrchol ganddynt am y tro.
- c) **RHAID** i alwadau marchnata sy'n esgus bod yn alwadau gweinyddol **BEIDIO\*** â chael eu gwneud.

Nid yw galwadau gyda phwrpas gweinyddol yn unig (er enghraifft, i gadarnhau manylion banc neu fod taliad wedi cael ei dderbyn) yn ddarostyngedig i reolau Marchnata Uniongyrchol. Fodd bynnag, dylai sefydliadau sicrhau nad yw unrhyw ddeunyddiau marchnata wedi'u cynnwys mewn cyfathrebiadau o'r fath.

*Mae rhagor o arweiniad ar gyfathrebu ac a yw'n cael ei ystyried yn bwrpas gweinyddol neu bwrpas Marchnata Uniongyrchol i'w weld yng nghyfarwyddyd Marchnata Uniongyrchol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Chyfarwyddyd y Rheoleiddiwr Codi Arian "[Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian](#)".*

**d) RHAID** i sefydliadau sy'n gwneud galwadau ffôn codi arian byw allu darparu tystiolaeth i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol o ran y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn.

*Mae arweiniad i'w gael yn nghyhoeddiad y Rheoleiddiwr Codi Arian [Canllaw Cyflym i Gydydffurfio â'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn](#). Rhaid cael cydsyniad ar gyfer galwadau awtomatig, gweler rheol **8.2.2 b**).*

### 8.2.4 Cysylltiad Cyn-ffonio

- a) **RHAID\*** cydymffurfio â phob ymateb i gysylltiad sy'n nodi nad yw darpar dderbynnydd y galwad am ei gael.

## 8.2.5 Galw o rif adnabyddadwy

a) **RHAID** i asiantaethau codi arian wneud pob galwad codi arian trwy ddefnyddio rhif ffôn y mae'r derbynnydd yn gallu ei adnabod a gall y derbynnydd ei ddefnyddio i ddychwelyd yr alwad.

**RHAID** i elusennau, lle'n bosibl, wneud pob galwad codi arian trwy ddefnyddio rhif ffôn y mae'r derbynnydd yn gallu ei adnabod a gall y derbynnydd ei ddefnyddio i ddychwelyd yr alwad.

## 8.3 Yn ystod yr alwad

### 8.3.1 Gofynion Allweddol

Mae **Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian** yn cynnwys gofynion i godwyr arian dros y ffôn o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig. Dylai'r rheolau canlynol gael eu darllen ar y cyd â'r gofynion a nodir yn yr adran honno.

- a) **RHAID\*** i sefydliadau gael cytundeb ysgrifenedig yn ei le sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i isgcontractwyr gydymffurfio â'r gyfraith diogelu data berthnasol.
- b) **RHAID** i alwadau ffôn awtomatig **BEIDIO\*** â chael eu gwneud i unigolion heb eu cydsyniad.
- c) **RHAID PEIDIO** â gwneud galwadau ar ôl 9pm, oni bai bod y derbynnydd yn gofyn i chi wneud hynny.
- d) Os yw unigolyn wedi datgan yn eglur cyn hynny nad yw am dderbyn deunyddiau marchnata, **RHAID PEIDIO\*** â chysylltu â nhw (gweler hefyd Adran 5.7 – "Ceisiadau i roi'r gorau neu beidio â dechrau Marchnata Uniongyrchol").
- e) **RHAID\*** i sefydliadau ddweud pwy ydynt pan fyddant yn gwneud galwad Marchnata Uniongyrchol.
- f) Os yw'r galwad ffôn yn gysylltiad cyntaf â'r rhoddwr, **RHAID** i'r galwr ofyn a yw'r derbynnydd yn hapus iddynt gysylltu â nhw ar yr adeg honno. Os yw'r derbynnydd yn gofyn i'r sefydliad beidio â'i alw eto, **RHAID\*** i'r sefydliad codi arian gydymffurfio â'r cais.
- g) Yn yr Alban, **RHAID\*** i wybodaeth am dâl a roddwyd gan [godwr arian proffesiynol](#) yn ystod galwad fod ar gael yn ysgrifenedig a'i gynnig i'r rhoddwr.
- h) **RHAID\*** i godwyr arian wneud [datganiadau datgelu](#) priodol.
- i) Os yw sefydliad yn defnyddio isgcontractwr (megis codwr arian dros y ffôn allanol sydd wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad o [godwr arian proffesiynol](#)), yna mae'n **RHAID** i'r isgcontractwr roi gwybod i gysylltiadau pwy yw'r sefydliad y mae'r galwadau yn cael eu gwneud ar ei ran ynghyd â manylion tâl yr isgcontractwr mewn perthynas â'r apêl.

- j) Yng Nghymru a Lloegr, **RHAID\*** i'r [datganiad priodol](#) gael ei wneud yn ystod pob galwad a rhaid i ddatganiad ysgrifenedig gael ei anfon o fewn saith niwrnod o unrhyw daliad sy'n cael ei wneud gan y rhoddwr i'r codwr arian proffesiynol.
- k) Yn yr Alban, **RHAID\*** i wybodaeth am dâl a roddir gan godwr arian proffesiynol yn ystod galwad fod ar gael yn ysgrifenedig a'i gynnig i'r rhoddwr.
- l) **RHAID\*** i sefydliadau osgoi camddefnyddio'n barhaol Rhwydwaith neu Wasanaeth Cyfathrebu Electronig i gysylltu â rhoddwyr (gan gynnwys gwneud galwadau distaw neu a adawyd).

Mae [Datganiad Diwygiedig ar y Camddefnydd Parhaol o Rwydwaith neu Wasanaeth Cyfathrebu Electronig \(2016\)](#) gan Ofcom yn rhoi arweiniad ar alwadau distaw a mathau eraill o alwadau niwsans, gan gynnwys pa ffactorau y mae'n eu hystyried wrth benderfynu a yw camddefnydd parhaol o rwydwaith neu wasanaeth cyfathrebu electronig wedi digwydd neu beidio.

Mae'r Gymdeithas Marchnata Uniongyrchol hefyd wedi darparu [Cyngor Ymarferol ar Gamddefnydd Parhaol \(2017\)](#) ar gyfer canolfannau cyswllt yn sgîl datganiad Ofcom.

- m) **RHAID** i sefydliadau egluro bod y galwad yn ceisio cymorth ariannol neu fathau eraill o gymorth.
- n) Yn ogystal â'r rheol a nodir yn adran 1.2g, **RHAID** i godwyr arian **BEIDIO**, ar unrhyw adeg yn ystod galwad ffôn, â bod yn afresymol o ddyfalbarhaus neu roi pwysau gormodol ar y derbynydd i roi, ac yn arbennig, **RHAID** iddynt **BEIDIO** â gofyn am gyfraniad ariannol mwy na thair gwaith yn ystod y galwad hwnnw.
- o) Os yw derbynydd galwad yn gofyn i chi beidio â'i ffonio eto, **RHAID\*** i'r sefydliad codi arian gydymffurfio â'r cais (gweler hefyd Adran 5.7 – "**Ceisiadau i roi'r gorau neu beidio â dechrau Marchnata Uniongyrchol**").

### 8.3.2 Lleisbost

- a) Os ydynt yn gadael neges lleisbost, **RHAID** i godwyr arian egluro beth yw pwrpas y galwad.

## 8.4 Ar ôl y Galwad

### 8.4.1 Bodloni Rhoddion

- a) Mae'n **RHAID\*** i'r codwr arian [mewn amgylchiadau arbennig, ysgrifennu at y rhoddwr gan ailadrodd y datganiad datgeliad a hysbysu'r rhoddwr o'i hawl i gael ad-daliad](#).
- b) **RHAID\*** i ad-daliadau gael eu rhoi pan fydd rhoddwyr yn arfer eu hawliau i gael ad-daliad.
- c) Os yw rhoddion yn cael eu talu i'r codwr arian dros y ffôn allanol, **RHAID\*** iddynt

gael eu talu i'r sefydliad codi arian cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl eu derbyn ac, mewn unrhyw achos, ddim hwyrach na 28 diwrnod ar ôl eu derbyn (oni bai, yng Nghymru a Lloegr, bod amserlen wahanol wedi cael ei chytuno).

d) **RHAID\*** i unrhyw wybodaeth ysgrifenedig sy'n gofyn am roddion a anfonir gan elusen o ganlyniad i'r galwad gynnwys [datganiad bod y sefydliad yn elusen](#).

e) Yn yr Alban **RHAID\*** i hwn [gynnwys enw llawn a rhif elusen hefyd](#).

f) Os yw manylion rhoddwyr yn cael eu storio, **RHAID\*** i godwyr arian sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â gofynion y gyfraith diogelu data.

Mae **Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y [gofynion yn ymwneud â diogelu data](#).

Ceir rhagor o wybodaeth am godi arian dros y ffôn yng nghyfarwyddyd Codi Arian dros y [Ffôn y Sefydliad Codi Arian](#).

[\*Mae rhagor o wybodaeth am godi arian dros y ffôn ar gael yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian \(IoF\) - Telephone Fundraising.\*](#)

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

## 9.0 Cyfryngau Digidol

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

### 9.1 Hygyrchedd a Defnyddioldeb

Mae bod yn hygyrch yn golygu defnyddio'r technolegau gwe diweddaraf i ddarparu ar gyfer anghenion cynifer o ddefnyddwyr â phosibl.

a) **RHAID\*** i'r holl lwyfannau digidol gydymffurfio â [Deddf Cydraddoldeb 2010](#) a **RHAID\*** i sefydliadau wneud "addasiadau rhesymol" i ddarparu ar gyfer anghenion pob defnyddiwr.

Mae gwybodaeth am hygyrchedd i'w chael gan [ganolfan mynediad i'r we Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion \(RNIB\)](#) neu Gonsortwm y We Fyd-eang, [W3C](#).

### 9.2 Gwefannau Sefydliadau

#### 9.2.1 Gwybodaeth i'w Darparu

Yn ogystal â'u prif wefannau, gall fod gwefannau cysylltiedig eraill gan sefydliadau codi arian neu safleoedd micro wedi'u creu ar gyfer ymgyrchoedd neu ddigwyddiadau penodol. Mae'r adran hon yn cynnwys yr holl wefannau a grëwyd gan sefydliadau.

a) **RHAID\*** i sefydliadau gael gwybodaeth benodol ar eu gwefannau am eu statws, yn dibynnu ar amodau arbennig.

b) **RHAID** i sefydliadau sicrhau bod rhif cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost yn hawdd i'w ganfod.

#### 9.2.2 Data

a) Mae'r [Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig \(Cyfarwyddeb y CE\) 2003](#) (fel y'u diwygiwyd yn 2011) yn cynnwys rheolau ynghylch defnyddio cwcis (ffeiliau testun sy'n storio gwybodaeth unigolyn) ar wefannau. **RHAID\*** i sefydliadau sicrhau eu bod nhw'n dilyn y Rheoliadau a'r gofynion diogelu data ehangach.

b) **RHAID\*** i sefydliadau hysbysu defnyddwyr gwefannau am ddefnydd y wefan o gwcis ac yn arbennig **RHAID\*** iddynt wneud hynny mewn ffordd amlwg a dealladwy i sicrhau bod cydsyniad y defnyddiwr i ddefnyddio cwcis wedi'i seilio ar wybodaeth gadarn.

- c) **RHAID** i geisiadau i ddatdanysgrifio gael sylw mewn modd amserol. Mae canllawiau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar [derfynau amser](#) y gellir dod o hyd iddynt ar eu gwefan.
- d) **RHAID** i sefydliadau esbonio dal a defnyddio data yn eglur, er enghraifft, trwy bolisi neu ddatganiad preifatrwydd.
- e) **RHAID** i'r holl wybodaeth am ddal a defnyddio data fod yn hawdd i'w chael o hafan y wefan ac ar unrhyw dudalen sy'n casglu data personol.

Mae **Adran 5: Gwybodaeth Personol a Chodi Arian** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y [gofynion yn ymwneud â diogelu data](#).

### 9.2.3 Cynnwys

- a) **RHAID\*** i sefydliadau gael y caniatâd eiddo deallusol angenrheidiol i ddefnyddio neu rannu cynnwys digidol, megis delweddau, sain, fideo ac ati.

## 9.3 E-fasnach, Rhoddion Ar-lein a Llwyfannau Codi Arian

### 9.3.1 Taliadau Electronig

Mae nifer o safonau sy'n gymwys i daliadau electronig, megis [Safon Diogelwch Data y Diwydiant Cerdyn Talu \(PCI-DSS\)](#) ar gyfer prosesu trafodion cerdyn, a'r Gwarant Debyd Uniongyrchol ar gyfer prosesu Debydau Uniongyrchol.

### 9.3.2 Rafflau a Lotriau Ar-lein

- a) **RHAID\*** i sefydliadau gydymffurfio â [Deddf Hapchwarae 2005](#) neu, yng Ngogledd Iwerddon, [Gorchymyn Betio, Hapchwarae, Lotriau a Difyrion \(Gogledd Iwerddon\) 1985](#).

I gael rhagor o wybodaeth am y gwahanol fathau o lotriau a'r rheolau sy'n gymwys ar gyfer pob math, gweler [L13 Rafflau a Lotriau](#) neu siaradwch â'r [Comisiwn Hapchwarae](#) sy'n rheoleiddio'r maes hwnnw.

Ar gyfer Gogledd Iwerddon, cysylltwch ag [Uned Polisi Cymdeithasol yr Adran Datblygu Cymdeithasol](#) a'i [Thaflen Wybodaeth - The Law on Lotteries in Northern Ireland](#).

### 9.3.3 Masnachu Ar-lein, Is-gwmnïau Masnachu ac e-fasnach

- a) **RHAID\*** i sefydliadau fasnachu dim ond os yw eu dogfennau llywodraethol yn caniatáu hynny.

- b) **RHAID\*** i sefydliadau gydymffurfio â'r holl gyfraith defnyddwyr perthnasol a deddfwriaeth masnach digidol gan gynnwys [Rheoliadau Contractau Defnyddwyr \(Gwybodaeth, Canslo a Thaliadau Ychwanegol\) 2013](#).
- c) Os yw digwyddiadau gwerthu nwyddau neu godi arian (megis digwyddiadau her) yn cael eu cynnal trwy is-gwmni masnachu, **RHAID\*** i sefydliadau codi arian egluro hynny ar ddogfennau cyfathrebu perthnasol neu dudalennau gwe.
- d) **RHAID\*** i sefydliadau sicrhau bod disgrifiadau a delweddau o nwyddau yn ddigon cywir i beidio â charmarwain rhoddwyr ynghylch yr hyn y maent yn ei brynu.
- e) **RHAID\*** i sefydliadau gael y caniatâd eiddo deallusol angenrheidiol i ddefnyddio neu rannu cynnwys digidol, megis delweddau, sain, fideo ac ati.
- f) **RHAID\*** i sefydliadau gydymffurfio â gofynion cyfreithiol ynghylch darparu, canslo, ad-daliadau a nwyddau a **RHAID** iddynt gael polisiau sy'n amlinellu prosesau ac amserau ar gyfer darpar gwsmeriaid.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler [cyfarwyddyd](#) y Sefydliad Codi Arian (IoF) ar hyn.

### 9.3.4 Llwyfannau Codi Arian Ar-lein

*Dylid darllen yr adran hon o'r Cod ar y cyd â'r [Canllawiau dar gyfer Llwyfannau Codi Arian](#) a [chynqor a chyfarwyddyd i'r cyhoedd ar Godi Arian Ar-lein](#) y Rheoleiddiwr Codi Arian.*

At ddiben y Cod hwn, **llwyfannau codi arian ar-lein** yw gwefannau neu gymwysiadau a weithredir gan gwmnïau masnachol, sefydliadau di-elw neu gan elusennau eu hunain, neu gan unigolion, sy'n hwyluso ymgyrchoedd codi arian elusennol a/neu gyllido torfol gan unigolion neu sefydliadau at ddibenion elusennol. Maent yn galluogi rhoddwyr i roi at achosion elusennol trwy ddefnyddio eu cyfrifiaduron, ffonau clyfar a dyfeisiau electronig eraill, a thrwy eu cardiau credyd, cardiau debyd neu waledi digidol (dyfeisiau sy'n galluogi unigolyn i wneud trafodion electronig, megis Paypal).

At ddiben y Cod hwn, mae **cyllido torfol** yn cyfeirio at godi arian gan unigolyn, grŵp o unigolion, neu sefydliad masnachol at ddibenion elusennol, ond heb ei gysylltu'n uniongyrchol â chyfrif banc elusen. Gallai hyn olygu bod arian yn cael ei drosglwyddo i'r cyllidwr torfol i'w ddsbarthu wedi hynny i elusen, neu i'w wario ar achos personol, er enghraifft, cynorthwyo ffrind neu berthynas gyda chostau meddygol.

Nid yw tudalennau rhoi ar wefan yr elusen ei hun (h.y. pan nad yw'r rhoddwr yn cael ei gyfeirio i ffwrdd o enw parth yr elusen ei hun i drydydd parti) yn cael eu hystyried o fewn cwmplas yr adran hon o'r Cod, lle na chodir unrhyw ffioedd ar roddion unigol. Os yw ffioedd (gan gynnwys ffioedd trafodion talu) yn cael eu codi ar sail rhoddion unigol gan drydydd parti, dylai elusennau sicrhau bod lefelau tryloywder yn unol â'r adran hon o'r Cod.

Gall arian a godir trwy lwyfannau codi arian ar-lein fynd: yn uniongyrchol i elusen gofrestredig; i godwr arian neu godwyr arian i'w drosglwyddo i elusen gofrestredig; neu i fuddiolwr nad yw'n elusen gofrestredig.

Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn annog llwyfannau codi arian ar-lein i gofrestru gyda ni i ddangos ymrwymiad cyhoeddus at godi arian mewn modd cyfrifol. I gofrestru, ewch



i [www.fundraisingregulator.org.uk/registration/register-third-party](http://www.fundraisingregulator.org.uk/registration/register-third-party).

Ochr yn ochr â'r rheolau isod, dylai Llwyfannau Codi Arian gyfeirio'n benodol at yr adrannau canlynol o'r Cod:

[Adran 2: Gweithio gyda Gwirfoddolwyr](#) ar gyfer ystyriaethau sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng elusennau a'r rhai sy'n ymgymryd â gweithgareddau codi arian trwy lwyfannau codi arian ar-lein.

[Adran 4: Trydydd partiön](#) ar gyfer ystyriaethau sy'n ymwneud ag asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau codi arian.

[Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian](#) ar gyfer ystyriaethau sy'n ymwneud â diogelu data.

[Adran 12: Partneriaid Corfforaethol](#) ar gyfer ystyriaethau sy'n ymwneud â chysylltiadau Cyfranogwr Masnachol a darparu gwasanaethau lletya i sefydliadau codi arian.

[Adran 20: Trin Rhoddion](#) ar gyfer ystyriaethau sy'n ymwneud â thrafodion cerdyn.

## Tâl am letya ymgyrch codi arian

At ddiben yr adran hon o'r Cod, mae 'tâl' yn cyfeirio at unrhyw ffioedd a godir ar elusen, rhodd, neu Rodd Cymorth gysylltiedig gan lwyfan codi arian. Gallai'r rhain gynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i: ffioedd llwyfan; ffioedd trafodion tâl; ffioedd gweinyddol; neu ffioedd tansgrifio misol/blynyddol sy'n daladwy gan elusen neu godwr arian.

- 9.3.4.1** Pan fydd Llwyfan Codi Arian yn derbyn cyfran o'r rhodd neu rodd cymorth fel tâl ar gyfer lletya ymgyrch codi arian, **RHAID** sicrhau bod y manylion canlynol i'w gweld yn glir i unigolion sy'n rhoi trwy eu safle a'u bod wedi'u harddangos cyn y pwynt lle y gofynnir am fanylion ariannol:
- sut y caiff ei dâl ei gyfrifo (er enghraifft fel canran o'r rhodd cymorth, tâl a godir ar rodd neu X punt/ceiniog ar gyfer pob rhodd); a
  - swm y tâl a gaiff, os gwyddys ar y pwynt gwneud rhodd, ac os na wyddys, enghraifft sy'n dangos y swm y byddai'r sefydliad yn ei dderbyn ar gyfer rhodd ddamcaniaethol.

## Cyfrifoldebau Llwyfannau Codi Arian

- 9.3.4.2** **RHAID** i lwyfannau codi arian gyhoeddi canllawiau arfer da ar gyfer y rhai sy'n sefydlu tudalen codi arian ar eu gwefan i sicrhau bod gan ddarpar roddwyr ddigon o wybodaeth am apeliadau cyn rhoi, a bod y cronfeydd a godir yn cael eu gweinyddu'n briodol.

- 9.3.4.3** **RHAID** i lwyfannau codi arian gysylltu â chanllawiau arfer da y Rheoleiddiwr Codi Arian ar gyfer y rhai sy'n gosod tudalen codi arian ar eu gwefan i sicrhau bod ganddyn nhw a'u darpar roddwyr ddigon o wybodaeth am apeliadau cyn rhoi, a bod y cronfeydd a godir yn cael eu gweinyddu'n briodol.

**9.3.4.4 RHAID** i'r canllawiau fod ar gael yn hwylus i'r rheiny sy'n gosod tudalen codi arian allu a **RHAID** i'r canllawiau fod ar gael cyn y pwynt lle mae'r tudalennau rhoi yn weithredol.

**9.3.4.5 RHAID** i'r canllawiau dynnu sylw at yr ystyriaethau canlynol ar gyfer codwyr arian o ran sut y maent yn cynllunio eu hapêl i ddarpar roddwyr. **RHAID** i hyn gynnwys y goblygiadau o godi arian ar gyfer achos lle na nodir unrhyw elusen fel y buddiolwr, gan gynnwys:

- a) y posibilrwydd y gall fod angen i apêl cyllido torfol personol gael ei chofrestru ei hun fel elusen gyda'r corff rheoleiddio perthnasol; a
- b) os yw'r llwyfan codi arian ei hun yn elusen, bydd rhaid i'r apêl fodloni'r gofynion cyfreithiol o ran budd cyhoeddus.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, gweler y [Rheolau Budd Cyhoeddus ar gyfer Elusennau](#) y Comisiwn Elusennau.

**9.3.4.6 RHAID** i'r canllawiau dynnu sylw at yr ystyriaethau canlynol ar gyfer codwyr arian o ran sut y maent yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w hapêl i ddarpar roddwyr trwy eu tudalen codi arian ar y safle:

- a) pwy sy'n trefnu'r apêl;
- b) a yw'r arian a godir at ddiben penodol neu i'r derbynnydd ei ddefnyddio fel y gwêl yn dda. Os yw'r arian a godir ar gyfer elusen at ddiben penodol, **RHAID** i godwyr arian gysylltu â'r elusen i sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol ac yn hapus i dderbyn yr arian ar gyfer y diben a nodir. [Gweler hefyd rheol 5.2e y Cod ar arian a roddir at ddiben cyfyngedig](#);
- c) pan fo'n gymwys, beth fydd targed yr apêl - gallai hyn fod yn darged amser neu'n darged ariannol;
- d) a yw'r codwr arian yn codi arian ar ran neu ar gyfer elusen gofrestredig ac, os yw'n gymwys, enw'r elusen;
- e) sut y gall rhoddion gael eu gwneud, gan gynnwys, os yw'n berthnasol, ffyrdd eraill o roi i'r apêl a ffyrdd o wneud y mwyaf o roddion trwy Rodd Cymorth;
- f) pa ddiidyniadau gaiff eu gwneud ar gyfer treuliau; a
- g) beth fydd y codwr arian yn ei wneud gyda'r arian os:
  - o nad yw'n codi digon i gyrraedd y targed a nodir;
  - o mae'n codi swm sy'n fwy na'r targed a nodir; neu
  - o mae'r pwrpas gwreiddiol y mae'n ceisio rhoddion ar ei gyfer yn annilys am ryw reswm.

**9.3.4.7 RHAID** i'r llwyfan ei gwneud hi'n ofynnol i'r rhai sy'n gosod tudalen codi arian ar y safle i ddarparu camau gweithredu cadarnhaol clir cyn i'r dudalen roi gael ei chyhoeddi (trwy ddull optio i mewn gweithredol megis blwch optio i mewn heb ei dicio) sy'n nodi bod yr unigolyn wedi darllen a'i fod yn deall y canllawiau.

**9.3.4.8 RHAID** i'r llwyfan gymryd mesurau rhesymol i osgoi gweithgaredd twyllodrus a gwyngalchu arian trwy eu safle ar wedd codi arian. Os nad yw'r arian a godir yn mynd yn uniongyrchol i gyfrif banc elusen, **RHAID** i'r llwyfan ei gwneud hi'n glir bod rhoddwyr yn rhoi ar eu menter eu hunain cyn i'r rhodd gael ei gwneud.

**9.3.4.9 RHAID** i lwyfannau codi arian ar-lein ei gwneud hi'n ofynnol i'w defnyddwyr gydymffurfio â'r adrannau hynny o'r Cod Ymarfer Codi Arian sy'n gymwys i'w gweithgareddau codi arian fel amod o ddefnyddio'r safle a darparu ar gyfer y llwyfan i derfynu neu ohirio defnydd o'r safle os oes angen.

*Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yng [nghyngor a chyfarwyddyd i'r cyhoedd ar Godi Arian Ar-lein](#) y Rheoleiddiwr Codi Arian ar yr adrannau o'r Cod sy'n berthnasol i'w gweithgareddau.*

## Diogelu Data a Phreifatrwydd

**9.3.4.10 RHAID\*** i lwyfannau codi arian gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol. **RHAID\*** i fanylion personol y rhoddwyr a'r codwyr arian gael eu trosglwyddo i elusennau dim ond pan fydd cam gweithredu cadarnhaol clir wedi cael ei ddarparu i ddangos bod cydsyniad wedi cael ei roi.

## Gwasanaethau Talu

**9.3.4.11** Os yw'n gymwys, **RHAID** i lwyfannau codi arian a chyllido torfol:

- a) cydymffurfio â'r holl ofynion sy'n ymwneud â [Rheoliadau Gwasanaethau Talu 2017](#) (os yw'r sefydliad wedi'i gynnwys o fewn cwmpas hyn, **RHAID\*** i hyn ddigwydd); a
- b) cydymffurfio â holl reoliadau perthnasol yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

## 9.4 Gweithio gyda Thrydydd Partïon

- a) **RHAID\*** i [godwyr arian proffesiynol](#) a [chyfranogwyr masnachol](#) sy'n gweithio ar brosiectau cyfryngau digidol gael cytundebau ysgrifenedig yn eu lle gyda'r elusen a **RHAID\*** iddynt wneud y [datganiadau priodol](#).
- b) Os nad yw'n ofynnol yn gyfreithiol i gael cytundebau ysgrifenedig, **RHAID** i sefydliadau gael contractau neu gytundebau yn eu lle o hyd.
- c) **RHAID** i sefydliadau ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ar drafodion ariannol ac enw da partneriaid posibl cyn rhoi cytundebau yn eu lle. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth weithio gyda thrydydd partïon a leolir yn y DU nad ydynt wedi'u hymrwymo gan gyfraith y DU.
- d) Os yw cynnwys codi arian yn cael ei roi ar lwyfan trydydd parti, **RHAID** i sefydliadau ddefnyddio'r un diwydrwydd dyladwy â fel pe bai ar eu gwefan eu hunain. I gael rhagor o wybodaeth ar ddewis a defnyddio llwyfannau rhoi ar-lein, gweler cyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian (IoF) ['Making the Most of Digital Donations'](#).

## 9.5 Y Cyfryngau Cymdeithasol

- a) **RHAID** i sefydliadau sicrhau bod enwau defnyddwyr a chyfrineiriau ar gyfer eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar gael i unigolion dibynadwy yn unig.

## 9.6 Dyfeisiau a Llwyfannau Symudol

### 9.6.1 Diffiniadau

Gall symudol gynnwys llwyfannau/sianeli ar wahân neu dim ond defnyddio dyfais symudol i gael mynediad i fersiwn o wefan sefydliad. Gall dyfeisiau symudol gynnwys, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i ffonau clyfar, llechi, Cynorthwydd Digidol Personol (PDA) a chonsolau gemau.

### 9.6.2 SMS a MMS

a) **RHAID\*** i sefydliadau sy'n defnyddio SMS Premium gofrestru gyda'r [Awdurdod Gwasanaethau Ffôn wedi'i Dalu \(PSA\)](#) a chydymffurfio â'i [God Ymarfer](#) oni bai eu bod yn wasanaethau esempt (fel y diffinnir yn y Cod PhonePayPlus).

b) **RHAID\*** i sefydliadau anfon negeseuon marchnata i ffonau symudol unigolion dim ond os yw'r unigolion hynny wedi rhoi gwybod i'r sefydliadau eu bod nhw'n cydsynio i dderbyn cyfathrebiadau o'r fath.

c) **RHAID\*** i sefydliadau wneud y broses gofrestru ar gyfer negeseua yn glir ar bob math o ddogfennau perthnasol gan gynnwys gwefannau a **RHAID\*** cynnwys gweithdrefnau ar gyfer datdanystrifio ar bob neges farchnata.

d) **RHAID\*** i sefydliadau wneud cost y negeseuon cyfradd premiwm yn glir i roddwyr a **RHAID** esbonio i roddwyr sut a phryd y cânt eu bilio.

e) **RHAID\*** i sefydliadu ddilyn y rheolau diogelu data a nodir yn [Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003](#) pan fydd yn ofynnol i gael cydsyniad rhieni/y rhai sy'n talu'r bil.

f) **RHAID** i ymateb gan SMS fod yn opsiwn ar gyfer optio allan a bod yn glir ar yr holl ddeunyddiau marchnata.

g) **RHAID** i sefydliadau ddefnyddio neges optio allan syml.

h) **RHAID\*** i ddefnyddwyr allu arfer eu dewis optio allan o unrhyw neges farchnata, yn ddi-dâl (ac eithrio ar gyfer costau trosglwyddo'r dewis i wrthod).

Mae **Adran 5: Gwybodaeth Personol a Chodi Arian** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y [gofynion yn ymwneud â diogelu data](#).

### 9.6.3 Codau Byr Elusennau

a) Pan fyddant yn derbyn rhoddion trwy SMS, **RHAID** i sefydliadau ddefnyddio [Codau Byr Elusennau](#) (codau 5 rhif cymeradwy y gellir eu rhentu gan sefydliadau codi arian i adnabod rhoddion a throsglwyddo cynnwys TAW i'r sefydliad.)

## 9.7 E-bost

### 9.7.1 Diogelu Data

- a) **RHAID\*** i sefydliadau codi arian gydymffurfio â gofynion y gyfraith diogelu data a **RHAID** iddynt **BEIDIO\*** â datgelu gwybodaeth a gafwyd mewn sefyllfaoedd lle mae dyletswydd gyfreithiol i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol yn codi.
- b) **RHAID\*** i sefydliadau ddarparu cyfeiriad dilys ar gyfer ceisiadau optio allan.

*Mae Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y [gofynion yn ymwneud â diogelu data](#).*

### 9.7.2 Cynnwys

- a) **RHAID** i e-byst gynnwys datganiad yn cadarnhau statws y sefydliad, a **RHAID\*** gwneud hynny [mewn rhai amgylchiadau](#).
- b) **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO** ag anfon nifer fawr o e-byst o gyfrifon e-bost unigolyn a enwir.
- c) **RHAID** i sefydliadau ddefnyddio neges optio allan syml.

*Mae Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y [gofynion yn ymwneud â diogelu data](#).*

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

## 10.0 Ymddiriedolaethau

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

### 10.1 Cyfeiriadau Cyfreithiol yn yr Adran hon

Egwyddorion cyffredinol y gyfraith elusennol.

### 10.2 Cyflwyniad

Mae "Codi Arian Ymddiriedolaeth" yn cyfeirio at y broses o ofyn am gymorth gan ymddiriedolaethau a sefydliadau sy'n rhoi grantiau at ddibenion elusennol/dyngarol.

Mae "cymdeithas", at ddibenion y Cod hwn, yn gyfystyr ag "Ymddiriedolaeth".

a) Mae'r Cod yn cwmpasu'r holl fathau o Godi Arian Ymddiriedolaeth, ond wrth wneud cais am gyllid statudol, megis grantiau'r UE, llywodraeth y DU neu awdurdod lleol, gall fod rheolau ychwanegol a **RHAID** dilyn y rhain ar y cyd â'r cod.

### 10.3 Paratoi a Gweithdrefnau

a) **RHAID** i postio torfol a galwadau diwahoddiad gael eu hosgoi, ac eithrio o dan amgylchiadau arbennig, er enghraifft trychineb cenedlaethol neu achosbrys.

b) **RHAID** i sefydliadau gael caniatâd canolwyr cyn anfon ceisiadau gyda'r canolwr yn gweld y cais cyn ei anfon.

### 10.4 Y Cais

a) **RHAID\*** i gais gyfateb ag amcanion y sefydliad sy'n gwneud cais.

#### 10.4.1 Ar ôl i Geisiadau gael eu Derbyngwrthod

a) **RHAID** i ofynion gweinyddol yr ymddiriedolaeth ynghylch taliadau gael eu dilyn yn gaeth (bydd y safon yn dibynnu ar delerau ac amodau'r cais) a **RHAID\*** iddynt gael eu dilyn os ydynt yn ffurfio amodau o dan contract.

b) **RHAID** i unrhyw amod wedi'i atodi wrth grantiau, megis yr ymddiriedolaeth yn cael mewnbwn rheolaethol neu ymgynghorol i'r gwaith, neu ofynion i gael

cydnabyddiaeth gyhoeddus ar gyfer cefnogaeth yr ymddiriedolaeth gael ei ddeall a'i gytuno gan y ddwy ochr cyn i'r grantiau gael eu derbyn yn ffurfiol.

c) Pan gaiff ceisiadau eu gwrthod, **RHAID** i apeliadau neu ymdrechion i ddarbwylllo ymddiriedolaethau i ailystyried y cais gael eu gwneud mewn amgylchiadau prin - er enghraifft lle mae camgymeriadau clir ynghylch ffeithiau, neu lle mae gan ymddiriedolaethau weithdrefnau apelio penodedig.

## 10.5 Adroddiadau a Chyfrifon

### 10.5.1 Adroddiadau

a) Os yw newidiadau'n cael eu cynllunio ynghylch sut y gall grantiau gael eu gwario sy'n wahanol i'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol, **RHAID\*** cael caniatâd ysgrifenedig yr ymddiriedolaeth yn gyntaf os yw hynny'n ofynnol i gael cyllid yr ymddiriedolaeth.

b) **RHAID** i'r holl ganllawiau a gofynion adrodd gael eu dilyn yn agos a **RHAID\*** iddynt gael eu dilyn pan fyddant yn ffurfio amodau o dan contract grant.

c) Os oes problemau difrifol posibl gyda'r gwaith a gyllidir (er enghraifft, mae oedi mawr yn debygol i'r amserlenni neu risg go iawn o fethu â'i gwblhau), **RHAID** i ymddiriedolaethau gael gwybod mor gynnar â phosibl, a **RHAID** iddynt gael eu hysbysu'n gyson wrth i faterion ddatblygu a **RHAID\*** i unrhyw ofynion hysbysu yn y contract gael eu dilyn.

### 10.5.2 Cyfrifon

a) **RHAID\*** i'r holl ofynion ynghylch cyfrifyddu cyfreithiol gael eu dilyn a **RHAID\*** i'r [Datganiad o Arferion Cymeradwy \(SORP\)](#) gael eu dilyn.

b) Os yw apeliadau ar gyfer prosiectau penodol yn llwyddiannus iawn ac nid oes modd dyrannu'r holl arian iddynt, neu os nad yw prosiectau yn mynd rhagddynt **RHAID** ceisio cyngor y [Comisiwn Elusennau](#) / [OSCR](#) ynghylch defnyddio neu ddychwelyd y cronfeydd sy'n weddill.

[Mae rhagor o wybodaeth am godi arian ymddiriedolaeth a chodi arian grantiau ar gael yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian \(IoF\) - Grant Making Trusts.](#)

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

## 11.0 Prif Roddwyr

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

### 11.1 Cyfeiriadau Cyfreithiol yn yr Adran hon

- Egwyddorion cyffredinol y gyfraith elusennol
- [Deddf Elw Troseddau 2002](#)

### 11.2 Diffiniadau

Mae "prif roddwr" yn unigolyn neu'n deulu a allai wneud neu gaffael rhodd a fyddai'n cael effaith sylweddol ar waith y sefydliad.

### 11.3 Gwyngalchu Arian

a) **RHAID\*** i ymddiriedolwyr gymryd camau rhesymol i asesu a rheoli'r risgiau i weithgareddau, buddiolwyr, eiddo, gwaith neu enw da eu sefydliad. Mae gwyngalchu arian a chyhoedduswydd niweidiol am roddwr yn enghreifftiau o sut y gallai sefydliad fod yn agored i atebolrwydd troseddol a dioddef niwed i'w enw da.

b) **RHAID** i sefydliadau ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ar drafodion ariannol ac enw da partneriaid posibl cyn derbyn rhoddion.

c) **RHAID** i godwyr arian fod yn ymwybodol o Ddeddf Elw Troseddau 2002 a'i bod yn gymwys i arian neu eiddo arall a gafwyd trwy ymddygiad sy'n droseddol o dan gyfraith y DU, hyd yn oed os y'i cafwyd trwy ffyrdd sy'n gyfreithiol mewn gwlad arall.

### 11.4 Gofynion Cyffredinol

a) Os yw'n rhoi rhoddion i brif roddwr, **RHAID** i sefydliadau codi arian sicrhau bod unrhyw fuddion yn briodol i'r sefydliad eu rhoi, ac yn gymesur i faint y rhodd a dderbynnir.

Sylwch, gall rhai buddion fod yn gymwys fel Rhodd Cymorth a gall eraill fod yn gymwys o dan reolau rhoddion llygredig.

b) Wrth sôn am gyllid a buddion ariannol, **RHAID** i godwyr arian roi gwybod i roddwyr nad ydynt mewn sefyllfa i gynnig cyngor ariannol ffurfiol.



*Mae rhagor o wybodaeth am godi arian prif roddwr ar gael yng nghyfarwyddyd y [Sefydliad Codi Arian \(IoF\) - Major Donor.](#)*

## 12.0 Partneriaethau Corfforaethol

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

### 12.1 Cyfeiriadau Cyfreithiol ar gyfer yr Adran hon

- [Deddf Elusennau 1992](#)
- [Deddf Elusennau \(Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol\) 2016](#)
- Egwyddorion cyffredinol y gyfraith elusennol

### 12.2 Diffiniad

Mae "Partneriaeth Gorfforaethol" yn bartneriaeth rhwng sefydliad codi arian ac endid masnachol, lle mae'r endid masnachol yn darparu arian, sgiliau neu adnoddau eraill i'r sefydliad codi arian.

### 12.3 Paratoi

- a) **RHAID** i sefydliadau ddilyn proses diwydrwydd dyladwy sy'n gymesur i raddfa'r berthynas cyn ffurfio partneriaeth.
- b) **RHAID** i sefydliadau sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau, neu wrthdaro buddiannau posibl yn ymwneud â'r bartneriaeth.

### 12.4 Cytundebau Ysgrifenedig

- a) Os trefnwyd bod y partner corfforaethol wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad o ['gyfranogwr masnachol'](#), **RHAID\*** i'r cyfranogwr masnachol gael cytundeb ysgrifenedig yn ei le gyda'r sefydliad y mae'n bwriadu rhoi budd iddo a **RHAID\*** i wybodaeth arbennig gael ei chynnwys ynddo.
- b) **RHAID\*** i gytundebau codi arian rhwng elusennau a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr a [chyfranogwyr masnachol](#) gynnwys:
  - manylion am unrhyw gynllun codi arian rheoleiddiol gwirfoddol neu safon sy'n ymrwymo'r cyfranogwyr masnachol;
  - sut y bydd y sefydliad masnachol yn diogelu'r cyhoedd rhag ymyrraeth afresymol ar breifatrwydd rhywun, ymgysylltu parhaus afresymol neu roi gormod o bwysau i roi; a

- sut y bydd cydymffurfio â'r cytundeb yn cael ei fonitro gan yr elusen, fel y nodir o fewn [adran 13 o Ddeddf Elusennau \(Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol\) 2016](#)

Mae cyfarwyddyd pellach i'w weld [yma](#).

- c) **RHAID\*** i unrhyw amrywiad fod yn unol â thelerau'r cytundeb gan bennu sut y dylai unrhyw amrywiad gael ei weithredu.
- d) Yn yr Alban, **RHAID\*** i'r dull a ddefnyddir i amrywio contract gael ei ddarparu ar ei gyfer yn y contract os yw'r contract gyda [chodwr arian proffesiynol](#) neu [gyfranogwr masnachol](#) a **RHAID** iddo gynnwys darpariaethau tebyg sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r amrywiad fod yn ysgrifenedig ac atal amrywiad anffafriol rhag cael ei osod gan un parti yn unig.
- e) **RHAID\*** i [Gyfranogwyr Masnachol](#) wneud datganiad datgeliad sy'n cynnwys, ymysg pethau eraill, enw(au) sefydliadau sy'n cael budd a faint o arian agânt.
- f) Mewn sefyllfaoedd eraill, os yw nwyddau neu wasanaethau yn cael eu gwerthu yn ystod y bartneriaeth, **RHAID** cael cytundeb ysgrifenedig sy'n rheoli'r berthynas rhwng y cwmni a'r sefydliad codi arian/is-gwmni masnachu dan sylw (hyd yn oed lle nad yw hyn yn ofynnol yn ôl y Deddfau perthnasol). **RHAID** i hyn gael ei gymeradwyo a'i ddeall gan bob parti.
- g) **RHAID** i'r cytundeb gael ei ystyried, ei drafod a'i gytuno gan gynrychiolwyr awdurdodedig o'r ddwy ochr cyn iddo gychwyn.
- h) Os oes cytundeb gan elusen yn yr Alban yn cwmpasu gweithgareddau partner masnachol sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr, neu os yw'r sefyllfa i'r gwrthwyneb yn gymwys, mae'n **RHAID\*** sicrhau bod y contract yn bodloni gofynion deddfwriaethol y wlad lle bydd y codi arian yn digwydd, a **RHAID** sicrhau bod y contract yn cwmpasu atebolrwydd posibl o dan bob awdurdodaeth.
- i) **RHAID** i weithdrefnau adolygu ymddangos yn y cytundeb a **RHAID** i sefydliadau codi arian ystyried perfformiad yn yr adolygiadau hyn a phenderfynu pa gamau pellach sy'n briodol (megis cychwyn cymalau cosb neu adolygu'r cytundeb).

## 12.5 Materion Cyfreithiol a Threth

- a) Yng Nghymru a Lloegr os yw sefydliad codi arian yn elusen gofrestredig (gydag incwm dros £10,000) **RHAID\*** iddo [nodi ar lythyrau a dogfennau eraill sy'n cynnwys cais am arian neu eiddo arall er budd yr elusen](#) ei enw a'r ffaith ei fod yn gofrestredig. Yn ymarferol fel arfer bydd hyn yn golygu datgan ei rhif elusen gofrestredig.

b) Yn yr Alban, **RHAID\*** i unrhyw lenyddiaeth gan barti arall a gyhoeddir ar ran yr elusen [gyfeirio at enw'r elusen, unrhyw enw arall y mae'n ei ddefnyddio, ei statws elusennol a'i rhif elusen](#).

c) **RHAID\*** i elusennau sydd hefyd yn gwmnïau cofrestredig [gydymffurfio â'r gofynion cyfraith cwmnïau perthnasol](#) hefyd. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gael y gair "cyfyngedig" yn enw'r sefydliad (oni bai bod eithriad yn gymwys - ac os felly gall statws gael ei nodi trwy ddatgan "cwmni cyfyngedig drwy warrant") ynghyd â rhif cwmni cofrestredig, man cofrestru (e.e. Cymru a Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon) a chyfeiriad ei swyddfa gofrestredig. **RHAID** enwi naill ai ei holl ymddiriedolwyr/gyfarwyddwyr neu ddim un ohonynt.

d) o ganlyniad i'r bartneriaeth, gall sefyllfaoedd godi lle bydd rhaid i sefydliadau codi arian neu'r partiön corfforaethol dalu treth neu TAW o bosib. **RHAID\*** i sefydliadau sicrhau bod unrhyw drethi yn cael eu talu.

[Mae rhagor o wybodaeth am bartneriaethau corfforaethol ar gael yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian \(IoF\) - Charities Working with Business.](#)

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

## 13.0 Rafflau a Lotriau

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

### 13.1 Cyfeiriadau Cyfreithiol ar gyfer yr Adran hon

- [Deddf Hapchwarae 2005](#)
- [Amodau Trwydded a Chod Ymarfer y Comisiwn Hapchwarae](#)
- [Gorchymyn Betio, Hapchwarae, Lotriau a Difyrion \(Gogledd Iwerddon\) 1985](#)

### 13.2 Pwyntiau Allweddol a Materion Cyfreithiol

a) Mae'r maes hwn yn un o'r gweithgareddau codi arian sydd wedi'u rheoleiddio fwyaf ond hefyd mae'n un o'r rhai mwyaf poblogaidd. Mae'r rheoliadau gwahanol [wedi'u hamlinellu'n fanwl yn yr Atodiadau Cyfreithiol](#) a **RHAID\*** eu dilyn.

b) Mae [safonau ychwanegol wedi'u cynnwys yn yr Atodiadau Cyfreithiol](#) a **RHAID** eu dilyn.

*Dylid cyfeirio at y [Comisiwn Hapchwarae](#) os oes gennych chi ymholiadau ac i gael y cyngor diweddaraf.*

*[Mae rhagor o wybodaeth am rafflau a lotriau ar gael yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian \(IoF\) - Raffles and Lotteries.](#)*

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

# 14.0 Codi Arian trwy Roi Trwy'r Gyflogres

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

## 14.1 Cyfeiriadau Cyfreithiol ar gyfer yr Adran hon:

- [Deddf Diogelu Data 1998](#)
- [Rheoliadau Didyniadau Elusennol \(Cynllun Cymeradwy\) 1986](#)
- [Deddf Elusennau 1992](#)
- [Rheolau rhoi trwy'r gyflogres HMRC](#)

## 14.2 Cyflwyniad ac Ystyriaethau Cychwynnol

Mae codi arian yn y gweithle yn amrywio o ran ei ffurf ac yn amodol ar ddeddfwriaeth uniongyrchol a hunanreoleiddio. Mae'r Cod hwn yn rhoi sylw arbennig i roddion sy'n cael eu gwneud yn uniongyrchol o gyflog gweithiwr. Gallai hyn fod ar ffurf:

- [Rhoi Trwy'r Gyflogres](#): cynllun treth-ffeithiol lle mae'r rhodd yn cael ei chymryd o dâl gweithiwr cyn i'r dreth gael ei thynnu; neu
- Roddion cyflog ôl-dreth: lle mae rhoddion gweithwyr yn cael eu cymryd yn uniongyrchol o'u cyflog ar ôl i'r dreth gael ei thynnu.

### 14.2.1 Diffiniadau

"Yr Asiantaeth Rhoi Trwy'r Gyflogres": asiantaethau sy'n elusennau cofrestredig sy'n derbyn rhoddion gan y cyflogwr ac yn eu hanfon ymlaen at y sefydliad sy'n cael budd ar ran y rhoddwr.

"Sefydliad Codi Arian (IoF)": yr hol elusennau, mentrau cymdeithasol, prifysgolion, ymddiriedolaethau GIG ac ati a fydd yn cael budd o ymdrechion codi arian sy'n cael eu gwneud gan eu staff neu godwyr arian allanol.

"Codwyr Arian Allanol": naill ai codwyr arian proffesiynol unigol neu sefydliadau codi arian proffesiynol sy'n cael eu hurio gan y sefydliad sy'n cael budd i godi arian ar ei ran.

"Codwr Arian": unrhyw unigolyn sy'n gofyn am roddion (gan gynnwys Codwyr Arian Allanol).

### 14.2.2 Rhoi Trwy'r Gyflogres Cyn-dreth

a) **RHAID\*** i gyflogwyr sy'n defnyddio'r cynllun rhoi trwy'r gyflogres gael cytundeb ysgrifenedig yn ei le gydag Asiantaeth Rhoi Trwy'r Gyflogres.

- b) **RHAID** i sefydliadau codi arian/cyflogwyr **BEIDIO\*** â chynnig buddion ar gyfer rhoddion a dderbynnir trwy Roi Trwy'r Gyflogres cyn-dreth neu wrthod penderfyniad gweithiwr o ran i ble mae ei rodd yn mynd.
- c) **RHAID\*** i sefydliadau codi arian gydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn [Rheoliadau Didyniadau Elusennol \(Cynlluniau Cymeradwy\) 1986](#) a diwygiadau dilynol.
- d) Os yw sefydliadau codi arian/gweithwyr yn mynd i dynnu sylw at lefelau gwahanol o ryddhad treth, **RHAID** iddynt sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf gan godwyr arian gan HMRC.
- e) **RHAID** i godwyr arian sicrhau bod y rhoddwyr yn ymwybodol, yn dilyn hyrwyddiad Rhoi Trwy'r Gyflogres, eu bod nhw'n dal yn gallu ethol i roi i unrhyw sefydliad codi arian o'u dewis.

### 14.2.3 Roddion Ôl-dreth o'r Cyflog

- a) Pan fydd Codwyr Arian Allanol sydd wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad cyfreithiol o '[godwr arian proffesiynol](#)' yn cael eu defnyddio i gymryd a phrosesu'r rhodd neu i hawlio'r dreth yn ôl, **RHAID\*** i gytundeb ysgrifenedig fod yn eile.

## 14.3 Hyrwyddo Ymrwymiad i Roi yn y Gweithle

### 14.3.1 Sefydlu'r Berthynas Codi Arian

- a) Cyn gysylltu â grŵp o weithwyr i ofyn am roddion, **RHAID** i godwyr arian neu sefydliadau codi arian gytuno ag amodau mynediad â'r cyflogwyr perthnasol.

### 14.3.2 Gweithgarwch Codi Arian yn y Gweithle

- a) **RHAID\*** i sefydliadau codi arian sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, yn enwedig ffurflenni rhoddwyr wedi'u cwblhau, yn cael eu dal yn ddiogel ac yn unol â'u rhwymedigaethau o dan y gyfraith diogelu data.

*Mae **Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y [gofynion yn ymwneud â diogelu data](#).*

- b) **RHAID\*** i godwyr arian wisgo bathodynau adnabod â llun wedi'u darparu gan drefnwr y gweithgaredd, neu'r sefydliad(au) codi arian perthnasol mewn lle amlwg bob amser.
- c) **RHAID** i sefydliadau codi arian sicrhau bod mesurau diogelu digonol yn bodoli ac yn cael eu dilyn trwy gydol y broses ddeisyfu er mwyn osgoi dwyn pwysau ar ddarpar roddwyr, er y gellir eu darbwylllo mewn modd rhesymol.

- d) **RHAID** i godwyr arian sicrhau bod rhoddwyr yn ymwybodol bod hawl ganddynt i derfynu cytundeb i roi i sefydliad codi arian ar unrhyw adeg.

### 14.3.3 Defnyddio Codwyr Arian Allanol

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r adran Gweithio gyda Thrydydd Partïon.

- a) **RHAID\*** i godwyr arian allanol (sydd wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad o '[gyfranogwr masnachol](#)' neu '[godwr arian proffesiynol](#)') sy'n cael eu hurio gan sefydliadu codi arian gael cytundeb ysgrifenedig â'r sefydliad y maent yn ei gynrychioli.
- b) **RHAID\*** i godwyr arian allanol (sydd wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad o '[gyfranogwr masnachol](#)' neu '[godwr arian proffesiynol](#)') sy'n cael eu hurio gan sefydliadu codi arian wneud datganiadau sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ynghylch sut y cânt eu talu.
- c) **RHAID** i godwyr arian allanol gytuno ymlaen llawn â chleientiaid sefydliadau codi arian ar yr holl weithdrefnau, gan gynnwys prosesu manylion rhoddwyr a deunyddiau codi arian.
- d) **RHAID** i sefydliadau codi arian roi gwybodaeth angenrheidiol i godwyr arian allanol ynghylch amcanion y sefydliad codi arian a chanllawiau clir am ymddygiad a'r gostyngiadau gwahanol yn y dreth yn y maes hwn.
- e) **RHAID** i godwyr arian allanol brosesu gwybodaeth mor gyflym â phosibl a sicrhau bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â rhoddwyr newydd yn cael ei throsglwyddo i'r sefydliad codi arian cyn gynted â phosibl.
- f) Os yw codwyr arian allanol yn cynrychioli mwy nag un sefydliad mae'n **RHAID** iddynt sicrhau bod yr holl sefydliadau codi arian yn cael eu cynrychioli mewn ffordd hollol niwtral.

### 14.4 Asiantaethau Rhoi Trwy'r Gyflogres

Mae Asiantaethau Rhoi Trwy'r Gyflogres yn derbyn rhoddwyr gweithwyr, sydd wedi cael eu didynnu gan y cyflogwr o'r gyflogres, ac yn dosbarthu'r rhoddion hyn mewn modd amserol ac effeithlon i'r sefydliadau codi arian perthnasol. [Mae cyfarwyddyd cyfreithiol ac arfer orau ar gyfer Asiantaethau Rhoi Trwy'r Gyflogres ar gael o'r Ganolfan Rhoi Trwy'r Gyflogres.](#)

Mae [Rheoliadau Didyniadau Elusennol \(Cynlluniau Cymeradwy\) 1986](#) yn gosod rhai gofynion ar gyflogwyr sydd heb eu crybwyll yma, ond a alla fod yn ddefnyddiol/angenrheidiol i gyflogwyr/sefydliadau codi arian fod yn ymwybodol ohonynt.

[Mae rhagor o wybodaeth am roi trwy'r gyflogres ar gael yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian \(IoF\) - Giving in the Workplace.](#)



# 15.0 Digwyddiadau

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

## 15.1 Cyfeiriadau Cyfreithiol ar gyfer yr Adran hon

- [Deddf Diogelu Data 1998](#)
- [Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974](#)
- [Gorchymyn Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith \(Gogledd Iwerddon\) 1978](#)
- [Rheoliadau Teithio Pecyn, Gwyliau Pecyn a Gwibdeithiau Pecyn 1992](#)
- [Deddf Elusennau 1992](#)
- [Deddf Elusennau 2006](#)
- [Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr \(yr Alban\) 2005](#)
- Johns v. AG(1976)
- Egwyddorion cyffredinol y Gyfraith Elusennol
- [Deddf Diogelwch Bwyd 1990](#)
- [Rheoliadau Hylendid Bwyd \(Lloegr\) 2006](#)
- [Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006](#)
- [Gorchymyn Diogelu Grwpiau Agored i Niwed \(Gogledd Iwerddon\) 2007](#)
- [Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000](#)
- [Gorchymyn Mynediad i Gefn Gwlad \(Gogledd Iwerddon\) 1983](#)
- [Deddf Hapchwarae 2005](#)
- [Rheoliadau Hedfan Sifil \(Trwyddedu Trefnydd Teithiau Awyr\) 2012](#)
- [Gorchymyn Betio, Hapchwarae, Lotriau a Difyrion \(Gogledd Iwerddon\) 1985](#)
- [Gorchymyn Betio a Lotriau \(Gogledd Iwerddon\) 1994](#)
- [Gorchymyn Diogelwch Bwyd \(Gogledd Iwerddon\) 1991](#)

## 15.2 Cynllun Cyn-ddigwyddiad

### 15.2.1 Lle/Lleoliad

a) Wrth ddewis lle/lleoliad addas ar gyfer digwyddiad:

- **RHAID\*** i sefydliadau codi arian ystyried y mater o fynediad cyfartal i bawb, hyd yn oed os yw'r digwyddiad wedi'i dargedu ar grŵp penodol o bobl.
- **RHAID\*** i sefydliadau codi arian sicrhau bod y fenter yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ynghylch iechyd a diogelwch.
- **RHAID** i sefydliadau codi arian sicrhau bod y lle/lleoliad yn addas i'r pwrpas, gan nodi unrhyw gyfyngiadau.
- **RHAID** i sefydliadau codi arian gyfiawnhau unrhyw effaith amgylcheddol y gall y digwyddiad ei chael.

b) Os yw unrhyw offer arbenigol yn ofynnol neu wedi'u hargymell, **RHAID** rhoi rhestr i bob cyfranogwr/tîm mewn digon o amser ymlaen llaw iddynt fenthyca/brynu unrhyw eitemau angenrheidiol, gan egluro pwy sy'n gyfrifol am yr offer a'u haddasrwydd.

c) **RHAID** i gyfranogwyr **BEIDIO** â gallu gweithredu os nad yw'r offer a nodir uchod yn ddigonol.

d) Os oes angen i gyfranogwyr ddefnyddio cerbydau, **RHAID** i drefnwyr gynghori cyfranogwyr i gael seibiant o'r gyrru a chynllunio amserlenni teithiau sy'n cydnabod diogelwch ar y ffyrdd, yn enwedig terfynau cyflymder.

### 15.2.2 Asesu Risg ac Yswiriant

a) **RHAID\*** i sefydliadau codi arian sy'n gyflogwyr gynnal asesiad risg digonol ac addas cyn cynnal digwyddiadau o unrhyw faint. **RHAID** i godwyr arian eraill (nad ydynt yn gyflogwyr) gynnal asesiad risg os yw'n rhesymol i wneud hynny.

b) **RHAID\*** i sefydliadau codi arian gynnal gwiriadau'r [Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#), [Disclosure Scotland](#) neu [Access NI](#) lle y bo'n briodol.

c) **RHAID\*** i unrhyw bolisiâu yswiriant gorfodol (er enghraifft, sy'n cwmpasu gweithwyr a defnyddio ceir) fod yn eu lle.

d) **RHAID** i sefydliadau codi arian sicrhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus trydydd parti digonol yn ei le a **RHAID** iddynt ystyried a ddylid prynu mathau eraill o yswiriant.

e) **RHAID** i sefydliadau codi arian fod yn glir pa barti sy'n yswirio yn erbyn pa risg.

### 15.2.3 Trwyddedau/Caniatâd

a) **RHAID\*** i sefydliadau codi arian sy'n cynllunio digwyddiad sicrhau bod unrhyw ganiatâd neu drwydded sy'n ofynnol yn cael ei cheisio gan yr awdurdod lleol neu gyrff perthnasol eraill.

b) Gall uchafswm y cyfranogwyr gael ei bennu gan ganiatâd/drwydded neu amodau lleol. **RHAID PEIDIO** â mynd yn uwch na'r niferoedd hyn - mewn rhai achosion bydd hyn yn ofyniad cyfreithiol y mae'n **RHAID\*** ei ddilyn o dan y cytundeb trwyddedu a/neu'r polisi yswiriant.

c) Wrth ystyried defnyddio eiddo preifat, **RHAID\*** i sefydliadau codi arian sy'n cynllunio digwyddiad yng Nghymru a Lloegr gael caniatâd os oes angen.

d) Yn yr Alban, mae'r sefyllfa yn fwy cymhleth ac er nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol absoliwt i wneud hynny, **RHAID** i drefnwyr allu dangos eu bod nhw wedi gwneud ymdrech rhesymol i gydgyssylltu â rheolwyr tir a chael caniatâd i sicrhau nad yw'r gofyniad i arfer hawliau mynediad mewn modd cyfrifol yn cael ei dorri.

e) **RHAID** i sefydliadau gydymffurfio â chanllawiau perthnasol a lleol neu wybodaeth benodol i'r safle lle y bo'n briodol wrth gynllunio digwyddiad.

f) **RHAID** i bawb ddilyn y Cod Cefn Gwlad yng Nghymru a Lloegr, [Scottish Outdoor Access Code](#) yn yr Alban a [Northern Ireland Countryside Code](#) yng Ngogledd Iwerddon.

#### 15.2.4 Digwyddiadau ar Dir Mynediad Agored (Cymru a Lloegr)

Gall digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru a Lloegr ddibynnu ar ddefnyddio tir wedi'i fapio fel "tir mynediad agored" o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ('y Ddeddf'). Mae'r hawl hon yn caniatáu i bobl ddefnyddio'r tir perthnasol ar droed ar gyfer adloniant awyr agored, ar yr amod nad yw'r defnyddiwr yn achosi niwed i unrhyw walïau, ffensys, cloddïau neu giatïau a nifer o gyfyngiadau cyffredinol a nodir yn Atodlen 2 o'r Ddeddf. Mae Atodlen 2 yn darparu na all "tir mynediad agored" gael ei ddefnyddio ar gyfer (ymysg pethau eraill):

- gemau wedi'u trefnu, gwersylla, gleidio neu bara-gleidio; neu
- unrhyw weithgaredd a drefnir neu a wneir ar gyfer unrhyw bwrpas masnachol.

Hyd yma, nid oes unrhyw gynsail gyfreithiol sy'n helpu i benderfynu a yw digwyddiadau codi arian a drefnwyd wedi'u heffeithio gan y cyfyngiadau yn y Ddeddf.

a) Os oes unrhyw ansicrwydd, **RHAID** i sefydliadau sy'n cynllunio digwyddiad ar dir mynediad agored geisio caniatâd tîrfeddianwyr mewn perthynas â'r gweithgareddau arbennig y maent yn bwriadu ymgymryd â nhw.

#### 15.2.5 Cytundebau Ysgrifenedig

a) **RHAID** i drefnwyr gael cytundebau ysgrifenedig â'r holl bartïon allanol sy'n dangos yn glir hawliau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau pob parti.

b) Os yw unrhyw barti yn [godwr arian proffesiynol](#) neu'n [gyfranogwr masnachol](#), **RHAID\*** i gytundeb ysgrifenedig fod yn ei le.

#### 15.2.6 Deunyddïau Hyrwyddo

a) **RHAID\*** i'r holl ddeunyddïau hyrwyddo a gyflenwir i ddarpar gyfranogwyr ac yn enwedig deunyddïau a anfonir atynt fel rhan o 'becynnau codi arian' nodi'n eglur a fydd unrhyw arian a godir gan y cyfranogwyr yn enw'r sefydliad yn cael ei ddefnyddio i dalu am dreulïau'r cyfranogwr neu fel arall i roi budd i'r cyfranogwr.

- b) **RHAID** i ddeunyddiau recriwtio sydd wedi'u cynllunio i ddenu darpar gyfranogwyr ac, yn arbennig, hysbysiadau yn y wasg, **BEIDIO\*** â chamarwain darllenwyr i gredu y byddai eu hymrwymiad wedi'i gyfyngu i unrhyw leiafswm ffi gofrestru bersonol.
- c) **RHAID** i drefnwyr sicrhau bod yr holl ddeunyddiau marchnata yn cynnwys manylion cywir a chlir am y digwyddiad a nodi'n glir sut y caiff yr arian a godir o'r digwyddiad ei ddefnyddio.

### 15.2.7 Gweithdrefnau Ariannol

- a) **RHAID\*** i sefydliadau codi arian ddilyn rheolau a rheoliadau treth a TAW ar gyfer pob digwyddiad.
- b) O ran yr arian a dderbynnir ymlaen llaw neu yn ystod digwyddiad, **RHAID** i drefnwyr gael gweithdrefnau ariannol yn eu lle. I gael rhagor o wybodaeth, gweler cyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian (IoF) [Handling Cash at Events](#).

### 15.2.8 Canslo Digwyddiadau a Chynlluniau Wrth Gefn

- a) **RHAID\*** i ffurflenni nawdd egluro a yw'r arian nawdd a roddir yn ddarostyngedig i unrhyw amodau (e.e. y bydd y cyfranogwr yn cwblhau marathôn). Os yw arian yn cael ei roi ar y sail hon ac mae digwyddiad nawdd yn cael ei ganslo, neu os na all cyfranogwr neu nid yw cyfranogwr yn barod i gymryd rhan neu gwblhau'r digwyddiad am unrhyw reswm, **RHAID\*** i'r cyfranogwr gysylltu â'r rhoddwyr a gofyn a ydynt yn dal yn fodlon i'r arian nawdd gael ei roi i'r sefydliad. Os nad ydynt, **RHAID\*** i'r rhodd gael ei had-dalu i'r rhoddwyr perthnasol. Os yw arian nawdd yn cael ei roi heb amodau yr elusen berthnasol sy'n berchen arno yn awtomatig waeth a yw'r gweithgaredd wedi'i gwblhau neu beidio.
- b) **RHAID** i sefydliadau codi arian sy'n cynllunio digwyddiad gael cynllun ar gyfer pob sefyllfa y mae'n rhesymol i'w ddisgwyl, a sicrhau bod yr unigolion perthnasol yn deall yn union beth a ddisgwylir ganddynt.

### 15.2.9 Digwyddiadau wedi'u Trefnu gan Drydydd Partion

**RHAID** i sefydliadau codi arian gael cytundeb â threfnydd y digwyddiad sy'n penderfynu ar gyfrifoldebau penodol a risg.

## 15.2.10 Digwyddiadau a Reolir 'Er Budd'

Mae gwirfoddolwr sy'n gweithredu ['er budd'](#) sefydliad yn codi arian ond yn gweithredu'n annibynnol ar y sefydliad. Yn aml ni fydd sefydliad yn gwybod am weithredoedd y gwirfoddolwr. Mae'r Safonau isod yn gymwys dim ond os yw'r sefydliad yn ymwybodol o'r digwyddiad.

- a) Os yw unigolyn neu grŵp yn cysylltu â'r sefydliad er mwyn cynnal digwyddiad trydydd parti **RHAID** nodi'n glir y corff sy'n gyfrifol am y digwyddiad a bod y digwyddiad ['er budd'](#) ac ni fydd y sefydliad yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd am y digwyddiadau hynny.
- b) **RHAID** i sefydliadau egluro i'r unigolyn neu'r grŵp mai eu cyfrifoldeb nhw yw trefnu pob agwedd ar y digwyddiad.
- c) **RHAID** i sefydliadau sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle i'r arian gael ei drosglwyddo i'r sefydliad yn gyflym ac yn effeithlon.

## 15.3 Pobl

### 15.3.1 Staff/Gwirfoddolwyr

- a) **RHAID** i sefydliadau gael marsialiaid a stiwardiaid sydd â'r profiad perthnasol, lle y bo angen.

### 15.3.2 Cyfranogwyr/Mynychwyr

- a) **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO\*** â gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn pobl ar sail anabledd, rhyw neu hil, mewn perthynas â digwyddiad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) a [Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon](#).
- b) Mae'n bosib y bydd rhai cyfranogwyr wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad o [godwyr arian proffesiynol](#) (er enghraifft, os yw cost digwyddiad yn cael ei thalu amdano gan y sefydliad neu gan nawdd ac mae y tu allan i'r isafswm lefel tâl a ganiateir o dan y ddeddfwriaeth berthnasol). Os mai dyma yw'r achos **RHAID\*** cael cytundeb ysgrifenedig a **RHAID** i sefydliadau sicrhau bod cyfranogwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyfreithiol o ran rhoi gwybodaeth arbennig i roddwyr.
- c) Os nad yw'r cyfranogwr yn talu cost lawn y daith yn bersonol, ond mae'n defnyddio rhywfaint o'r arian nawdd at y diben hwn, **RHAID** i sefydliadau sicrhau bod y cyfranogwr yn gwybod bod **RHAID\*** egluro hyn i bob rhoddwr.
- d) Efallai y bydd sefydliadau am gadw'r hawl i wrthod caniatâd i ddarpar gyfranogwr gymryd rhan mewn digwyddiad. **RHAID\*** i unrhyw gais a wrthodir gydymffurfio â deddfwriaeth defnyddwyr a gwahaniaethu.

- e) **RHAID\*** i unrhyw gydsyniadau sy'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyfranogwr gymryd rhan mewn digwyddiad (gan gynnwys, os yw'n berthnasol, cydsyniad i dderbyn telerau ac amodau, sicrhau iechyd a diogelwch a diogelu data personol) gael ei geisio yn ysgrifenedig cyn i'r digwyddiad gael ei gynnal.

*Mae Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y [gofynion yn ymwneud â diogelu data](#).*

- f) Mae sefydliadau codi arian yn gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau iechyd a diogelwch eu gweithwyr a'r rheiny a effeithir gan eu gweithgareddau (cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol). **RHAID\*** i sefydliadau codi arian sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch (e.e. yswiriant meddygol digonol a threfniadau gwacáu) yn briodol yng nghyd-destun y digwyddiad a'r wlad.
- g) **RHAID** i'r sefydliad codi arian sicrhau bod cyfranogwyr yn ymwybodol o'r targedau codi arian y disgwylir iddynt eu cyrraedd.
- h) Os yw oedran, neu lefel ffitrwydd, paratoi neu hyfforddiant yn ofynnol ar gyfer cyfranogiad diogel **RHAID** cytuno â hyn gyda'r cyfranogwr ymlaen llaw, ynghyd ag unrhyw gydsyniad sy'n ofynnol i'r cyfranogwr gymryd rhan, sy'n **RHAID** cael ei gytuno yn ysgrifenedig ymlaen llaw.

### 15.3.3 Materion Penodol ar gyfer Digwyddiadau Her

- a) **RHAID\*** cydymffurfio â deddfwriaeth deithio gan gynnwys [Rheoliadau Teithio Pecyn, Gwyliau Pecyn a Gwibdeithiau Pecyn 1992](#) a [Rheoliadau Trwyddedu Trefnwyr Teithiau Awyr Sifil 2012](#) ("y Rheoliadau Teithio").
- b) **RHAID** i sefydliadau codi arian fod yn glir pwy sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau Teithio.
- c) **RHAID** i sefydliadau codi arian wirio hanes a dibynadwyedd y trefnwr teithiau ac unrhyw isgcontractwyr.
- d) **RHAID\*** i'r holl ddata a gafwyd wrth baratoi ar gyfer a rhedeg digwyddiad gael ei drin yn unol ag egwyddorion y gyfraith diogelu data.
- e) Wrth drefnu digwyddiad her a drafftio datganiadau casglu data mae'n **RHAID** i chi gadarnhau gyda'r trefnwr teithiau pwy fydd yn casglu'r data ac i ba ddiben y caiff y data ei gasglu a'i gadw.

*Mae Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y [gofynion yn ymwneud â diogelu data](#).*

- f) Os yw trefnwr digwyddiad, neu gyfranogwyr eu hunain, wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad o [godwr arian proffesiynol](#) neu [gyfranogwr masnachol](#), mae'n **RHAID\*** iddynt gael cytundeb ysgrifenedig yn ei le gyda'r sefydliad y mae arian yn cael ei godi ar ei gyfer a **RHAID\*** wneud y datganiadau priodol.
- g) **RHAID** i'r sefydliad y mae'r arian yn cael ei godi ar ei gyfer gymryd camau rhesymol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

## 15.4 Ar y Diwrnod

### 15.4.1 Cyffredinol

- a) Cyn y digwyddiad, **RHAID** i sefydliadau gynnal gwiriad olaf i sicrhau bod popeth yn ei le, yn enwedig allanfeydd tân, darpariaethau cymorth cyntaf acoffer.
- b) **RHAID** i drefnwyr weithredu gweithdrefnau yn y digwyddiad i osgoi tagfeydd.

### 15.4.2 Cymorth Cyntaf

- a) **RHAID\*** darparu ar gyfer cymorth cyntaf i weithwyr ac unrhyw un arall y mae'n rhesymol i ystyried eu bod wedi'i effeithio gan weithgareddau'r sefydliad.

### 15.4.3 Gwerthu/Masnachu

- a) Os ydynt yn gwerthu nwyddau mewn digwyddiad, **RHAID\*** i sefydliadau sy'n elusennau sicrhau eu bod yn gymwys i fasnachu neu fod y fasnach wedi'i chynnwys o fewn yr eithriadau masnachu.
- b) **RHAID\*** i unrhyw gynhyrchion sy'n cael eu gwerthu yn y digwyddiad gydymffurfio â'r safonau diogelwch perthnasol.
- c) **RHAID\*** i unrhyw fwyd sy'n cael ei gyflenwi gydymffurfio â'r rheoliadau sy'n gymwys i fwyd ([Rheoliadau Hylendid Bwyd \(Lloegr\) 2006](#), [Rheoliadau Hylendid Bwyd \(Cymru\) 2006](#) neu [Reoliadau Hylendid Bwyd \(yr Alban\) 2006](#) neu [Reoliadau Hylendid Bwyd \(Gogledd Iwerddon\) 2006](#) fel y bo'n gymwys). I gael rhagor o fanylion cysylltwch ag adran iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol perthnasol.
- d) Os ydynt yn gwerthu/darparu alcohol, **RHAID\*** i'r trwyddedau/caniatâd perthnasol fod yn eu lle a **RHAID\*** i derfynau oedran gael eu dilyn.

### 15.4.4 Rafflau a Lotriau

- a) Os yw loteri (sy'n cynnwys raffl) i'w chynnal mewn digwyddiad, **RHAID\*** cydymffurfio â [Deddf Hapchwarae 2005](#) neu [Orchymyn Betio, Hapchwarae, Lotriau a Difyrion \(Gogledd Iwerddon\) 1985](#) a [Gorchymyn Betio a Lotriau \(Gogledd Iwerddon\) 1994](#). I gael rhagor o wybodaeth ewch i [13.0 Rafflau a Lotriau](#).

## 15.5 Y Tri Chopa

Mae'r adran hon yn darparu safonau ychwanegol ar gyfer Her y Tri Chopa, lle mae timau yn cael eu herio i ddringo Ben Nevis, Scafell Pike a'r Wyddfa, y mynyddoedd uchaf yn yr Alban, Lloegr a Chymru.

a) **RHAID** i sefydliad:

- gofrestru pob grŵp o 12 neu ragor gyda [Chanolfan Ymwelwyr Glen Nevis](#), y man cofrestru canolog ar gyfer pob un o'r copaon o leiaf deuddeg mis ymlaen llaw (oni bai bod amserlen fyrrach wedi'i chytuno);
- cyfyngu ar nifer y cerddwyr i ddim mwy na 200 y digwyddiad;
- rhedeg digwyddiadau ar gyfnodau brig dim ond os yw hynny'n hollbwysig i'w llwyddiant neu os mai dyma yw'r unig ddewis ymarferol;
- dileu'r elfen pwysau amser trwy beidio â chynnwys amser gyrru rhwng mynyddoedd a gosod lleiafswm amser gyrru i bob cyfranogwr sy'n cael ei ychwanegu at yr amser cerdded, waeth faint o filltiroedd a yrrir mewn gwirionedd.

b) **RHAID** i'r amser cyrraedd neu adael **BEIDIO** â bod rhwng yr oriau 2300 a 0500.

c) **RHAID** i sefydliadau ddefnyddio'r [Ganolfan Ymwelwyr yn Glen Nevis](#) bob amser fel y man cychwyn ar gyfer Ben Nevis.

## 15.6 Ar ôl y Digwyddiad

### 15.6.1 Arian Heb ei Gasglu

a) **RHAID\*** i drefnwyr beidio â chaniatáu i gyfranogwyr ddefnyddio dulliau treth-ffeithiol i dalu'r ffi gofrestru, lleiafswm nawdd neu ffioedd eraill sy'n groes i reolau Rhodd Cymorth (sy'n atal Rhodd Cymorth rhag bod yn gymwys os, (a) yw'r rhoddwr yn gyfranogwr neu'n "unigolyn cysylltiedig" i'r cyfranogwr a (b) os yw'r budd i'r cyfranogwr yn fwy na'r buddion a ganiateir).

b) **RHAID** i weithdrefnau a/neu bolisi ar gyfer ddilyn i fyny achosion o beidio â thalu a pheidio â bodloni lleiafswm gofynion nawdd fod yn eu lle.

[Mae rhagor o wybodaeth am godi arian digwyddiadau ar gael yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian \(IoF\) - Event Fundraising.](#)

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)



## 16.0 Casgliadau Cyhoeddus

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

### 16.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cwmpasu casgliadau ar gyfer arian parod, nwyddau a Debydau Uniongyrchol boed wedi'u cynnal mewn lleoedd cyhoeddus, o dŷ i dŷ neu ar eiddo preifat. Mae'r gyfraith sy'n rheoli casgliadau yn amrywio yn ôl y math o gasgliad a lleoliad y casgliad a natur y rhoddion a geisir. I gael esboniad manwl o'r gofynion cyfreithiol gwahanol, gweler [Cyfarwyddyd Cyfreithiol](#).

Mae'r rheolau ar gasgliadau cyhoeddus yn gymwys i gasgliadau at ddibenion elusennol, ac maent yn cynnwys casgliadau at ddibenion llesiannol a dyngarol. Mae'r rheolaethau yn gymwys i gasgliadau ar gyfer pob sefydliad codi arian sy'n elusen, ond hefyd i gasgliadau ar gyfer y rheiny sydd heb fod yn elusennau ond sydd wedi'u sefydlu at ddibenion llesiannol a dyngarol.

### 16.2 Cyfeiriadau Cyfreithiol yn yr Adran hon

- [Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939](#)
- [Rheoliadau Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1947 \("y Rheoliadau"\)](#)
- [Deddf Casgliadau Elusennol o Dŷ i Dŷ \(Gogledd Iwerddon\) 1952](#)
- [Rheoliadau Casgliadau Elusennol o Dŷ i Dŷ \(Gogledd Iwerddon\) 1952 a 1953](#)
- [Rheoliadau enghreifftiol ar gyfer casglu ar y stryd wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn Casgliadau Elusennol \(Darpariaethau Trosiannol\) 1974](#)
- [Deddf yr Heddlu, Ffatrioedd ac ati \(Darpariaethau Amrywiol\) 1916](#)
- [Deddf Llywodraeth Ddinesig \(yr Alban\) 1982](#)
- [Rheoliadau Casgliadau Elusennol Cyhoeddus \(yr Alban\) 1984](#)

### 16.3 Gofynion Trwyddedu/Caniatâd

a) **RHAID\*** i sefydliadau codi arian sy'n cynnal casgliadau gydymffurfio â'r gweithdrefnau trwyddedu/caniatâd perthnasol.

b) Os yw cytundeb rheoli safle [Cyfarwyddiaeth Gydydffurfiaeth IoF](#) yn ei le, **RHAID** i sefydliadau gydymffurfio ag ef.

c) Yng Nghymru a Lloegr **RHAID\*** i drwydded i gasglu gael ei cheisio gan yr awdurdod perthnasol yn yr ardal, megis yr awdurdod lleol neu'r Heddlu Metropolitan (oni bai bod y casgliad yn gasgliad o [dŷ i dŷ ac mae Gorchymyn Eemptio Cenedlaethol gan yr elusen](#) - gweler y [Cyfarwyddyd Cyfreithiol](#) a'r isod am fanylion pellach).

d) Yng Ngogledd Iwerddon, **RHAID\*** i ganiatâd neu drwydded briodol gael ei cheisio gan orsaf PSNI ar gyfer pob ardal leol lle mae casgliadau o dŷ i dŷ yn cael eu cynnal.

e) Yn yr Alban, caiff y casgliad ei drwyddedu a **RHAID\*** i rwymedigaethau cyfreithiol gael eu bodloni os yw'n gasgliad o arian (boed wedi'i roi ar gyfer ystyriaeth neu beidio) sy'n cael ei gynnal mewn lle cyhoeddus neu drwy gyfrwng ymweliadau o le i le, ond ac eithrio casgliad sy'n digwydd yn ystod cyfarfod cyhoeddus neu drwy gyfrwng blwch heb ei oruchwyllo a gedwir mewn safle penodol mewn lle cyhoeddus.

Yn yr Alban, mae casglu addewidion Debyd Uniongyrchol trwy unrhyw gyfrwng heb ei gynnwys gan y rheolau trwyddedu ar hyn o bryd.

f) Yn yr Alban, oni bai ei fod yn [hyrwyddwr esempt](#), **RHAID\*** i gais ysgrifenedig gael ei wneud o leiaf mis ymlaen llaw (neu o fewn cyfnod arall fel y pennir gan yr awdurdod lleol).

g) Yn yr Alban, **RHAID\*** i ddeiliad trwydded benodi rhywun annibynnol a chyfrifol neu gyfrifydd cymwysedig i weithredu fel archwiliwr y casgliad pan fydd caniatâd yn cael ei dderbyn i gasglu. Os yw deiliad y drwydded yn penodi asiant i weithredu ar ei ran, **RHAID\*** iddo/iddi arfer diwydrwydd dyladwy yn unol â'r Rheoliadau.

h) **RHAID\*** i drwyddedau gael eu cymhwyso mewn da bryd cyn y disgwylir i'r casgliad ddigwydd.

#### **16.4 Deiliaid Trwydded Esemptiad (Gorchmynion Esemptiad Cenedlaethol, Gorchmynion Esemptiad a Hyrwyddwyr Esempt)**

a) Pan fydd gan sefydliad codi arian y budd o drwydded esemptiad cenedlaethol (yng Nghymru a Lloegr, [Gorchmyn Esemptiad Cenedlaethol](#), yn yr Alban [Hyrwyddwr Esempt](#), ac yng Ngogledd Iwerddon [Gorchmyn Esemptiad](#)) ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ, **RHAID** iddo:

- sefydlu rhaglen flynyddol glir o gasgliadau;
- gosod dyddiadau penodol flwyddyn ymlaen llaw ar gyfer pob casgliad (mae rhai sefydliadau codi arian yn argymhell dwy flynedd) a thrafod unrhyw newidiadau arfaethedig i ddyddiadau ag awdurdodau perthnasol mor gynnar â phosibl a chadarnhau'r holl newidiadau yn ysgrifenedig;
- gwneud pob ymdrech i osgoi gwrthdaro o ran dyddiadau casglu;
- rhoi gwybod i awdurdodau perthnasol am ddyddiadau casglu a, chyn belled â phosibl, y meysydd penodol i'w cwmpasu gan y casgliad;
- cadarnhau'r holl ddyddiadau a gytunwyd yn ysgrifenedig i'r awdurdodau perthnasol;
- rhoi gwybod i'r awdurdodau perthnasol, ar unwaith, am unrhyw benderfyniadau i ganslo casgliad;

- os yw hynny'n ymarferol, rhoi gwybod i'r awdurdodau heddlu perthnasol a'r holl ddeiliaid Gorchymyn Esemptiad/Hyrwyddwyr Esempt eraill drwy lythyr o'r dyddiadau casglu y cytunwyd arnynt mor gynnar â phosibl;
  - glynu wrth y dyddiadau casglu a drefnwyd;
  - sicrhau bod digon o gasglwyr ar gael i gefnogi casgliad effeithiol er mwyn peidio ag amddifadu elusennau eraill o'r cyfle i gasglu;
  - gallu darparu gwybodaeth ar union dyddiadau a lleoliadau pob casgliad; a
  - **RHAID** iddo **BEIDIO** â neilltuo cyfnodau mawr o amser.
- b) Yn yr Alban **RHAID** i [Hyrwyddwyr Esempt](#) ddilyn y safonau uchod, a **RHAID**\*:
- rhoi o leiaf 3 mis o rybudd i'r Awdurdod Lleol perthnasol am unrhyw gasgliad a fwriedir a fyddai'n **RHAID** cael trwydded fel arall;
  - dilyn y rheolau casglu trwyddedig sy'n gymwys i ddeiliaid trwydded ynghylch dyletswyddau'r trefnwr, tystysgrif awdurdod, sut y caiff yr arian ei dderbyn, ac agor casgliadau;
  - adrodd yn flynyddol i [Swyddfa Rheoleidiwr Elusennau yr Alban \(OSCR\)](#), gan roi adroddiad wedi'i archwilio o'r casgliadau a wnaed (gan gynnwys dadansoddiad fesul ardal awdurdod lleol a manylion am y treuliau sydd wedi codi), datganiad wedi'i lofnodi gan y trefnwr a datganiad gan yr archwiliwr
  - cyhoeddi hysbysiad yn crynhoi'r adroddiad wedi'i archwilio o gasgliadau mewn papur newydd sy'n cael ei gylchredeg yn genedlaethol yn yr Alban o fewn mis o gyflwyno'r cofnodion hyn i [OSCR](#).

## 16.5 Gweithio gyda Thrydydd Partïon

- a) Pan fydd yn gweithio gyda thrydydd partïon, **RHAID** i sefydliadau codi arian gael contractau yn eu lle ac eithrio, yng Nghymru a Lloegr a'r Alban, os yw [cyfranogwyr masnachol](#) neu [godwyr arian proffesiynol](#) yn cael eu defnyddio, **RHAID**\* cael contractau yn eu lle. Gweler [adran 4.5](#) am ragor o fanylion ar yr hyn y mae'n ofynnol i gontractau ei gynnwys.
- b) Yn ogystal, pan fydd casgliad yn cynnwys [cyfranogwyr masnachol](#) neu [godwyr arian proffesiynol](#) **RHAID**\* gwneud datganiadau priodol.
- c) Yng Ngogledd Iwerddon, ar hyn o bryd nid oes unrhyw reoliadau penodol yn eu lle ynghylch trydydd partïon, ond **RHAID**\* i sefydliadau codi arian ddilyn ffurfiau'r contractau a ddefnyddir mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

d) **RHAID** i sefydliadau codi arian **BEIDIO** ag ymgymryd â gweithgareddau codi arian gan ddefnyddio trydydd partïon heb weithredu rhaglen hyfforddi a briffio ar gyfer pob casgliad.

e) Os yw casglwr yn weithiwr cyflogedig yr elusen, yn swyddog â thâl neu'n ymddiriedolwr â thâl, **RHAID\*** i'r casglwr [wneud datganiad](#) i nodi ei fod yn cael ei dalu i wneud y casgliad.

f) **RHAID** i'r sefydliad codi arian egluro pwy sy'n berchen ar yr hawlfraint o ran yr holl ddeunyddiau a'r cronfeydd data sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd, cyn cychwyn y gweithgaredd hwnnw.

## 16.6 Oedran y Casglwyr

a) **RHAID\*** i'r Sefydliad Codi Arian (IoF) sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw derfynau oedran sy'n gymwys i gasgliadau.

## 16.7 Dewis ac Awdurdodi Casglwyr

a) Yng Nghymru a Lloegr, ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ, **RHAID\*** i sefydliadau codi arian arfer yr holl ddiwydrwydd dyladwy i sicrhau bod casglwyr yn unigolion addas a phriodol i gasglu.

b) Yng Nghymru a Lloegr, ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ, **RHAID\*** i gasglwyr gael tystysgrif awdurdod a bathodyn.

c) Yng Nghymru a Lloegr, ar gyfer casgliadau ar y stryd, **RHAID\*** i bob casglwr gael awdurdod ysgrifenedig yr hyrwyddwr.

d) Yn yr Alban **RHAID\*** i sefydliadau codi arian sicrhau bod:

- camau rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau bod casglwyr yn unigolion addas a phriodol i gasglu;
- pob casglwr o leiaf yr isafswm oedran sy'n ofynnol gan yr awdurdodaeth honno; a
- bod casglwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyfreithiol.

## 16.8 Hyfforddiant a Chyfarwyddyd

a) Yng Nghymru a Lloegr, ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ, **RHAID\*** i'r hyrwyddwr arfer yr holl ddiwydrwydd dyladwy i sicrhau bod casglwyr yn cydymffurfio â [Rheoliadau Casglu o Dŷ i Dŷ 1947](#).

b) Yng Ngogledd Iwerddon, **RHAID\*** i sefydliadau codi arian sicrhau bod:

- camau rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau bod casglwyr yn unigolion addas a phriodol i gasglu;
- casglwyr yn cael tystysgrif awdurdod a bathodyn a blychau casglu neu lyfrau derbynneb.

c) **RHAID** i sefydliadau codi arian sicrhau bod yr holl godwyr arian/asiantau wedi'u hyfforddi'n briodol i safonau hyfforddi rhagnodedig y Sefydliad Codi Arian (IoF) ar gyfer codi arian wyneb yn wyneb.

## 16.9 Deunyddiau Casglu

a) **RHAID\*** i gasglwyr gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â blychau casglu, tystysgrifau awdurdod a bathodynnau.

b) Yng Nghymru a Lloegr, **RHAID\*** i'r holl ddeunyddiau printiedig sy'n ceisio arian neu nwyddau ar ran elusennau cofrestredig gydag incwm o dros £10,000 [ddatgan bod yr elusen wedi'i chofrestru](#).

c) Yn yr Alban, **RHAID\*** i'r holl ddeunyddiau hyrwyddo neu ddeunyddiau eraill a ddefnyddir gan neu ar ran unrhyw elusen sydd wedi'i chofrestru gydag [OSCR](#) (boed a yw'r casgliad wedi'i drwyddedu neu beidio, a beth bynnag yw incwm yr elusen) [gynnwys enw cofrestredig yr elusen, unrhyw enw arall y mae'n ei ddefnyddio, y ffaith ei bod yn elusen \(os nad yw ei enw eisoes yn cynnwys cyfeiriad at statws elusennol\) a'i rhif elusen cofrestredig yn yr Alban](#).

d) **RHAID** i ddeunyddiau gynnwys manylion cyswllt ar gyfer y sefydliad codi arian a'r casglwyr, os ydynt yn wahanol.

e) **RHAID** i staff sy'n cynrychioli'r sefydliad codi arian ac lle y bo'n bosibl, eu cerbydau gael eu nodi'n eglur fel rhai sy'n cynrychioli'r sefydliad codi arian.

f) Er mwyn sicrhau bod yr holl gasgliadau yn cael eu monitro'n effeithlon ac yn effeithiol, **RHAID** cofnodi rhoi a dychwelyd yr holl ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â'r casgliad.

## 16.10 Cynnal Casgliadau

a) **RHAID\*** i bob casgliad gael ei gynnal yn unol â thelerau'r caniatâd/drwydded berthnasol. **RHAID\*** i gasglwyr gysylltu â phobl mewn ardaloedd ac yn ystod yr oriau gweithredu a bennir gan delerau cytundebau/trwyddedau/caniatâd (oni bai bod dilyni fyny wedi'i gytuno ag unigolyn).

b) **RHAID\*** i'r holl wybodaeth bersonol gael ei chasglu a'i dychwelyd i'r sefydliad codi arian mewn ffordd brydlon a diogel fel y cytunwyd gan y sefydliad codi arian ac i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

*Mae Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y [gofynion yn ymwneud â diogelu data](#).*

- c) Yng Nghymru a Lloegr, yn achos casgliadau o dŷ i dŷ, **RHAID** i gasglwyr **BEIDIO\*** ag 'erfyn ar unrhyw unigolyn fel ei fod yn ei gythruddo', neu anwybyddu cais i adael neu gais i beidio â dychwelyd.
- d) Yn yr Alban, **RHAID\*** i drefnwr casgliad gofnodi enw a chyfeiriad pob casglwr yn ogystal â nifer yr amlenni casglu a roddwyd iddo, neu'r rhif unigryw a nodwyd ar y blwch casglu a roddir i bob casglwr.
- e) Yn yr Alban, **RHAID\*** i sefydliadau codi arian allu darparu manylion llawn yr holl gasglwyr o fewn ardal benodol hefyd, gan gynnwys enw, cyfeiriad, rhif ffôn, yr union ardal dan sylw a'r union gyfnod pan fydd y casglwr wedi'i awdurdodi i gasglu.
- f) Yn yr Alban, **RHAID** i godwyr arian sy'n ymgymryd â chasgliad trwyddedig **BEIDIO\*** â chythruddo trwy fynnu neu bwysu ar unigolyn yn barhaus i roi a **RHAID\*** gadael eiddo (ac ni all aros yn neu wrth ddrws tŷ) os yw unrhyw un sydd yn y tŷ yn gofyn iddynt adael.
- g) Mewn achosion lle mai nod y gweithgarwch yw sicrhau math o ymrwymiad anariannol, ond mae posibilrwydd y bydd y sefydliad codi arian yn gofyn am ymrwymiad ariannol wedi hynny, **RHAID** i gasglwyr roi gwybod i'r unigolyn dan sylw am y posibilrwydd hwn yn ystod gweithgarwch cychwynnol.
- h) **RHAID** i sefydliadau codi arian allu darparu manylion llawn pawb sy'n casglu ar eu rhan mewn ardal benodol, gan gynnwys enw, cyfeiriad, rhif ffôn, yr union ardal dan sylw a'r union gyfnod pan fydd y casglwr wedi'i awdurdodi i gasglu.
- i) Os nad yw'r amserau wedi'u gosod fel rhan o gytundebau neu drwyddedau, **RHAID** i oriau gweithredu safonol fod yn 9am-9pm yn ystod yr wythnos a 10am-9pm ar y penwythnos.
- j) **RHAID** i gasglwyr osgoi achosi rhwystr, tagfeydd a niwsans i'r cyhoedd.
- k) **RHAID** i gasglwyr sicrhau eu bod nhw'n gwisgo dillad priodol, sy'n cynnwys sicrhau bod unrhyw ddillad a ddarparwyd yn dangos enw'r sefydliad codi arian i'w gweld.
- l) **RHAID** i gasglwyr **BEIDIO** ag ysmegu neu godi arian o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon.
- m) **RHAID** i gasglwyr **BEIDIO** â dwyn pwysau ar y cyhoedd i'w cefnogi, ond gallant ddwyn pwysau rhesymol.
- n) **RHAID** i sefydliadau ddefnyddio'r holl ymdrechion gorau i osgoi deisyfu rhoddion rheolaidd, megis Debydau Uniongyrchol, gan bobl ifanc dan 18 oed.
- o) **RHAID** i gasglwyr allu rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ar sut i wneud cwyn.
- p) **RHAID** i gasglwyr, pan ofynnir iddynt wneud hynny, roi'r gorau i'w dull gweithredu mewn modd cwrtais.
- q) **RHAID** i gasglwyr fod yn gwrtais bob amser.

r) Os yw "Parth Dim Galwadau Diwahoddiad" wedi cael ei greu'n gyfreithlon (h.y. o fewn canllawiau y [Sefydliad Safonau Masnachu](#), **RHAID** i gasglwyr **BEIDIO** â galw'n ddiwahoddiad. [Cewch ragor o wybodaeth am godi arian a Pharthau Galwadau Diwahoddiad](#) yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian (IoF).

s) **RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** â chnocio ar unrhyw dros eiddo sy'n dangos sticer neu arwydd sy'n cynnwys y geiriau 'Dim Galwadau Diwahoddiad'. [I gael rhagor o wybodaeth, gweler cyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian \(IoF\) ar sticeri dim galwadau diwahoddiad.](#)

t) **RHAID** i sefydliadau sy'n gweithredu casgliadau bagiau o dŷ i dŷ at ddibenion elusennol **BEIDIO** â dosbarthu bagiau i eiddo sy'n dangos sticer neu arwydd sy'n cynnwys y geiriau 'dim bagiau elusennol', 'dim bagiau dillad' neu unrhyw eiriau eraill sy'n datgan yn eglur nad yw'r deiliaid tŷ am roi trwy'r dull hwn.

### 16.11 Trin Casgliadau Arian Parod

a) **RHAID** dilyn y [safonau perthnasol ar gyfer trin rhoddion arian](#) a **RHAID\*** cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol.

b) **RHAID** i drefniadau gael eu gwneud i dderbyn enillion casgliad a'r holl ddeunyddiau a ddefnyddiwyd a heb eu defnyddio sy'n gysylltiedig â hynny yn y man penodedig wedi'i awdurdodi gan drefnwr y casgliad.

### 16.12 Gwybodaeth i'w Darparu i'r Awdurdod Trwyddedu

a) **RHAID\*** i hyrwyddwr y casgliad anfon unrhyw wybodaeth angenrheidiol i'r awdurdod trwyddedu o fewn y cyfnod gofynnol ar ôl y casgliad.

b) **RHAID** i sefydliadau codi arian gael gweithdrefnau yn eu lle i alluogi creu cyfrifon o fewn yr amserlen hon.

### 16.13 Casgliadau ar Eiddo Preifat

a) **RHAID\*** i sefydliadau gael caniatâd gan berchennog/rheolwr yr eiddo i gasglu a **RHAID\*** sicrhau eu bod nhw'n casglu ar amserau/dyddiadau/yn yr ardaloedd a bennir.

*Mae rhagor o wybodaeth am gasgliadau cyhoeddus i'w chael yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian (IoF) [Face to Face Fundraising](#) a [House to House Fundraising](#).*

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

# 17.0 Casgliadau Statig

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

## 17.1 Cyfeiriadau Cyfreithiol ar gyfer yr Adran hon

- Egwyddorion cyffredinol y Gyfraith Elusennol
- [Deddf Elusennau 1992](#)

## 17.2 Cyflwyniad

Y mathau mwyaf cyffredin o apeliadau casglu sy'n cael eu gwneud y tu allan i ofynion deddfwriaeth gyfredol sy'n rheoli gweithgarwch casgliadau cyhoeddus yw apeliadau sy'n cynnwys defnyddio blychau casglu statig - naill ai blychau sy'n sefyll ar y llawr neu ar gownteri mewn siopau, tafarndai, gwestai, ysbytai, derbynfeydd ac ati.

Yng Ngogledd Iwerddon nid yw unrhyw ddeddfwriaeth benodol yn gymwys ond mae'n arfer da i ddilyn y rheolau sy'n gymwys i weddill y Deyrnas Unedig.

### Trefnwyr casgliadau statig

Trefnwyr casgliadau statig yw'r rhai sydd â'r prif gyfrifoldeb am y casgliad. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod caniatâd digonol yn cael ei geisio ar gyfer y casgliad, eu bod nhw ac unrhyw gasglwyr eraill y maent wedi rhoi awdurdod iddynt yn gallu darparu tystiolaeth ddigonol ar gyfer hyn pan fydd angen, a bod modd adnabod yn glir yr holl gasglwyr.

## 17.3 Cyfrifoldebau trefnwyr casgliadau statig

- a) Cyn unrhyw gasgliad, **RHAID\*** i'r trefnwr gael caniatâd perchennog y safle neu'r rhai sydd â'r awdurdod i roi caniatâd i gynnal casgliad statig ar y safle. **RHAID** i'r caniatâd fod yn ysgrifenedig.
- b) **RHAID** i drefnwyr casgliad statig roi llythyr, tystysgrif awdurdod neu fathodyn i unrhyw gasglwr. Mae'r gofynion penodol ar gyfer categorïau gwahanol o gasglwr fel a ganlyn:
  - i) **RHAID** i'r casglwr hynny sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y sefydliad sy'n cael budd neu sy'n gweithredu '**ar ran**' gwirfoddolwyr ([gweler 2.2.1.2 Gwahaniaethu rhwng gwirfoddolwyr 'ar ran' a gwirfoddolwyr 'er budd'](#)) gynnwys:
    - enw'r casglwr;
    - enw a manylion cyswllt y sefydliad sy'n cael budd o'r casgliad; ac
    - enw'r trefnwr (os yw'n wahanol i'r casglwr neu'r sefydliad sy'n cael budd)



- ii) **RHAID** i'r casglwyr hynny sy'n gweithio ar gyfer asiantaeth neu gwmni ar ran y sefydliad gynnwys:
- enw'r casglwr;
  - enw a manylion cyswllt yr asiantaeth neu'r cwmni; ac
  - enw a manylion cyswllt y sefydliad sy'n cael budd o'r casgliad
- iii) **RHAID** i'r casglwyr hynny sydd yn wirfoddolwyr '**er budd**' ([gweler 2.2.1.2 Gwahaniaethu rhwng gwirfoddolwyr 'ar ran' a gwirfoddolwyr 'er budd'](#)) gynnwys:
- enw'r casglwr;
  - eu manylion cyswllt eu hunain;
  - enw'r sefydliad sy'n cael budd o'r casgliad; ac
  - enw'r trefnwr os yw'n wahanol i'r casglwr.
  - dylai gwirfoddolwyr 'er budd' hefyd allu darparu ail fath o ddull adnabod megis pasbort neu drwydded yrru i helpu i gadarnhau pwy ydynt ar gais.

#### 17.4 Cyfrifoldebau Casglwyr

- a) **RHAID** i'r casglwr (os yw'n wahanol i drefnwr y casgliad) sicrhau bod y trefnwr wedi cael caniatâd i gynnal y casgliad.
- b) **RHAID** i gasglwyr fod â llythyr, tystysgrif awdurdod neu fathodyn fel y pennir yn adran **17.3 b**.
- c) **RHAID** i'r dystysgrif awdurdod gael ei dangos i berchennog y safle neu'r sawl sydd â'r awdurdod i roi caniatâd i gynnal casgliad statig ar y safle.
- d) **RHAID** i gasglwyr egluro i berchnogion safle neu'r rhai sy'n cynnal casgliad statig ar y safle, os yw blwch yn cael ei gollu neu ei ddwyn, neu os ydynt am i'r casgliad ddod i ben, mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r casglwr neu drefnwr y casgliad, yn ysgrifenedig os oes modd.

#### 17.5 Golwg a Chynnal a Chadw Blychau Casglu

Os yw'r gwaith o reoli blychau casglu statig yn cael ei wneud ar ran elusennau neu fudiadau gwirfoddol eraill gan drydydd partïon sy'n cael eu gwobrwyo am y gwaith hwn ac sy'n deisyfu mewn perthynas ag ef, mae'n bwysig bod pob parti sy'n ymwneud â gweithgareddau blwch casglu statig yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau o dan [Ran II o Ddeddf Elusennau 1992](#) neu [Ran 2 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr \(yr Alban\) 2005](#).

- a) Yng Nghymru a Lloegr, **RHAID\*** i bob hysbysiad, hysbyseb a dogfen arall a gyhoeddir gan, neu ar ran elusen gofrestredig sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000 ac sydd, mewn unrhyw ffordd, yn ceisio cymorth ar gyfer yr elusen

gofrestredig, [gynnwys datganiad bod yr elusen yn elusen gofrestredig](#).

b) Yn yr Alban, **RHAID\*** i'r rhan fwyaf o hysbysiadau, hysbysebion a dogfennau (gan gynnwys unrhyw ddogfen sy'n deisyfu arian neu eiddo arall) a anfonir gan neu ar ran unrhyw elusen yng Nghofrestr Elusennau'r Alban [gynnwys enw cofrestredig yr elusen, unrhyw enw y mae'n ei ddefnyddio, y ffaith ei bod yn elusen \(os nad yw ei henw eisoes yn cynnwys cyfeiriad at ei statws elusennol\) a'i rhif elusen gofrestredig yn yr Alban](#).

## 17.6 Casglu ac Anfon Rhoddion i'r Sefydliadau

a) Os yw'r casglwr yn godwr arian proffesiynol, **RHAID\*** i'r holl arian gael ei ddychwelyd i'r hyrwyddwr/sefydliad heb dynnu ffioedd neu dreuliau cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl.

b) Os nad yw'n ymarferol i'r casglwr agor a chyfrif blychau casglu, **RHAID** i sefydliadau gael gweithdrefnau a chyfarwyddiadau cadarn yn eu lle i ddeiliaid safle allu cyfrif, cofnodi a bancio/dosbarthu enillion.

c) Os dymunir, **RHAID** i ddeiliaid safle gael derbynneb sy'n cynnwys cyfeiriad y safle, rhif y blwch, y dyddiad a'r swm a gasglwyd. **RHAID** i'r casglwr anfon swm llawn yr holl arian a gymerwyd o'r holl flychau i'r sefydliad heb dynnu treuliau neu ffioedd, oni bai y cytunir yn benodol.

d) **RHAID** i sefydliadau a hyrwyddwyr codi arian gadw cofnodion ar wahân o'r incwm a godwyd, a'r treuliau/ffioedd ar gyfer cynnal a chadw a gwaith gweinyddol.

[\*There is more information about static collections in the Institute of Fundraising's Management of Static Collection Points guidance.\*](#)

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

# 18.0 Cymynroddion

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

## 18.1 Cyfeiriadau Cyfreithiol ar gyfer yr Adran hon

- [Deddf Elusennau 1992](#)
- [Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr \(yr Alban\) 2005](#)
- Egwyddorion cyffredinol y gyfraith elusennol
- Egwyddorion cyffredinol y gyfraith elusennol

## 18.2 Egwyddorion Allweddol

a) **RHAID** i godwr arian **BEIDIO\*** â cheisio dylanwadu'n ormodol ar ddarpar gymynnwr.

b) **RHAID** i sefydliadau sicrhau bod yr holl weithgareddau codi arian cymynroddion yn cael eu gwneud gan ystyried:

- dyletswydd ymddiriedolwyr i sicrhau'r budd mwyaf i'r sefydliad codi arian;
- rhyddid y darpar gymynnwr i ddarparu ar gyfer ei deulu ac eraill; a
- sensitifrwydd y darpar gymynnwr a'i deulu a'i ffrindiau.

c) **RHAID** i sefydliadau sicrhau nad yw codwyr arian yn darparu cyngor cyfreithiol.

## 18.3 Deall Codi Arian Trwy Gymynroddion

a) Pan fydd codi arian trwy gymynroddion yn cael ei wneud gan drydydd parti allanol sy'n godwr arian proffesiynol, **RHAID\*** i'r codi arian gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol codi arian proffesiynol.

b) Os yw darpar gymynnwr yn gofyn i'r sefydliad neu unrhyw un o'i swyddogion neu ei weithwyr i weithredu fel ysgutor, **RHAID** i'r sefydliad ystyried yn ofalus p'un ai i gytuno neu beidio, gan gofio dyletswyddau a chyfrifoldebau gweithredu fel ysgutor a'r risgiau posibl i'r sefydliad. Os yw'r sefydliad ei hun yn cael ei benodi fel ysgutor a chyflawni'r grant o gynrychiolaeth yn ei enw ei hun, **RHAID\*** i'r sefydliad gael y pŵer i wneud hynny (ac i gymynwyr sy'n byw yng Nghymru a Lloegr fel arfer golyga hyn fod **RHAID** i'r sefydliad gael statws corfforaethol ymddiriedolaeth).

c) **RHAID** i sefydliadau sicrhau bod unrhyw fentrau a dyfeisiau cydnabod o werth priodol, gyda chost isaf bosibl fel arfer.

### 18.3.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig sy'n Ceisio Cymynroddion

a) **RHAID** i sefydliadau egluro nad yw'r cynnwys wedi'i fwriadu i fod yn gyngor cyfreithiol gan y sefydliad ac y dylai darpar gymynwyr geisio eu cyngor proffesiynol eu hunain.

b) Os yw sefydliadau yn awgrymu geiriad i ddarpar gymynwyr ar gyfer cymynroddion i'r sefydliad sydd i'w gynnwys yn eu hewyllysiau, **RHAID** iddynt sicrhau bod y geiriad a awgrymir yn gywir (a allai gynnwys ceisio cyngor cyfreithiol) a bod y sefydliad wedi'i nodi'n glir (a fydd yn dibynnu ar yr awdurdodaeth, ond fel arfer bydd yn golygu rhoi enw llawn, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa gofrestredig y sefydliad os yw'n gwmni - a rhif elusen gofrestredig, os yw'n gymwys).

### 18.3.2 Cyfathrebu mewn Person

a) **RHAID** i sefydliadau ystyried anghenion a sefyllfa unigolion agored i niwed cyn ymgymryd â gweithgareddau codi arian trwy gymynroddion o ddrws i ddrws.

b) Os yw cynnal digwyddiad yn ymwneud â chymynroddion yn unig neu os bydd cymynroddion yn cael eu trafod a'u deisyfu o bosib, **RHAID** i sefydliadau fod yn agored ynghylch y rheswm dros y gwahoddiad i ddigwyddiad.

c) **RHAID** i drefnwyr digwyddiadau **BEIDIO** â chamfanteisio ar eu 'defnydd' o fuddiolwyr neu gefnogwyr fel astudiaethau achos neu dystebau, a **RHAID** iddynt barchu eu hurddas a'u preifatrwydd.

d) **RHAID** i gyfarfodydd wyneb yn wyneb unigol mewn cartref darpar gymynnwr **BEIDIO** â digwydd heb fod yr unigolyn hwnnw wedi cael y cyfle yn gyntaf i wrthod mynychu'r cyfarfod.

e) Ym mhob math o godi arian trwy gymynroddion wyneb yn wyneb unigol, **RHAID** i godwyr arian:

- dderbyn hawl y darpar gymynnwr i wahodd trydydd parti o'i ddewis i fod yn bresennol ar unrhyw adeg yn y cyfarfod(ydd) wyneb yn wyneb);
- atgoffa'r darpar gymynnwr o bwrpas ei ymweliad wyneb yn wyneb;
- sicrhau bod y cyfarfod yn cael ei gynnal mewn modd ac am gyfnod o amser sy'n sensitif i fuddiannau a phryderon y darpar gymynnwr arbennig, a bod yn addas iddo/iddi, a **RHAID\*** sicrhau na all ymddygiad codwr arian gael ei ystyried yn fygythiol neu'n ymddygiad sy'n dwyn pwysau neu ddylanwad gormodol;
- derbyn hawl y darpar gymynnwr i derfynu'r cyfarfod wyneb yn wyneb unrhyw bryd, a **RHAID** derbyn yn brydlon ac yn gwrtais os yw'n dymuno ei derfynu; a

- gwneud a chadw nodiadau presenoldeb cyfarfodydd a dogfennau cyfathrebu â darpar gymynnwr ar ffeil.

### 18.3.3 Codwyr Arian yn Cymryd Rhan wrth Wneud Ewyllys

Os yw'r tyst i'r ewyllys yn fuddiolwr neu'n unigolyn cysylltiedig â'r sefydliad, gallai dilysrwydd yr ewyllys gael ei herio.

- RHAID** i sefydliadau **BEIDIO** â drafftio neu ymwneud yn uniongyrchol â drafftio ewyllysiau sy'n ffafrio'r sefydliad.
- RHAID** i godwyr arian sicrhau eu bod nhw'n absennol bob amser yn ystod paratoi, drafftio a llofnodi ewyllys.
- RHAID** i dystion i ewyllys lle mae'r sefydliad yn cael budd fod yn annibynnol ar y sefydliad, gan gynnwys staff a gwirfoddolwyr, er mwyn osgoi unrhyw risg o fod â "dylanwad gormodol" a allai effeithio ar ddilysrwydd y gymynrodd.

### 18.3.4 Perthynas Codwyr Arian â'r Darpar Gymynnwr

Gall perthynas agos ddatblygu rhwng codwr arian a darpar gymynnwr. Weithiau gall hyn ffafrio'r codwr arian yn hytrach na'r sefydliad, a gall cymynrodd gael ei adael i'r unigolyn ei hun, yn hytrach nag i'r sefydliad.

- Os yw cymynrodd yn cael ei chynnig mewn rhinwedd bersonol, **RHAID** i'r codwyr arian esbonio os yw'r cymynnwr am roi cymynrodd iddo/iddi yn bersonol, yna **RHAID** i'r codwr arian ddatgelu'r rhodd i'w reolwr llinell yn y sefydliad.
- RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** â manteisio ar eu cyflogaeth gan y sefydliad i ddeisyfu cymynrodd bersonol.
- Os yw sefydliad o'r farn bod codwr arian wedi camddefnyddio ei swydd ac wedi deisyfu cymynrodd bersonol, **RHAID** i'r sefydliad ddilyn y gweithdrefnau disgyblu ar gyfer delio â sefyllfaoedd o'r fath.

### 18.3.5 Talu am Ewyllysiau gydag Chronfeydd Elusennol

- RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** â'i gwneud hi'n amod i'r sefydliad gael ei gynnwys mewn ewyllys a **RHAID** iddynt **BEIDIO\*** â dylanwadu'n ormodol ar ddarpar gymynnwr.
- Yng Nghymru a Lloegr, dylai'r sefydliad ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y [Comisiwn Elusennau](#) o ran talu am ewyllysiau gyda chronfeydd elusenno

## 18.4 Ar ôl i'r Cymynrodd gael ei Gwneud

### 18.4.1 Cysylltiad Parhaus â'r Cymynwyr

- a) **RHAID\*** i sefydliadau barchu dymuniadau'r cymynnwr os nad yw am gael unrhyw gyfathrebu marchnata pellach (a fyddai'n cynnwys unrhyw geisiadau codi arian) gan y sefydliad neu lle y bo'n bosibl, os ydynt yn gwneud cais am lefel benodol o gysylltiad.
- b) Os yw cymynnwr neu ddarpar gymynnwr yn gofyn i'r sefydliad sy'n cael budd esbonio i aelodau o'r teulu a ddietheddyd pam eu bod nhw'n cael eu dietfeddu, **RHAID** i'r sefydliad wrthod neu fel arall esbonio pam mae angen y gymynrodd ar y sefydliad.

### 18.4.2 Rhoddion Amodol/Cyfyngedig

- a) Os yw cymynrodd yn cael ei gadael gyda chais/dymuniad, yn hytrach na bod yn destun amodau, **RHAID** i'r sefydliad ystyried p'un ai i gydymffurfio â dymuniadau'r cymynnwr neu beidio.
- b) Os yw cymynrodd yn cael ei gadael ar amod neu'n destun rhwymedigaeth cyfrwymol sy'n datgan bod **RHAID** iddi gael ei defnyddio at ddiben neu brosiect arbennig neu'r tebyg, **RHAID** i sefydliadau gysylltu â'r gweinyddwr/ysgutor os na ellir cyflawni'r amodau cyn derbyn y gymynrodd neu, fel arall, os na ellir cyflawni'r amodau a derbynnir y gymynrodd, **RHAID\*** i'r sefydliad ddilyn yr amodau hyn.
- c) Yn yr Alban, os yw cymynrodd neu rodd yn cael ei rhoi at bwrpas penodol ond mae'r pwrpas wedi cael ei gyflawni neu wedi'i ddarparu ar ei gyfer fel arall, ni ellir ei weithredu mwyach, mae wedi peidio â bod yn elusennol, wedi peidio â bod yn ddefnydd addas ac effeithiol o'r cronfeydd neu nid yw'n darparu defnydd ar gyfer yr holl gronfeydd, **RHAID** i sefydliadau ystyried gwneud cais i OSCR i gydnabod y gronfa gyfyngedig er mwyn i'r gronfa gyfyngedig allu cael ei defnyddio'n well mewn ffordd sy'n gyson â chyfansoddiad yr elusen. Fodd bynnag, **RHAID** i elusen **BEIDIO\*** â defnyddio cronfeydd cyfyngedig at ddiben gwahanol oni bai bod OSCR yn caniatáu cais ad-drefnu o'r fath.

### 18.4.3 Gweinyddu Cymynroddion a Rhoddion

- a) **RHAID** i sefydliadau barchu dymuniadau'r cymynnwr neu ei ystad ynghylch unrhyw gydnabyddiaeth gyhoeddus o'r rhodd.
- b) Pan geisir astudiaethau achos **RHAID** cael caniatâd y perthynas agosaf, lle'n bosibl.

[Mae rhagor o wybodaeth am godi cymynroddion ar gael yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian \(IoF\) - Legacy Fundraising.](#)

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

# 19.0 Talu Codwyr Arian

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

## 19.1 Cyfeiriadau Cyfreithiol ar gyfer yr Adran hon

- Egwyddorion cyffredinol y gyfraith elusennol
- [Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996](#)
- [Deddf Diogelu Data 1998](#)
- [Deddf Elusennau 1992](#)
- [Deddf Elusennau 2006](#)
- [Rheolau Rhodd Cymorth HMRC](#)
- [Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939](#)
  - [Rheoliadau Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1947](#)
- [Gorchymyn Casgliadau Elusennol \(Darpariaethau Trosiannol\) 1974 \(yn cynnwys rheoliadau lleol enghreifftiol\)](#)
- [Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998](#)
- [Deddf Casgliadau Elusennol o Dŷ i Dŷ \(Gogledd Iwerddon\) 1952 a 1953](#)
  - [Deddf yr Heddlu, Ffatrioedd ac ati \(Darpariaethau Amrywiol\) 1916](#)

RHAID darllen yr Atodiadau Cyfreithiol canlynol ar y cyd â'r adran hon o'r Cod Ymarfer Codi Arian

- [L3 Talu Ymddiriedolwyr](#)
- [L8 Cytundebau Codwyr Arian Proffesiynol](#)

## 19.2 Cwmpas

Mae'r adran hon yn gymwys i bob sefydliad sy'n ymwneud â thalu codwyr arian, beth bynnag fo'r dechneg codi arian benodol dan sylw neu pwy sy'n ei gyflogi, er enghraifft, y sefydliad codi arian ei hun neu sefydliad proffesiynol arall.

## 19.3 Yr Egwyddor Gyffredinol

a) **RHAID\*** i'r holl gronfeydd gael eu defnyddio mewn modd rhesymol a doeth er budd sefydliad codi arian. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod talu codwyr arian yn gymesur â'r budd y gellid yn rhesymol ddisgwyl ei gael.

## 19.4 Dewis Dull Talu Priodol

a) **RHAID** i arferion a rheolaethau fod yn eu lle i sicrhau nad yw'r dulliau talu yn golygu bod y codwr arian neu'r sefydliad ar ei golled.



## 19.5 Tâl Gormodol

- a) **RHAID** i daliadau i godwyr arian **BEIDIO\*** â bod yn ormodol. At ddibenion y cod, dylai taliad gormodol gael ei ystyried yn un sy'n sylweddol mwy na thaliad y byddai unigolyn cyffredin, gwybodus yn ei ystyried yn rhesymol.
- b) Lle y bo'n briodol, **RHAID** i uchafswm trothwyon neu raddfeydd symudol gostyngol gael eu defnyddio i osgoi taliadau gormodol.

## 19.6 Comisiwn

- a) **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO** â defnyddio taliadau comisiwn oni bai bod yr amodau canlynol wedi'u bodloni:
- mae ffynonellau eraill o fuddsoddiad codi arian wedi cael eu hystyried a'u disbyddu;
  - mae taliadau yn amodol ar gael eu cymeradwyo gan ymddiriedolwyr y sefydliad codi arian, neu uwch swyddogion gweithredol os yw pŵer wedi cael ei ddirprwyo; ac
  - mae mesurau diogelu yn eu lle i sicrhau nad yw taliadau gormodol yn cael eu caniatáu.

## 19.7 Systemau Rheoli Perfformiad

- a) **RHAID** i systemau rheoli perfformiad cadarn fod yn eu lle, gan gydnabod effaith y dull talu ar y codwr arian, y sefydliad codi arian, y buddiolwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- b) **RHAID** i'r systemau talu gael eu monitro i sicrhau eu bod nhw'n parhau i gynnal cydbwysedd rhwng dyrannu risg a chymell codwyr arian mewn modd effeithiol.

## 19.8 Gofynion Unigolion

### 19.8.1 Staffio

- a) Os yw perthynas gyflogaeth yn bodoli, **RHAID\*** i'r cyflogwr sicrhau bod y dull talu a ddewiswyd yn bodloni [Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996](#) (yng Ngogledd Iwerddon [Gorchymyn Hawliau Cyflogaeth \(Gogledd Iwerddon\) 1996](#)) a **RHAID\***

iddynt gydymffurfio â'r rheolau isafswm cyflog yn y [Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998](#).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o'r [Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau](#).

### 19.8.2 Codwyr Arian Proffesiynol

a) **RHAID**\* i'r codwyr arian ac ymgynghorwyr llawrydd hyn sydd wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad cyfreithiol o [godwr arian proffesiynol](#) gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

### 19.8.3 Gwirfoddolwyr

a) **RHAID** i dreuliau parod gwirfoddolwyr gael eu had-dalu yn unig.

### 19.8.4 Ymddiriedolwyr

a) **RHAID** i ymddiriedolwyr **BEIDIO**\* â chael eu talu am godi arian ar ran y sefydliad [oni bai bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni](#) (sy'n wahanol yn ôl yr awdurdodaeth).

[\*Mae rhagor o wybodaeth am dalu codwyr arian ar gael yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian \(IoF\) - Payment of Fundraisers.\*](#)

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)

## 20.0 Trin Rhoddion

Sylwch: Mae **RHAID\*** a **RHAID PEIDIO\*** yn dynodi gofyniad cyfreithiol; mae **RHAID** a **RHAID PEIDIO** yn dynodi gofyniad y Cod Ymarfer Codi Arian

### 20.1 Paratoi a Gweithdrefn

#### 20.1.1 Cwmpas

At ddibenion y Cod hwn a'r gyfraith, mae amlenni casglu a blychau casglu yn cael eu trin yn yr un ffordd, oni bai y nodir fel arall. Mae'r cyfarwyddyd canlynol yn cwmpasu rhoddion a dderbynnir mewn person a rhoddion a dderbynnir trwy'r post.

#### 20.1.2 Gofynion Cyffredinol

- a) **RHAID** i gofnodion gael eu gwneud o'r rhoddion ar gyfer dibenion arbennig (apeliadau/prosiectau arbennig ac ati) i sicrhau bod telerau'r rhoddion wedi'u bodloni. **RHAID\*** i delerau o'r fath gael eu bodloni.
- b) **RHAID** i [godwyr arian proffesiynol](#) a [chyfranogwyr masnachol](#) **BEIDIO\*** â gwneud unrhyw ddi-dyniad o'r arian a dderbyniwyd ar gyfer y sefydliad. **RHAID** i godwyr arian eraill **BEIDIO\*** â gwneud didyniadau o'r arian a dderbyniwyd oni bai y cytunir â'r sefydliad i wneud hynny.
- c) Gall Awdurdodau Lleol osod rheolau ychwanegol ynghylch gwneud didyniadau o gasgliadau a **RHAID\*** i godwyr arian/sefydliadau codi arian gydymffurfio â'r rhain lle y bo'n berthnasol.
- d) **RHAID\*** i dreuliau gael eu talu (lle y cytunwyd i wneud hynny ymlaen llaw) gan y sefydliad ar ôl derbyn y rhodd.

#### 20.1.3 Derbyniadau

- a) Yn achos casgliadau arian o dŷ i dŷ lle mae blwch casglu wedi'i selio yn cael ei ddefnyddio **RHAID\*** i roddion gael eu rhoi y tu mewn iddo. Fel arall, **RHAID\*** i'r casglwr roi a llofnodi derbynneb ar gyfer y swm a roddwyd.
- b) O dan y rheoliadau enghreifftiol ar gyfer casgliadau ar y stryd, **RHAID\*** i'r rhoddion gael eu rhoi mewn dysglau casglu wedi'u selio. Nid oes **RHAID** rhoi derbynneb.
- c) Yn yr Alban, **RHAID\*** i gasglwr mewn casgliad trwyddedig sy'n cael ei gynnal trwy flwch casglu dderbyn rhoddion dim ond trwy ganiatáu i'r rhoddwr eu rhoi mewn

blwch casglu. Fel arall, gall y casgliad gael ei gynnal trwy ddefnyddio amlenni wedi'u selio, ac mewn achos o'r fath **RHAID\*** i'r casglwr dderbyn rhoddion mewn amlenni wedi'u selio yn unig trwy ddefnyddio'r amlenni a roddwyd iddo. Felly nid oes modd rhoi derbynneb fel arfer.

#### 20.1.4 Bancio

- a) **RHAID** i arian gael ei fancio cyn gynted ag y bo'n ymarferol. I helpu gyda hyn, **RHAID** i sefydliadau gael trefn yn ei lle ar gyfer rhoddion bancio, megis pwy sy'n gwneud hynny a phryd.
- b) **RHAID** i arian sydd heb ei fancio ar unwaith gael ei roi mewn sêff neu leoliad diogel arall.
- c) Yn yr Alban, lle mae arian yn cael ei dderbyn mewn amlenni casglu neu flychau casglu fel rhan o gasgliad elusennol cyhoeddus **RHAID\*** ei gyfrif a'i fancio yn unol â [Rheoliadau Casgliadau Elusennol Cyhoeddus \(yr Alban\) 1984](#) fel y'i diwygiwyd.

#### 20.2 Arian parod

- a) **RHAID** i arian parod gael ei gasglu, ei gyfrif a'i gofnodi gan ddau unigolyn nad ydynt yn perthyn i'w gilydd, lle y bo'n bosibl. (**RHAID\*** i flychau casglu gael eu harchwilio a'u hagor gan hyrwyddwr y casgliad yn unig (e.e. rheolwr codi arian elusen) ac un unigolyn cyfrifol arall neu gan swyddog o'r banc).
- b) **RHAID** i arian parod heb ei ddiogelu byth gael ei adael heb ei oruchwylio neu mewn amgylchedd heb ei oruchwylio.
- c) Ar y dyddiad cynharaf posibl, **RHAID** cysoni'r arian sydd wedi'i fancio a'r crynodebau incwm. Os yw'n ymarferol, **RHAID** i rywun sy'n annibynnol ar gyfrif yr arian wneud hynny.
- d) **RHAID** i'r arian gael ei gyfrif mewn amgylchedd diogel.

#### 20.3 Sieciau

- a) **RHAID** i sieciau gael eu bancio neu, os cânt eu defnyddio, eu hanfon at gwmni trydydd parti y sefydliad yn ddi-oed.
- b) Os caiff sieciau eu hanfon at gwmni trydydd parti neu broseswr allanol, **RHAID** i sefydliadau sicrhau bod y dull o anfon y siec yn briodol i'r gwerth sy'n cael ei gludo.

Mae rhagor o wybodaeth am weithdrefnau siec ar gael o'r [Cwmni Clirio Sieciau a Chredyd](#).

## 20.4 Talebau/Sieciau Elusennau

Mae cyfrifon talebau/sieciau elusennau yn cynnig modd i roddwyr wneud rhodd(ion) trwy gyfandaliad neu symiau rheolaidd i gyfrif. Bydd yr asiantaeth sy'n gweinyddu'r cyfrif yn hawlio ac yn ychwanegu Rhodd Cymorth at y rhodd. Caiff y rhoddwr lyfr o dalebau/llyfr siec i roi'r arian hwn i'w elusennau o ddewis. Ar ôl derbyn y daleb/siec, bydd yr elusen sy'n cael budd yn cysylltu â'r asiantaeth ac yn trefnu i'r rhodd gael ei throsglwyddo.

- a) **RHAID** i sefydliadau **BEIDIO\*** ag adennill treth ar y rhodd oherwydd roedd y Rhodd Cymorth wedi cael ei ychwanegu cyn ei dderbyn.
- b) **RHAID** i dalebau gael eu bancio/clirio'n brydlon, y diwrnod gwaith nesaf yn ddelfrydol, oni bai bod sefydliad y daleb yn mynnu fel arall.

## 20.5 Trafodion Cerdyn

Mae'r adran hon yn berthnasol i drafodion os yw'r rhoddwr yn bresennol neu beidio.

Bydd y camau y mae angen eu cymryd i sicrhau diogelwch yn amrywio yn dibynnu ar nifer y trafodion sy'n cael eu gwneud. Mae canllawiau ar gael gan Gyngor Safonau Diogelwch y Diwydiant Cerdyn Talu.

- a) **RHAID** i sefydliadau gydymffurfio â [Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cerdyn Talu \(PCI-DSS\)](#). Mae PCI-DSS yn cynnwys 12 gofyniad y mae'n rhaid i bob sefydliad a busnes sy'n prosesu taliadau cerdyn eu bodloni.

*Mae **Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y [gofynion yn ymwneud â diogelu data](#).*

- b) **RHAID** i fesurau diogelwch ychwanegol megis Dilyswyd gan Visa a 3D Securecode gael eu defnyddio ar gyfer trafodion ar-lein pan fydd adnoddau yn caniatáu.
- c) Mae'r PCI-DSS wedi dweud na ddylai'r CSC gael ei storio a **RHAID** dilyn y gofyniad hwn.
- d) Os yw taliadau yn cael eu codi am drosglwyddo taliadau, **RHAID** cofnodi cyfanswm y rhodd fel incwm, gyda chofnod pellach o wariant ar gyfer y taliadau.

## 20.6 Debydau Uniongyrchol

- a) Bydd y gweithdrefnau a'r rheolau ynghylch debydau uniongyrchol yn amrywio yn dibynnu ar y banc a ddefnyddir gan y sefydliad. Mae'r Gwarant Debyd

Uniongyrchol yn bodoli i ddarparu safonau unedig a diogelwch i gwsmeriaid. **RHAID\*** i sefydliadau sydd wedi llofnodi i'r cynllun gydymffurfio ag ef.

## 20.7 Plant

- a) **RHAID** i blant o dan 16 oed **BEIDIO** â chael eu gadael gyda'r prif gyfrifoldeb am drin arian a/neu gyfrifoldeb am gyfrif yr arian a gasglwyd.
- b) Yng Nghymru a Lloegr, **RHAID** i gasgliadau o dŷ i dŷ **BEIDIO\*** â chael eu cynnal gan unrhyw un o dan 16 oed. **RHAID** i gasglwyr sy'n casglu ar y stryd **BEIDIO\*** â bod o dan 16 oed ac eithrio yn Llundain lle, os yw cydsyniad arbennig yn cael ei geisio, gall casglwyr stryd 14 oed neu hŷn gael eu defnyddio.
- c) Yn yr Alban, os yw casgliad yn gymwys fel casgliad elusennol cyhoeddus, **RHAID** i blant o dan 14 oed **BEIDIO\*** â chael eu caniatáu i gymryd rhan os yw'n gasgliad stryd a **RHAID** i blant o dan 16 oed **BEIDIO\*** â chael eu caniatáu i gasglu o dŷ i dŷ.
- d) Yng Ngogledd Iwerddon, gall sefydliadau ieuencid gael casglwyr sy'n 12 oed a hŷn os yw'r sefydliad wedi'i gymeradwyo at ddiben casglu gan yr [Adran Datblygu Cymdeithasol](#).

## 20.8 Trin Arian mewn Digwyddiadau

Mae'r wybodaeth yn yr adran hon am ddigwyddiadau yn gymwys i brosesau rhoi yn unig.

### 20.8.1 Cadw Cofnodion

- a) **RHAID\*** i sefydliadau sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â gofynion [HMRC ynghylch cadw cofnodion at ddibenion TAW](#).

### 20.8.2 Fflotiau

- a) **RHAID** i unigolyn a enwebir lofnodi i gael fflotiau.
- b) Os yw gwariant arian mân yn cael ei dalu o'r fflôt, **RHAID** i hyn gael ei gofnodi ar wahân a chadw unrhyw dderbynebion.
- c) **RHAID** i fflotiau ac unrhyw arian a dderbynnir o werthiannau gael eu cadw ar wahân i arian personol y sawl sy'n trin yr arian.

### 20.8.3 Tiliau

Yn yr adran hon, mae'r tiliau yn cynnwys cymryd a storio pob cynhwysydd arian.

- a) **RHAID** i'r holl arian gael ei roi yn y til ar unwaith.
- b) **RHAID** i'r newid gael ei roi o'r til yn unig a byth o arian personol.

### 20.8.4 Sieciau o Fasnachu

- a) **RHAID** i newid **BEIDIO** â chael eu rhoi ar gyfer sieciau.
- b) **RHAID** i ad-daliadau **BEIDIO** â bod ar gael hyd nes bod yr arian yng nghyfrif y sefydliad.

[Mae rhagor o wybodaeth am drin rhoddion ar gael yng nghyfarwyddyd y Sefydliad Codi Arian \(IoF\) - Handling of Cash and Other Donations.](#)

Yn ôl i'r [dudalen cynnwys](#)